OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 782 (Cy. 121)

CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Gwnaed *3 Gorffennaf 2024*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-39583-9

9 780348 395839

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 No. 782 (W. 121)

PUBLIC PROCUREMENT, WALES

The Procurement (Wales) Regulations 2024

Made *3 July 2024*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

£34.63

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 782 (Cy. 121)

CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

2024 No. 782 (W. 121)

PUBLIC PROCUREMENT, WALES

The Procurement (Wales) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at Ddeddf Caffael 2023 (p. 54) ("Deddf 2023").

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol, gan gynnwys y rhai sy'n nodi cymhwysiad y Rheoliadau a diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch tryloywder caffaeliadau a gyflawnir gan awdurdodau contractio, sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig, neu sydd i'w trin fel awdurdod Cymreig datganoledig o dan Ddeddf 2023. Mae rheoliad 5(1) yn darparu bod rhaid yn gyntaf gyhoeddi hysbysiadau neu ddogfennau penodol neu wybodaeth benodol, neu fod rhaid eu rhoi drwy eu cyhoeddi, ar y platfform digidol canolog sy'n system ar-lein a ddarperir gan Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU ("Swyddfa'r Cabinet") yn y cyfeiriad gwefan canlynol: https://www.gov.uk/find-tender.

Mae rheoliad 5(2) yn darparu y cydymffurfir â rheoliad 5(1) pan fo'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei gyflwyno neu wedi ei chyflwyno i'r platfform digidol Cymreig, a phan fo Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio y cyflwynwyd yr hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth yn llwyddiannus neu ei fod neu ei bod yn hygyrch i gyflenwyr ac i aelodau o'r cyhoedd. Y platfform digidol Cymreig yw'r system ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau contractio y mae rheoliad 2 yn gymwys iddynt. Gellir dod o hyd i'r platfform hwn ar y wefan a ganlyn: https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations supplement the Procurement Act 2023 (c. 54) ("the 2023 Act").

Part 1 of these Regulations contains introductory provisions, including those which set out the application of the Regulations and definitions that are used across the Regulations.

Part 2 makes provision about the transparency of procurements carried out by contracting authorities that are devolved Welsh authorities, or are to be treated as a devolved Welsh authority under the 2023 Act. Regulation 5(1) provides that certain notices, documents or information must first be published, or given, by publishing them on the central digital platform which is an online system provided by the UK government Cabinet Office ("the Cabinet Office") at the following website address: https://www.gov.uk/find-tender.

Regulation 5(2) provides that regulation 5(1) is complied with by the notice, document or information being submitted to the Welsh digital platform and the Cabinet Office has informed the contracting authority of successful submission of the notice, document or information or that it is accessible to suppliers and members of the public. The Welsh digital platform is the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies. This platform can be found at the following website address: https://www.sell2wales.gov.wales.

Mae rheoliadau 6 i 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch y modd y mae gwybodaeth graidd y cyflenwr (megis gwybodaeth personau cysylltiedig cyflenwr) yn cael ei rhannu ag awdurdod contractio gyda golwg ar ddyfarnu contract cyhoeddus neu gontract hysbysadwy sydd o dan y trothwy. Maent yn darparu bod rhaid i'r awdurdod gael cadarnhad bod y cyflenwr wedi rhannu'r wybodaeth honno drwy'r platfform digidol canolog, neu ei fod wedi cofrestru ar y platfform hwnnw cyn dyddiad cau. Mae rheoliadau 10 i 13 yn nodi pa wybodaeth sy'n wybodaeth graidd y cyflenwr.

Regulations 6 to 8 make provision about how core supplier information (such as information about a supplier's connected persons) is shared with a contracting authority with a view to the award of a public contract or a notifiable below-threshold contract. They provide that the authority must obtain confirmation that the supplier has shared that information through the central digital platform, or registered on that platform before a deadline. Regulations 10 to 13 set out what information is core supplier information.

Mae rheoliadau 14 i 42 yn gwneud darpariaeth ynghylch pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiadau neu ddogfennau y mae rhaid eu cyhoeddi, neu wybodaeth y mae rhaid ei chyhoeddi, o dan Ddeddf 2023. Mewn rhai achosion, mae darpariaeth yn pennu gwybodaeth ychwanegol i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Ddeddf 2023 ei hun yn unol â'r pwerau i wneud rheoliadau a ddarperir gan y Ddeddf honno. Er enghraifft, mae rheoliad 18 yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, yn ogystal â'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn unol ag adran 17(2)(a) o Ddeddf 2023 fel y'i caniateir yn benodol gan adran 17(2)(b) o'r Ddeddf honno.

Regulations 14 to 42 make provision about what information must be included in notices, documents or information which must be published under the 2023 Act. In some cases, a provision specifies additional information to that required by the 2023 Act itself in accordance with the regulation making powers provided by that Act. For example, regulation 18 sets out other information which must be included in a preliminary market engagement notice, in addition to the information which must be included in accordance with section 17(2)(a) of the 2023 Act, as expressly permitted by section 17(2)(b) of that Act.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth sy'n ychwanegu at Ddeddf 2023 heblaw mewn perthynas â mesurau tryloywder.

Part 3 makes provision which supplements the 2023 Act otherwise than in relation to transparency measures.

Mae rheoliad 43 ac Atodlen 1 yn pennu'r categorïau o wasanaethau sy'n cymhwyso fel "gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn" at ddiben adran 9 o Ddeddf 2023. Os yw gwasanaeth yn wasanaeth "cyffyrddiad ysgafn", caniateir ei gaffael yn unol â rheolau sy'n wahanol i'r rhai sy'n gymwys i'r mathau eraill o gontract, y mae eu caffael wedi ei gwmpasu gan Ddeddf 2023. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn nodi pa un neu ragor o'r gwasanaethau hynny sy'n "gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy" at ddiben adran 33 o Ddeddf 2023, fel y caiff awdurdod contractio ddarparu mai dim ond cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus cymhwysol, fel y'i diffinnir yn adran 33(5) o Ddeddf 2023, a all wneud cais am gontract ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Regulation 43 and Schedule 1 specify the categories of services that qualify as "light touch services" for the purpose of section 9 of the 2023 Act. If a service is "light touch" it may be procured according to different rules from those that apply to the other types of contract, whose procurement is covered by the 2023 Act. These provisions also set out which of those services are "reservable light touch services" for the purpose of section 33 of the 2023 Act, such that a contracting authority may provide that only a qualifying public service mutual, as defined in section 33(5) of the 2023 Act, can bid for a contract for those services.

Mae rheoliadau 44 a 45 ac Atodlenni 2 a 3 yn diffinio'r termau "central government authority" ("*awdurdod llywodraeth ganolog*") a "works" ("*gweithiau*") fel y'u defnyddir yn Neddf 2023. Yn Atodlen 2, mae'r endidau a ddiffinnir fel awdurdodau llywodraeth ganolog wedi eu rhestru o dan y penawdau "awdurdod arweiniol" ac "awdurdod perthynol" er mwyn darparu cysondeb â'r ffordd y mae'r awdurdodau Cymreig wedi eu cwmpasu gan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau, fel y'u nodir yn yr atodiadau i'r Cytundeb hwnnw.

Regulations 44 and 45 and Schedules 2 and 3 define the terms "central government authority" and "works" as they are used in the 2023 Act. In Schedule 2, the entities defined as central government authorities are listed under the headings "lead authority" and "related authority" in order to provide consistency with the way the Welsh authorities are covered by the World Trade Organisation's Agreement on Government Procurement, as set out in the annexes to that Agreement.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddf 2023, ac i is-ddeddfwriaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn a gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 4 of these Regulations contains consequential amendments to primary legislation, including the 2023 Act, and secondary legislation.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations has been prepared and a copy can be obtained from The Commercial and Procurement Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 782 (Cy. 121)

CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Gwnaed *3 Gorffennaf 2024*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

CYNNWYS

RHAN 1
Cyflwyniad

1. Enwi a dod i rym
2. Cymhwyso
3. Dehongli

RHAN 2
Tryloywder

4. Dehongli Rhan 2
5. Cyhoeddi hysbysiadau ar y platfform digidol canolog
6. Rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr drwy'r platfform digidol canolog
7. Gwybodaeth y cyflenwr ar gyfer contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy
8. Gwybodaeth graidd y cyflenwr: platfform ddim yn gweithio, sefyllfa frys, cyfleustodau preifat
9. Codau adnabod unigryw ac esemptiad rhag eu cyhoeddi ar y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall
10. Gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr
11. Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol
12. Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 No. 782 (W. 121)

PUBLIC PROCUREMENT, WALES

The Procurement (Wales) Regulations 2024

Made *3 July 2024*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

CONTENTS

PART 1
Introductory

1. Title and coming into force
2. Application
3. Interpretation

PART 2
Transparency

4. Interpretation of Part 2
5. Publication of notices on central digital platform
6. Sharing core supplier information through central digital platform
7. Supplier information for notifiable below-threshold contracts
8. Core supplier information: platform not working, urgency, private utilities
9. Unique identifiers and exemption from publishing them on the Welsh digital platform or alternative online system
10. Supplier's basic information
11. Supplier's economic and financial standing information
12. Supplier's connected person information

13.	Gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd	13.	Supplier's exclusion grounds information
14.	Gwybodaeth yr awdurdod contractio	14.	Contracting authority information
15.	Pwnc y contract	15.	Contract subject-matter
16.	Hysbysiadau piblinell	16.	Pipeline notices
17.	Hysbysiadau caffael arfaethedig	17.	Planned procurement notices
18.	Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad	18.	Preliminary market engagement notices
19.	Hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored	19.	Tender notices: open procedure
20.	Hysbysiadau tendro: gweithdrefn hyblyg gystadleuol	20.	Tender notices: competitive flexible procedure
21.	Hysbysiadau tendro: fframweithiau	21.	Tender notices: frameworks
22.	Hysbysiadau tendro: marchnadoedd dynamig ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol	22.	Tender notices: dynamic markets except qualifying utilities dynamic markets
23.	Hysbysiadau tendro: hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol	23.	Tender notices: qualifying utilities dynamic market notices
24.	Dogfennau tendro cysylltiedig	24.	Associated tender documents
25.	Hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy	25.	Below-threshold tender notices
26.	Hysbysiadau marchnad ddynamig (gan gynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol)	26.	Dynamic market notices (including qualifying utilities dynamic market notices)
27.	Hysbysiadau tryloywder	27.	Transparency notices
28.	Hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat	28.	Contract award notices except those published by private utilities
29.	Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat	29.	Contract award notices published by private utilities
30.	Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: dyfarniadau uniongyrchol	30.	Contract award notices published by private utilities: direct awards
31.	Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: fframweithiau	31.	Contract award notices published by private utilities: frameworks
32.	Crynodebau asesu	32.	Assessment summaries
33.	Hysbysiadau manylion contract: gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol	33.	Contract details notices: open or competitive flexible procedure
34.	Hysbysiadau manylion contract: fframweithiau	34.	Contract details notices: frameworks
35.	Hysbysiadau manylion contract: contractau cyhoeddus a ddyfernir yn unol â fframweithiau	35.	Contract details notices: public contracts awarded in accordance with frameworks
36.	Hysbysiadau manylion contract: dyfarniad uniongyrchol	36.	Contract details notices: direct award
37.	Hysbysiadau manylion contract: contractau sydd o dan y trothwy	37.	Contract details notices: below-threshold contracts
38.	Hysbysiadau terfynu caffaeliad	38.	Procurement termination notices
39.	Hysbysiadau cydymffurfedd taliadau	39.	Payments compliance notices

40. Hysbysiadau cyflawni contract ac eithrio mewn perthynas â therfynu'n llawn
41. Hysbysiadau newid contract
42. Hysbysiadau terfynu contract

RHAN 3
Darpariaethau eraill sy'n ychwanegu at Ddeddf Caffael 2023

43. Pennu gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn a gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy
44. Awdurdodau llywodraeth ganolog
45. Ystyr "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023

RHAN 4
Diwygiadau canlyniadol

46. Diwygio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
47. Diwygio Deddf Caffael 2023
48. Diwygio Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003
49. Diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004
50. Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
51. Diwygio Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018
52. Diwygio Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021
53. Diwygio Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023
54. Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013

40. Contract performance notices except in relation to full termination
41. Contract change notices
42. Contract termination notices

PART 3
Other provisions supplementing the Procurement Act 2023

43. Specification of light touch and reservable light touch services
44. Central government authorities
45. Meaning of "works" in paragraph 5(1) of Schedule 1 to the Procurement Act 2023

PART 4
Consequential amendments

46. Amendments to the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023
47. Amendments to the Procurement Act 2023
48. Amendment to the Schools Forums (Wales) Regulations 2003
49. Amendment to the Service Charges (Consultation Requirements) (Wales) Regulations 2004
50. Amendments to the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011
51. Amendment to the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (Consequential and Supplemental Provisions) Regulations 2018
52. Amendment to the Agricultural Support (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021
53. Amendments to the Public Procurement (International Trade Agreements) (Amendment) (Wales) (No. 2) Regulations 2023
54. Amendment to Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 — Gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn
ATODLEN 2 — Awdurdodau llywodraeth ganolog
ATODLEN 3 — Gweithgareddau gweithiau

SCHEDULES

SCHEDULE 1 — Light touch services
SCHEDULE 2 — Central government authorities
SCHEDULE 3 — Works activities

Mae Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 9(2), 33(8), 69(4), 87(7), 95(1), (2) a (3), 97(1) a (2), 121(1) a (2), 122(3) a 125 o Ddeddf Caffael 2023(**2**), a pharagraff 5(1) o Atodlen 1 iddi.

Yn unol ag adran 121(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli barn cyfleustodau preifat, yn ogystal ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adran 122(10)(b), (c), (e), (h), (l), (m), (o), (q) ac (r) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

The Welsh Ministers(**1**) make the following Regulations, in exercise of the powers conferred on them by sections 9(2), 33(8), 69(4), 87(7), 95(1), (2) and (3), 97(1) and (2), 121(1) and (2), 122(3) and 125, and paragraph 5(1) of Schedule 1 to the Procurement Act 2023(**2**).

In accordance with section 121(3) of that Act, the Welsh Ministers have consulted with such persons as appear to them to represent the views of private utilities, as well as such other persons as they consider appropriate.

In accordance with section 122(10)(b), (c), (e), (h), (l), (m), (o), (q) and (r), of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio Rhan 1 a rheoliad 47(1) a (2), i rym yr un pryd ag y daw adran 11 o Ddeddf Caffael 2023 i rym at unrhyw ddiben(**3**).

(3) Daw Rhan 1 a rheoliad 47(1) a (2) i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

PART 1

Introductory

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Procurement (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations, except for Part 1 and regulation 47(1) and (2), come into force at the same time at which section 11 of the Procurement Act 2023 comes into force for any purpose (**3**).

(3) Part 1 and regulation 47(1) and (2) come into force on the day after the day on which these Regulations are made.

(**1**) Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" fel y diffinnir "appropriate authority" yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn adran 111(1) o'r Ddeddf honno.
(**2**) 2023 p. 54.
(**3**) Daw adran 11 i rym ar ddiwrnod a bennir gan un o Weinidogion y Goron drwy reoliadau; a chaniateir i ddiwrnodau gwahanol gael eu pennu at ddibenion gwahanol. Gweler adran 127(2) o Ddeddf Caffael 2023.

(**1**) The Welsh Ministers are the "appropriate authority" as defined in section 123(1) of the Procurement Act 2023, subject to the restrictions set out in section 111(1) of that Act.
(**2**) 2023 c. 54.
(**3**) Section 11 comes into force on such day as a Minister of the Crown may by regulations appoint; and different days may be appointed for different purposes. See section 127(2) of the Procurement Act 2023.

Cymhwyso

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i—

(a) awdurdod contractio sy'n awdurdod Cymreig datganoledig, gan gynnwys mewn perthynas â chaffaeliad o dan drefniant caffael Cymreig datganoledig, a

(b) awdurdod contractio sydd i'w drin fel awdurdod Cymreig datganoledig o dan adran 111 o Ddeddf Caffael 2023.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod Cymreig datganoledig" yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

mae i "trefniant caffael Cymreig datganoledig" yr ystyr a roddir i "devolved Welsh procurement arrangement" yn adran 114(2) o Ddeddf Caffael 2023.

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod contractio" yr ystyr a roddir i "contracting authority" gan adran 2(1) o Ddeddf 2023;

ystyr "Deddf 2023" ("*the 2023 Act*") yw Deddf Caffael 2023;

ystyr "GGG" ("*CPV*") yw'r Eirfa Gaffael Gyffredin fel y'i mabwysiadwyd gan Reoliad (EC) Rhif 2195/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 5 Tachwedd 2002 ar yr Eirfa Gaffael Gyffredin (**2**).

RHAN 2

Tryloywder

Dehongli Rhan 2

4. Yn y Rhan hon—

mae i "amcangyfrif o werth" yr ystyr a roddir i "estimated value" gan adran 4 o Ddeddf 2023;

Application

2.—(1) These Regulations apply to—

(a) a contracting authority that is a devolved Welsh authority, including in relation to a procurement under a devolved Welsh procurement arrangement, and

(b) a contracting authority that is to be treated as a devolved Welsh authority under section 111 of the Procurement Act 2023.

(2) In this regulation—

"devolved Welsh authority" ("*awdurdod Cymreig datganoledig*") has the meaning given by section 157A of the Government of Wales Act 2006(**1**);

"devolved Welsh procurement arrangement" ("*trefniant caffael Cymreig datganoledig*") has the meaning given in section 114(2) of the Procurement Act 2023.

Interpretation

3. In these Regulations—

"the 2023 Act" ("*Deddf 2023*") means the Procurement Act 2023;

"contracting authority" ("*awdurdod contractio*") has the meaning given by section 2(1) of the 2023 Act;

"CPV" ("*GGG*") means the Common Procurement Vocabulary as adopted by Regulation (EC) No 2195/2002 of the European Parliament and of the Council of 5 November 2002 on the Common Procurement Vocabulary(**2**).

PART 2

Transparency

Interpretation of Part 2

4. In this Part—

"CA 2006" ("*Deddf 2006*") means the Companies Act 2006(**3**);

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 157A gan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), Rhan 1, adran 4(1) ac wedyn fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), Atodlen 1, paragraff 2(19) a Deddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22), adran 45(3).

(**2**) EUR 2195/2002, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1319; mae hwn yn gyfeiriad at y fersiwn a ddargadwyd o Reoliad (EC) 2195/2002. Mae'r fersiwn honno a ddargadwyd ar gael ar-lein yn https://www.legislation.gov.uk/eur/2002/2195/contents.

(**1**) 2006 c. 32. Section 157A was inserted by the Wales Act 2017 (c. 4) Pt 1 s.4(1), then amended by Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1) Schedule 1 paragraph 2(19), and the Fisheries Act 2020 (c. 22) s.45(3).

(**2**) EUR 2195/2002, as amended by S.I. 2020/1319; this is a reference to the retained version of Regulation (EC) 2195/2002. That retained version is available online at https://www.legislation.gov.uk/eur/2002/2195/contents.

(**3**) 2006 c. 46.

mae i "awdurdod priodol" yr ystyr a roddir i "appropriate authority" gan adran 123 o Ddeddf 2023;

mae i "caffaeliad" yr ystyr a roddir i "procurement" gan adran 1(1) o Ddeddf 2023;

mae i "cod adnabod unigryw" ("*unique identifier*") yr ystyr a roddir gan reoliad 9;

ystyr "cofrestr pobl â rheolaeth sylweddol" ("*PSC register*") yw'r gofrestr y mae'n ofynnol i gwmni ei chadw o dan adran 790M o DC 2006 (dyletswydd i gadw cofrestr)(**1**);

mae i "contract consesiwn" yr ystyr a roddir i "concession contract" gan adran 8 o Ddeddf 2023;

mae i "contract cyfleustodau" yr ystyr a roddir i "utilities contract" gan adran 6 o Ddeddf 2023;

mae i "contract cyfundrefn arbennig" yr ystyr a roddir i "special regime contract" gan adran 10(6) o Ddeddf 2023;

mae i "contract cyffyrddiad ysgafn" yr ystyr a roddir i "light touch contract" gan adran 9 o Ddeddf 2023;

mae i "contract cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public contract" gan adran 3 o Ddeddf 2023;

mae i "contract trosadwy" yr ystyr a roddir i "convertible contract" gan adran 74(1) o Ddeddf 2023;

mae i "cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public service mutual" gan adran 33(6) o Ddeddf 2023;

mae i "cyflenwr gwaharddedig" yr ystyr a roddir i "excluded supplier" gan adran 57(1) o Ddeddf 2023;

mae i "cyfleustod" yr ystyr a roddir i "utility" gan adran 35(4) o Ddeddf 2023;

mae i "cyfleustod preifat" yr ystyr a roddir i "private utility" gan adran 2(2) o Ddeddf 2023;

mae i "cyfnod tendro" yr ystyr a roddir i "tendering period" gan adran 54(5) o Ddeddf 2023;

ystyr "Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau" ("*GPA*") yw'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau a lofnodwyd ym Marrakesh ar 15 Ebrill 1994(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr "Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel" ("*Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership*") yw'r Cytundeb Cynhwysfawr a

"alternative online system" ("*system ar-lein arall*") has the meaning given by regulation 5(11);

"appropriate authority" ("*awdurdod priodol*") has the meaning given by section 123 of the 2023 Act;"associated tender document" ("*dogfen dendro gysylltiedig*") has the meaning given by section 21(4) of the 2023 Act;

"award criteria" ("*meini prawf dyfarnu*") has the meaning given by section 23(1) of the 2023 Act;

"Cabinet Office" ("*Swyddfa'r Cabinet*") means the UK government department with responsibility for supporting the prime minister and Cabinet of the United Kingdom acting on behalf of the Minister for the Cabinet Office;

"central digital platform" ("*platfform digidol canolo*g") means the online system established by the Minister for the Cabinet Office(**1**);

"competitive flexible procedure" ("*gweithdrefn hyblyg gystadleuol*") has the meaning given by section 20(2)(b) of the 2023 Act;

"competitive selection process" ("*proses ddethol gystadleuol*") has the meaning given by section 46(10) of the 2023 Act;

the "Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership" *(*"*Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel*") means the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership, signed at Santiago on 8 March 2018, including the Accession Protocol of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership, signed at Auckland and Bandar Seri Begawan on 16 July 2023(**2**), as amended from time to time;

"concession contract" ("*contract consesiwn*") has the meaning given by section 8 of the 2023 Act;

"connected person" ("*person cysylltiedig*") has the meaning given by paragraph 45 of Schedule 6 to the 2023 Act;

"contract award notice" ("*hysbysiad dyfarnu contract*") has the meaning given by section 50(2) of the 2023 Act;

"contract details notice" ("*hysbysiad manylion contract*") has the meaning given by section 53(2) of the 2023 Act;

(**1**) Diwygiwyd gan Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 1 ac O.S. 2017/693.

(**2**) Gellir gweld y Cytundeb yma: https://www.wto.org/english/tratop_e/gproc_e/gpa_1994_e.htm

(**1**) The central digital platform which may be accessed at https://www.gov.uk/find-tender.

(**2**) The Agreement can be found online at: https://www.mfat.govt.nz/en/trade/free-trade-agreements/free-trade-agreements-in-force/cptpp/comprehensive-and-progressive-agreement-for-trans-pacific-partnership-text-and-resources/

Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, a lofnodwyd yn Santiago ar 8 Mawrth 2018, gan gynnwys Protocol Derbyn Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, a lofnodwyd yn Auckland a Bandar Seri Begawan ar 16 Gorffennaf 2023(**1**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

mae i "dangosyddion perfformiad allweddol" yr ystyr a roddir i "key performance indicators" gan adran 52(4) o Ddeddf 2023;

mae i "darparwr cyflogaeth â chymorth" yr ystyr a roddir i "supported employment provider" gan adran 32(4) o Ddeddf 2023;

ystyr "DC 2006" ("*CA 2006*") yw Deddf Cwmnïau 2006(**2**);

mae i "dogfen dendro gysylltiedig" yr ystyr a roddir i "associated tender document" gan adran 21(4) o Ddeddf 2023;

mae i "dosbarthiad daearyddol" ("*geographical classification*") yr ystyr a roddir gan reoliad 15(2);

mae i "fframwaith" yr ystyr a roddir i "framework" gan adran 45(2) o Ddeddf 2023;

mae i "fframwaith agored" yr ystyr a roddir i "open framework" gan adran 49(1) o Ddeddf 2023;

mae i "gweithdrefn agored" yr ystyr a roddir i "open procedure" gan adran 20(2)(a) o Ddeddf 2023;

mae i "gweithdrefn hyblyg gystadleuol" yr ystyr a roddir i "competitive flexible procedure" gan adran 20(2)(b) o Ddeddf 2023;

mae i "gweithiau" ("*works*") yr ystyr a roddir gan reoliad 45;

mae i "gwybodaeth yr awdurdod contractio" ("*contracting authority information*") yr ystyr a roddir gan reoliad 14;

mae i "gwybodaeth graidd y cyflenwr" ("*core supplier information*") yr ystyr a roddir gan reoliad 6(9);

ystyr "heb fod ar gael" ("*unavailable*") yw bod y platfform digidol Cymreig heb fod yn weithredol am ddim llai na 4 awr;

mae i "hysbysiad caffael arfaethedig" yr ystyr a roddir i "planned procurement notice" gan adran 15(2) o Ddeddf 2023;

"contract subject-matter" ("*pwnc y contract*") has the meaning given by regulation 15;

"contracting authority information" ("*gwybodaeth yr awdurdod contractio*") has the meaning given by regulation 14;

"convertible contract" ("*contract trosadwy*") has the meaning given by section 74(1) of the 2023 Act;

"core supplier information" ("*gwybodaeth graidd y cyflenwr*") has the meaning given by regulation 6(9);

"dynamic market" ("*marchnad ddynamig*") has the meaning given by section 34(8) of the 2023 Act;

"dynamic market notice" ("*hysbysiad marchnad ddynamig*") has the meaning given by section 39 of the 2023 Act;

"estimated value" ("*amcangyfrif o werth*") has the meaning given by section 4 of the 2023 Act;

"excluded supplier" ("*cyflenwr gwaharddedig*") has the meaning given by section 57(1) of the 2023 Act;

"framework" ("*fframwaith*") has the meaning given by section 45(2) of the 2023 Act;

"geographical classification" ("*dosbarthiad daearyddol*") has the meaning given by regulation 15(2);

the "GPA" ("*Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau*") means Agreement on Government Procurement signed at Marrakesh on 15 April 1994(**1**), as amended from time to time;

"key performance indicators" ("*dangosyddion perfformiad allweddol*") has the meaning given by section 52(4) of the 2023 Act;

"light touch contract" ("*contract cyffyrddiad ysgafn*") has the meaning given by section 9 of the 2023 Act;

"open framework" ("*fframwaith agored*") has the meaning given by section 49(1) of the 2023 Act;

"open procedure" ("*gweithdrefn agored*") has the meaning given by section 20(2)(a) of the 2023 Act;

"pipeline notice" ("*hysbysiad piblinell*") has the meaning given by section 93(3) of the 2023 Act;

"planned procurement notice" ("*hysbysiad caffael arfaethedig*") has the meaning given by section 15(2) of the 2023 Act;

(**1**) Gellir dod o hyd i'r Cytundeb ar-lein yn: https://www.mfat.govt.nz/en/trade/free-trade-agreements/free-trade-agreements-in-force/cptpp/comprehensive-and-progressive-agreement-for-trans-pacific-partnership-text-and-resources/

(**2**) 2006 p. 46.

(**1**) The Agreement can be seen here: https://www.wto.org/english/tratop_e/gproc_e/gpa_1994_e.htm

mae i "hysbysiad dyfarnu contract" yr ystyr a roddir i "contract award notice" gan adran 50(2) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad manylion contract" yr ystyr a roddir i "contract details notice" gan adran 53(2) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad marchnad ddynamig" yr ystyr a roddir i "dynamic market notice" gan adran 39 o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol" yr ystyr a roddir i "qualifying utilities dynamic market notice" gan adran 40(6) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad piblinell" yr ystyr a roddir i "pipeline notice" gan adran 93(3) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad tendro" yr ystyr a roddir i "tender notice" gan adran 21(2) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad tryloywder" yr ystyr a roddir i "transparency notice" gan adran 44(2) o Ddeddf 2023;

mae i "hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad" yr ystyr a roddir i "preliminary market engagement notice" gan adran 17(2) o Ddeddf 2023;

mae i "marchnad ddynamig" yr ystyr a roddir i "dynamic market" gan adran 34(8) o Ddeddf 2023;

mae i "meini prawf dyfarnu" yr ystyr a roddir i "award criteria" gan adran 23(1) o Ddeddf 2023;

mae i "menter fach a chanolig ei maint" ("*small and medium-sized enterprise*") yr ystyr a roddir gan adran 123(1) o Ddeddf 2023;

mae i "person cysylltiedig" yr ystyr a roddir i "connected person" gan baragraff 45 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023;

ystyr "platfform digidol canolog" ("*central digital platform*") yw'r system ar-lein a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet(**1**);

ystyr "platfform digidol Cymreig" ("*Welsh digital platform*") yw'r system ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio gan awdurdodau contractio y mae rheoliad 2 yn gymwys iddynt;

mae i "proses ddethol gystadleuol" yr ystyr a roddir i "competitive selection process" gan adran 46(10) o Ddeddf 2023;

mae i "pwnc y contract" ("*contract subject-matter*") yr ystyr a roddir gan reoliad 15;

"preliminary market engagement notice" ("*hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad*") has the meaning given by section 17(2) of the 2023 Act;

"private utility" ("*cyfleustod preifat*") has the meaning given by section 2(2) of the 2023 Act;

"procurement" ("*caffaeliad*") has the meaning given by section 1(1) of the 2023 Act;

"PSC register" ("*cofrestr pobl â rheolaeth sylweddol*") means the register that a company is required to keep under section 790M of the CA 2006 (duty to keep register)(**1**);

"public contract" ("*contract cyhoeddus*") has the meaning given by section 3 of the 2023 Act;

"public service mutual" ("*cwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus*") has the meaning given by section 33(6) of the 2023 Act;

"qualifying utilities dynamic market notice" ("*hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol*") has the meaning given by section 40(6) of the 2023 Act;

"significant control" ("*rheolaeth sylweddol*") has the meaning given by section 790C(2) of the CA 2006(**2**);

"small and medium-sized enterprise" ("*menter fach a chanolig ei maint*") has the meaning given by section 123(1) of the 2023 Act;

"special regime contract" ("*contract cyfundrefn arbennig*") has the meaning given by section 10(6) of the 2023 Act;

"supported employment provider" ("*darparwr cyflogaeth â chymorth*") has the meaning given be section 32(4) of the 2023 Act;

"tender notice" ("*hysbysiad tendro*") has the meaning given by section 21(2) of the 2023 Act;

"tendering period" ("*cyfnod tendro*") has the meaning given by section 54(5) of the 2023 Act;

"transparency notice" ("*hysbysiad tryloywder*") has the meaning given by section 44(2) of the 2023 Act;

"unavailable" ("*heb fod ar gael*") means that the Welsh digital platform has not been operational for not less than 4 hours;

"unique identifier" ("*cod adnabod unigryw*") has the meaning given by regulation 9;

(**1**) Gellir cyrchu'r platfform digidol canolog yn: https://www.gov.uk/find-tender.

(**1**) Amended by the Small Business, Enterprise and Employment Act 2015 (c. 26) Schedule 3(1) paragraph 1; and S.I. 2017/693.

(**2**) Inserted by the Small Business, Enterprise and Employment Act 2015 (c. 26) Schedule 3(1) paragraph 1.

mae i "rheolaeth sylweddol" yr ystyr a roddir i "significant control" gan adran 790C(2) o DC 2006(**1**);

ystyr "Swyddfa'r Cabinet" ("*Cabinet Office*") yw adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gefnogi prif weinidog a Chabinet y Deyrnas Unedig, gan weithredu ar ran y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet;

mae i "system ar-lein arall" ("*alternative online system*") yr ystyr a roddir gan reoliad 5(11).

"utilities contract" ("*contract cyfleustodau*") has the meaning given by section 6 of the 2023 Act;

"utility" ("*cyfleustod*") has the meaning given by section 35(4) of the 2023 Act;"Welsh digital platform" ("*platfform digidol Cymreig*") means the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies;

"works" ("*gweithiau*") has the meaning given by regulation 45.

Cyhoeddi hysbysiadau ar y platfform digidol canolog

5.—(1) Rhaid cyhoeddi neu roi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth a gyhoeddir neu a roddir o dan ddarpariaeth o Ddeddf 2023 a restrir ym mharagraff (5) drwy gyhoeddi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth gan yr awdurdod contractio ar y platfform digidol canolog yn gyntaf.

(2) Oni bai bod paragraff (3) neu baragraff (6) yn gymwys, mae'r gofyniad ym mharagraff (1) i'r awdurdod contractio gyhoeddi neu roi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth ar y platfform digidol canolog yn gyntaf wedi ei fodloni pan fo'r awdurdod contractio wedi cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth i'r platfform digidol Cymreig ac—

(a) bo'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei gyhoeddi i'r platfform digidol canolog, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei chyhoeddi iddo, neu

(b) bo modd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyrchu'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol canolog.

(3) Os yw'r platfform digidol Cymreig heb fod ar gael fel na ellir bodloni'r gofyniad ym mharagraff (2), caniateir i awdurdod contractio gyhoeddi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth—

(a) ar y platfform digidol canolog, neu

(b) ar y platfform digidol canolog drwy ddefnyddio system ar-lein arall.

Publication of notices on central digital platform

5.—(1) A notice, document or information which is published or given under a provision of the 2023 Act listed in paragraph (5) must first be published or given, by the contracting authority publishing it on the central digital platform.

(2) Unless paragraph (3) or paragraph (6) apply, the requirement in paragraph (1) for the contracting authority to first publish or give a notice, document or information on the central digital platform is met where the contracting authority has submitted the notice, document or information to the Welsh digital platform and—

(a) the Minister for the Cabinet Office has informed the contracting authority that the notice, document or information has successfully been submitted for publication to the central digital platform, or

(b) the notice, document or information is capable of being accessed by suppliers and members of the public on the central digital platform.

(3) If the Welsh digital platform is unavailable so that the requirement in paragraph (2) cannot be met, a contracting authority may publish a notice, document or information—

(a) on the central digital platform, or

(b) on the central digital platform by using an alternative online system.

(**1**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 1.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys bydd y gofyniad ym mharagraff (1) wedi ei fodloni—

(a) pan fo'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei gyhoeddi i'r platfform, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer ei chyhoeddi iddo, neu

(b) pan fo modd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyrchu'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol canolog.

(5) Y darpariaethau perthnasol o Ddeddf 2023 yw—

(a) adran 15(1) (hysbysiadau caffael arfaethedig)(**1**),

(b) adran 17(1)(a) (hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad),

(c) adran 21(1) (hysbysiadau tendro),

(d) adran 24(4) (mireinio meini prawf dyfarnu), mewn cysylltiad ag ailgyhoeddi hysbysiadau tendro yn unig,

(e) adran 31(5) (addasu caffaeliad adran 19), mewn cysylltiad ag ailgyhoeddi hysbysiadau tendro yn unig,

(f) adran 39(2) (hysbysiadau marchnad ddynamig: bwriad i sefydlu marchnad ddynamig)(**2**),

(g) adran 39(3) (hysbysiadau marchnad ddynamig: sefydlu marchnad ddynamig),

(h) adran 39(4) (hysbysiadau marchnad ddynamig: addasiadau i farchnad ddynamig),

(i) adran 39(5) (hysbysiadau marchnad ddynamig: diwedd marchnad ddynamig),

(j) adran 44(1) (hysbysiadau tryloywder),

(k) adran 50(1) (hysbysiadau dyfarnu contract),

(l) adran 52(3) (dangosyddion perfformiad allweddol),

(m) adran 53(1) (hysbysiadau manylion contract),

(n) adran 53(3) (copïau o gontractau),

(o) adran 55(2) (hysbysiadau terfynu caffaeliad),

(p) adran 69(1) (hysbysiadau cydymffurfedd taliadau),

(4) Where paragraph (3) applies the requirement in paragraph (1) will be met where—

(a) the Minister for the Cabinet Office has informed the contracting authority that the notice, document or information has successfully been submitted for publication to the central digital platform, or

(b) the notice, document or information is capable of being accessed by suppliers and members of the public on the central digital platform.

(5) The relevant provisions of the 2023 Act are—

(a) section 15(1) (planned procurement notices)(**1**),

(b) section 17(1)(a) (preliminary market engagement notices),

(c) section 21(1) (tender notices),

(d) section 24(4) (refining award criteria), in respect of republishing tender notices only,

(e) section 31(5) (modifying a section 19 procurement), in respect of republishing tender notices only,

(f) section 39(2) (dynamic market notices: intention to establish a dynamic market)(**2**),

(g) section 39(3) (dynamic market notices: establishment of a dynamic market),

(h) section 39(4) (dynamic market notices: modifications to a dynamic market),

(i) section 39(5) (dynamic market notices: cessation of a dynamic market),

(j) section 44(1) (transparency notices),

(k) section 50(1) (contract award notices),

(l) section 52(3) (key performance indicators),

(m) section 53(1) (contract details notices),

(n) section 53(3) (copies of contracts),

(o) section 55(2) (procurement termination notices),

(p) section 69(1) (payments compliance notices),

(**1**) Mae hysbysiadau caffael arfaethedig yn cynnwys hysbysiadau caffael arfaethedig cymhwysol (gweler adran 15(3) o Ddeddf 2023).

(**2**) Mae hysbysiadau marchnad ddynamig o dan adran 39(2) yn cynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol (gweler adran 40(6) o Ddeddf 2023).

(**1**) Planned procurement notices include qualifying planned procurement notices (see section 15(3) of the 2023 Act).

(**2**) Dynamic market notices under section 39(2) include qualifying utilities dynamic market notices (see section 40(6) of the 2023 Act.).

(q) adran 71(2)(b) (cyflawni contract: asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol),

(r) adran 71(5) (cyflawni contract: torri contract cyhoeddus neu fethu â chyflawni),

(s) adran 75(1) (hysbysiadau newid contract),

(t) adran 75(5) (hysbysiadau newid contract: addasiadau a wneir ar y cyd),

(u) adran 77(1) (cyhoeddi addasiadau),

(v) adran 80(1) (hysbysiadau terfynu contract),

(w) adran 87(1) (hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy),

(x) adran 87(3) (hysbysiadau manylion contract yn dilyn contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy),

(y) adran 93(2) (hysbysiadau piblinell), a

(z) adran 94(3) (esemptiadau cyffredinol rhag dyletswyddau i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth: gwybodaeth yn cael ei chadw yn ôl).

(6) Os yw'r holl amodau sy'n gymwys ym mharagraff (7) wedi eu bodloni, caiff yr awdurdod contractio gyhoeddi neu roi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol Cymreig neu, os nad yw ar gael, ar system ar-lein arall ac wrth wneud hynny mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai am y tro yn bodloni'r gofyniad ym mharagraff (1).

(7) Yr amodau yw—

(a) yn achos hysbysiad a grybwyllir ym mharagraff (8), nad oes llai na 4 awr wedi mynd heibio ers cyflwyno'r hysbysiad ar gyfer ei gyhoeddi i'r platfform digidol canolog,

(b) yn achos unrhyw hysbysiad arall, unrhyw ddogfen arall neu unrhyw wybodaeth arall, nad oes llai nag 48 awr wedi mynd heibio ers cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar gyfer ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi i'r platfform digidol canolog,

(c) nad yw'r awdurdod contractio wedi cael cadarnhad gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet fod yr hysbysiad wedi ei gyhoeddi ar y platfform digidol canolog yn llwyddiannus, neu fod y ddogfen neu'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi arno'n llwyddiannus, a

(d) nad oes modd i aelodau o'r cyhoedd gyrchu'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth ar y platfform digidol canolog.

(q) section 71(2)(b) (contract performance: assessment of performance against key performance indicators),

(r) section 71(5) (contract performance: breach of public contract or failure to perform),

(s) section 75(1) (contract change notices),

(t) section 75(5) (contract change notices: modifications taken together),

(u) section 77(1) (publication of modifications),

(v) section 80(1) (contract termination notices),

(w) section 87(1) (below-threshold tender notices),

(x) section 87(3) (contract details notices following notifiable below-threshold contracts),

(y) section 93(2) (pipeline notices), and

(z) section 94(3) (general exemptions from duties to publish or disclose information: information being withheld).

(6) If all of the conditions that apply in paragraph (7) are met the contracting authority may publish or give the notice, document or information on the Welsh digital platform or, if unavailable, on an alternative online system and in doing so the authority is to be treated as meeting for the time being the requirement in paragraph (1).

(7) The conditions are that—

(a) in the case of a notice mentioned in paragraph (8), no less than 4 hours have passed since the notice was submitted for publication to the central digital platform,

(b) in the case of any other notice, or a document or information, no less than 48 hours have passed since the notice, document or information was submitted for publication to the central digital platform,

(c) the contracting authority has not received confirmation from the Minister for the Cabinet Office that the notice, document or information has successfully been published on the central digital platform, and

(d) the notice, document or information is not capable of being accessed by members of the public on the central digital platform.

(8) Yr hysbysiadau yw hysbysiad tryloywder, hysbysiad dyfarnu contract neu hysbysiad manylion contract sy'n ymwneud ag—

(a) dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan baragraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys), neu

(b) dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.).

(9) Ond nid yw'r awdurdod contractio i gael ei drin mwyach fel pe bai am y tro yn bodloni'r gofyniad ym mharagraff (1) os yw'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn rhoi gwybod i'r awdurdod contractio fod cyflwyno'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth i'r platfform digidol canolog wedi ei wrthod.

(10) Rhaid i awdurdod contractio sy'n defnyddio'r platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall yn unol â pharagraff (6) gydweithredu â'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet er mwyn sicrhau bod yr hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth o dan sylw wedi hynny—

(a) yn cael ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi ar y platfform digidol canolog, a

(b) yn gallu cael ei gyrchu neu ei chyrchu gan aelodau o'r cyhoedd ar y system honno.

(11) Ystyr "system ar-lein arall" yw system ar-lein ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am gaffael—

(a) sy'n system rad ac am ddim ac ar gael yn rhwydd i gyflenwyr ac aelodau o'r cyhoedd,

(b) sy'n system hygyrch i bobl anabl, ac

(c) nad y platfform digidol canolog na'r platfform digidol Cymreig mohoni.

(12) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi'r hysbysiad, y ddogfen neu'r wybodaeth yn rhywle heblaw ar y platfform digidol canolog, y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall, ond ni chaiff yr awdurdod wneud hynny cyn cydymffurfio â gofynion paragraff (1) neu (6).

Rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr drwy'r platfform digidol canolog

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i awdurdod contractio pan fo cyflenwr yn rhannu gwybodaeth graidd y cyflenwr â'r awdurdod yn ystod gweithdrefn a restrir ym mharagraff (2) gyda golwg ar ddyfarnu contract cyhoeddus.

(2) Y gweithdrefnau yw—

(a) gweithdrefn agored,

(b) gweithdrefn hyblyg gystadleuol,

(8) The notices are a transparency notice, contract award notice or contract details notice relating to—

(a) the direct award of a public contract under paragraphs 13 and 14 of Schedule 5 to the 2023 Act (urgency), or

(b) the direct award of a public contract under section 42 of the 2023 Act (direct award to protect life, etc.).

(9) But the contracting authority is no longer to be treated as meeting for the time being the requirement in paragraph (1) if the Minister for the Cabinet Office informs the contracting authority that the submission of the notice, document or information to the central digital platform has been rejected.

(10) A contracting authority which uses the Welsh digital platform or an alternative online system in accordance with paragraph (6) must cooperate with the Minister for the Cabinet Office to ensure that the notice, document or information in question is subsequently—

(a) published on the central digital platform, and

(b) capable of being accessed by members of the public on that system.

(11) An "alternative online system" is an online system for publishing procurement information which is—

(a) free of charge and readily accessible to suppliers and members of the public,

(b) accessible to disabled people, and

(c) not the central digital platform or the Welsh digital platform.

(12) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing the notice, document or information somewhere other than on the central digital platform, the Welsh digital platform or alternative online system but the authority must not do so before complying with the requirements of paragraph (1) or (6).

Sharing core supplier information through central digital platform

6.—(1) This regulation applies to a contracting authority where a supplier shares core supplier information with the authority during a procedure listed in paragraph (2) with a view to the award of a public contract.

(2) The procedures are—

(a) an open procedure,

(b) a competitive flexible procedure,

(c) dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, neu

(d) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023.

(3) Os rhennir gwybodaeth graidd y cyflenwr—

(a) yn ystod gweithdrefn agored, neu

(b) yn ystod gweithdrefn hyblyg gystadleuol,

rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (5) cyn diwedd y cyfnod tendro.

(4) Os rhennir gwybodaeth graidd y cyflenwr—

(a) cyn dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, neu

(b) yn ystod proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o'r Ddeddf honno,

rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (5) cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus.

(5) Y materion yw bod y cyflenwr—

(a) wedi cofrestru ar y platfform digidol canolog,

(b) wedi cyflwyno gwybodaeth graidd ddiweddaraf y cyflenwr i'r platfform hwnnw, ac

(c) wedi rhannu'r wybodaeth graidd ddiweddaraf honno am y cyflenwr â'r awdurdod contractio drwy gyfleuster sydd wedi ei ddarparu ar y platfform hwnnw at ddiben rhannu gwybodaeth graidd cyflenwyr.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys—

(a) pan fo cyflenwr wedi rhannu gwybodaeth graidd ddiweddaraf y cyflenwr ag awdurdod contractio yn ystod gweithdrefn a restrir ym mharagraff (2), a

(b) pan fo gwybodaeth graidd y cyflenwr yn newid wedi hynny, a bo'r cyflenwr yn rhannu â'r awdurdod contractio, cyn i'r contract cyhoeddus gael ei ddyfarnu, wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddaru neu wedi ei chywiro.

(7) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad pellach gan y cyflenwr ynghylch y materion ym mharagraff (8) cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus.

(8) Y materion yw bod y cyflenwr—

(a) wedi cyflwyno i'r platfform digidol canolog wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddaru neu ei chywiro, a

(c) a direct award under section 41 or 43 of the 2023 Act, or

(d) a competitive selection process for frameworks under section 46 of the 2023 Act.

(3) If the core supplier information is shared—

(a) during an open procedure, or

(b) a competitive flexible procedure,

the contracting authority must obtain confirmation from the supplier of the matters in paragraph (5) before the end of the tendering period.

(4) If the core supplier information is shared—

(a) before a direct award under section 41 or 43 of the 2023 Act, or

(b) during a competitive selection process for frameworks under section 46 of that Act,

the contracting authority must obtain confirmation from the supplier of the matters in paragraph (5) before the award of the public contract.

(5) The matters are that the supplier—

(a) has registered on the central digital platform,

(b) has submitted its up-to-date core supplier information to that platform, and

(c) has shared that up-to-date core supplier information with the contracting authority by means of a facility provided on that platform for the purpose of sharing core supplier information.

(6) Paragraph (7) applies where—

(a) a supplier has shared up-to-date core supplier information with a contracting authority during a procedure listed in paragraph (2), and

(b) the supplier's core supplier information subsequently changes, and the supplier shares updated or corrected core supplier information with the contracting authority before the award of the public contract.

(7) The contracting authority must obtain a further confirmation from the supplier of the matters in paragraph (8) before the award of the public contract.

(8) The matters are that the supplier—

(a) has submitted the updated or corrected core supplier information to the central digital platform, and

(b) wedi rhannu'r wybodaeth graidd y cyflenwr sydd wedi ei diweddaru neu ei chywiro â'r awdurdod contractio drwy gyfleuster a ddarperir ar y platfform hwnnw at ddiben rhannu gwybodaeth graidd cyflenwyr.

(9) Yn yRhan hon, ystyr "gwybodaeth graidd y cyflenwr" yw—

(a) gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr, a nodir yn rheoliad 10,

(b) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa ariannol ac economaidd, a nodir yn rheoliad 11,

(c) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig, a nodir yn rheoliad 12, a

(d) gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd, a nodir yn rheoliad 13.

(10) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriad at gyfleuster a ddarperir ar y platfform digidol canolog yn cynnwys cyfeiriad at gyfleuster i lawrlwytho gwybodaeth sydd i'w hanfon ymlaen at awdurdod contractio gan gyflenwr.

(11) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 8.

(b) has shared the updated or corrected core supplier information with the contracting authority by means of a facility provided on that platform for the purpose of sharing core supplier information.

(9) In this Part, "core supplier information" means—

(a) the supplier's basic information set out in regulation 10,

(b) the supplier's economic and financial standing information set out in regulation 11,

(c) the supplier's connected person information set out in regulation 12, and

(d) the supplier's exclusion grounds information set out in regulation 13.

(10) In this regulation a reference to a facility provided on the central digital platform includes a reference to a facility to download information to be forwarded on to a contracting authority by a supplier.

(11) This regulation is subject to regulation 8.

Gwybodaeth y cyflenwr ar gyfer contractau hysbysadwy sydd o dan y trothwy

7.—(1) Cyn i gyflenwr gymryd rhan mewn caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy ac a gyflawnir gan awdurdod contractio, rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y cyflenwr wedi cofrestru ar y platfform digidol canolog.

(2) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad cofrestru gan y cyflenwr cyn dyfarnu'r contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy.

(3) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy" ("*notifiable below-threshold procurement*") yw dyfarnu contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy, ymrwymo iddo a'i reoli;

mae i "contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy" yr ystyr a roddir i "notifiable below-threshold contract" gan adran 87(4) o Ddeddf 2023.

Supplier information for notifiable below-threshold contracts

7.—(1) Before a supplier participates in a notifiable below-threshold procurement carried out by a contracting authority, the authority must ensure that the supplier has registered on the central digital platform.

(2) The contracting authority must obtain confirmation of registration from the supplier before the award of the notifiable below-threshold contract.

(3) In this regulation—

"notifiable below-threshold contract" ("*contract hysbysadwy sydd o dan y trothwy*") has the meaning given by section 87(4) of the 2023 Act;

"notifiable below-threshold procurement" ("*caffaeliad hysbysadwy sydd o dan y trothwy*") means the award, entry into and management of a notifiable below-threshold contract.

Gwybodaeth graidd y cyflenwr: platfform ddim yn gweithio, sefyllfa frys, cyfleustodau preifat

8.—(1) Pan na fo modd i awdurdod contractio, mewn cysylltiad â gwybodaeth graidd y cyflenwr a rennir yn ystod gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol, gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion yn rheoliad 6(5) cyn diwedd y cyfnod tendro oherwydd y rheswm ym mharagraff (2), mae paragraff (3) yn gymwys.

(2) Y rheswm yw nad oedd modd i'r cyflenwr gofrestru'n rhesymol ar y platfform digidol canolog, cyflwyno gwybodaeth iddo, neu ddefnyddio cyfleuster ar gyfer rhannu gwybodaeth drwyddo, oherwydd nad oedd y platfform hwnnw yn gweithio'n briodol yn ystod unrhyw gyfnod cyn diwedd y cyfnod tendro.

(3) Rhaid i'r awdurdod contractio gael cadarnhad gan y cyflenwr ynghylch y materion yn rheoliad 6(5) cyn gynted ag y bo'n ymarferol a pha un bynnag cyn dyfarnu'r contract.

(4) Mae rheoliad 6 yn gymwys yn achos dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys), ond gan ddarllen rheoliad 6—

(a) fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff (4) at yr awdurdod contractio yn cael cadarnhad cyn dyfarnu'r contract cyhoeddus yn gyfeiriad at yr awdurdod yn cael cadarnhad cyn gynted ag y bo'n ymarferol a pha un bynnag cyn dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad manylion contract, a

(b) fel pe bai paragraffau (6) i (8) wedi eu hepgor.

(5) Nid yw rheoliad 6 yn gymwys i gyfleustod preifat yn achos dyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys).

Core supplier information: platform not working, urgency, private utilities

8.—(1) Where, in respect of core supplier information shared during an open procedure or a competitive flexible procedure, a contracting authority cannot obtain confirmation from the supplier of the matters in regulation 6(5) before the end of the tendering period due to the reason in paragraph (2), paragraph (3) applies.

(2) The reason is that the supplier could not reasonably register on, submit information to, or use a facility for sharing information through, the central digital platform because that platform was not working properly during any period before the end of the tendering period.

(3) The contracting authority must obtain confirmation from the supplier of the matters in regulation 6(5) as soon as practicable and in any event before the award of the contract.

(4) Regulation 6 applies in the case of a direct award of a public contract pursuant to paragraphs 13 and 14 of Schedule 5 to the 2023 Act (urgency), but reading regulation 6 as if—

(a) the reference in paragraph (4) to the contracting authority obtaining confirmation before the award of the public contract were a reference to the authority obtaining confirmation as soon as practicable and in any event before the date when the contract details notice is published, and

(b) paragraphs (6) to (8) were omitted.

(5) Regulation 6 does not apply to a private utility in the case of a direct award of a public contract pursuant to paragraphs 13 and 14 of Schedule 5 to the 2023 Act (urgency).

Codau adnabod unigryw ac esemptiad rhag eu cyhoeddi ar y platfform digidol Cymreig neu system ar-lein arall

9.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr "cod adnabod unigryw"—

(a) yn achos caffaeliad, yw'r cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir yr hysbysiad cyntaf sy'n ymwneud â'r caffaeliad ar y platfform hwnnw, heblaw o dan yr amgylchiadau a nodir yn is-baragraff (b),

Unique identifiers and exemption from publishing them on the Welsh digital platform or alternative online system

9.—(1) In this Part, "unique identifier" means—

(a) in the case of a procurement, the unique code allocated by the central digital platform when the first notice relating to the procurement is published on that platform, other than in the circumstances set out in sub-paragraph (b),

(b) yn achos caffaeliad pan fo newid wedi bod i ddyfarniad uniongyrchol yn unol ag adran 43 o Ddeddf 2023, yw'r cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir yr hysbysiad tryloywder sy'n ymwneud â'r contract ar y platfform hwnnw,

(c) yn achos contract, y cod unigryw sy'n galluogi'r sawl a fo'n darllen hysbysiad sy'n cyfeirio at y contract i wahaniaethu rhwng y contract hwnnw a chontractau eraill sydd wedi eu dyfarnu o dan yr un broses gaffael,

(d) yn achos marchnad ddynamig, y cod unigryw a ddyrennir gan y platfform digidol canolog pan gyhoeddir y cyntaf o'r hysbysiadau a ganlyn ar y platfform hwnnw mewn perthynas â'r farchnad ddynamig—

(i) unrhyw hysbysiad piblinell,

(ii) unrhyw hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, neu

(iii) yr hysbysiad marchnad ddynamig cyntaf, ac

(e) yn achos—

(i) cyflenwr,

(ii) awdurdod contractio,

(iii) person sy'n cyflawni caffaeliad, neu ran o gaffaeliad, ar ran awdurdod contractio, neu

(iv) person heblaw awdurdod contractio sy'n sefydlu marchnad ddynamig yn unol ag adran 35(3) o Ddeddf 2023,

y cod unigryw a gyflwynir i'r platfform digidol canolog ac a gydnabyddir gan y platfform hwnnw neu, pan na chyflwynir ac na chydnabyddir cod o'r fath, y cod unigryw a ddyrennir gan y platfform hwnnw pan yw'r person yn cofrestru ar y platfform hwnnw.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo awdurdod contractio yn cyhoeddi hysbysiad, dogfen neu wybodaeth a grybwyllir yn rheoliad 5(5) ar y platfform digidol Cymreig neu, os nad yw ar gael, ar system ar-lein arall o dan reoliad 5(6).

(3) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod contractio gyhoeddi unrhyw god adnabod unigryw yn unol â'r Rhan hon hyd nes y cyhoeddir yr hysbysiad hwnnw, y ddogfen honno neu'r wybodaeth honno wedi hynny ar y platfform digidol canolog o dan reoliad 5(10).

(b) in the case of a procurement where there has been a switch to a direct award in accordance with section 43 of the 2023 Act, the unique code allocated by the central digital platform when the transparency notice relating to the contract is published on that platform,

(c) in the case of a contract, the unique code which enables a reader of a notice referring to the contract to distinguish the contract from other contracts awarded under the same procurement process,

(d) in the case of a dynamic market, the unique code allocated by the central digital platform when the first of the following notices is published on that platform in relation to the dynamic market—

(i) any pipeline notice,

(ii) any preliminary market engagement notice, or

(iii) the first dynamic market notice, and

(e) in the case of—

(i) a supplier,

(ii) a contracting authority,

(iii) a person carrying out a procurement, or part of a procurement, on behalf of a contracting authority, or

(iv) a person other than a contracting authority who is establishing a dynamic market in accordance with section 35(3) of the 2023 Act,

the unique code which is submitted to the central digital platform and is recognised by that platform or, where no such code is submitted and recognised, the unique code which is allocated by that platform when the person registers on that platform.

(2) Paragraph (3) applies where a contracting authority publishes a notice, document or information mentioned in regulation 5(5) on the Welsh digital platform or, if unavailable, on an alternative online system under regulation 5(6).

(3) The contracting authority is not required to publish any unique identifier in accordance with this Part until that notice, document or information is subsequently published on the central digital platform under regulation 5(10).

Gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth sylfaenol y cyflenwr.

(2) Pan fo cyflenwr yn unigolyn, yr wybodaeth yw—

(a) enw'r cyflenwr,

(b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,

(c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,

(d) pan fo gan y cyflenwr wefan, cyfeiriad y wefan,

(e) rhif cofrestru TAW y cyflenwr (o fewn yr ystyr a roddir i "VAT registration number" yn adran 5A(6) o Ddeddf Treth ar Werth 1994(**1**)), os yw'n gymwys, ac

(f) manylion unrhyw gymhwyster perthnasol neu unrhyw sicrwydd masnach perthnasol a ddelir gan yr unigolyn, gan gynnwys—

(i) yn achos cymhwyster, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster, enw'r cymhwyster a'r dyddiad y cafodd ei ddyfarnu, neu

(ii) yn achos sicrwydd masnach, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cofrestriad, rhif cyfeirnod y sicrwydd a'r dyddiad y rhoddwyd y sicrwydd.

(3) Pan na fo'r cyflenwr yn unigolyn, yr wybodaeth yw—

(a) enw'r cyflenwr,

(b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,

(c) cyfeiriad cofrestredig y cyflenwr neu gyfeiriad ei brif swyddfa,

(d) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,

(e) pan fo'r cyflenwr yn marchnata ei nwyddau, ei wasanaethau neu ei weithiau ar-lein, cyfeiriad y wefan berthnasol,

(f) ffurf gyfreithiol y cyflenwr a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,

(g) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y dyddiad y cofrestrodd y cyflenwr o dan y Ddeddf honno,

(**1**) 1994 p. 23. Mewnosodwyd adran 5A gan Ddeddf Trethi (Ar ôl y Cyfnod Pontio) 2020 (p. 26), Atodlen 3(1), paragraff 2.

Supplier's basic information

10.—(1) This regulation sets out the supplier's basic information.

(2) Where the supplier is an individual, the information is—

(a) the supplier's name,

(b) the unique identifier for the supplier,

(c) the supplier's contact postal address and email address,

(d) where the supplier has a website, the website address,

(e) the supplier's VAT registration number (within the meaning of section 5A(6) of the Value Added Tax Act 1994(**1**)), if applicable, and

(f) details of any relevant qualification or trade assurance held by the individual, including—

(i) in the case of a qualification, the name of the person or body which awarded the qualification, the name of the qualification and the date it was awarded, or

(ii) in the case of a trade assurance, the name of the person or body which awarded the registration, the assurance reference number and the date the assurance was given.

(3) Where the supplier is not an individual, the information is—

(a) the supplier's name,

(b) the unique identifier for the supplier,

(c) the supplier's registered or principal office address,

(d) the supplier's contact postal address and email address,

(e) where the supplier markets its goods, services or works online, the relevant website address,

(f) the supplier's legal form and the law by which it is governed,

(g) where the supplier is a company registered under the CA 2006, the date when the supplier registered under that Act,

(**1**) 1994 c. 23. Section 5A was inserted by the Taxation (Post-transition Period) Act 2020 (c. 26) Schedule 3(1) paragraph 2.

(h) pan na fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006—

(i) unrhyw ddyddiad cyfwerth â'r dyddiad a grybwyllir yn is-baragraff (g), neu

(ii) pan na fo dyddiad cyfwerth, y dyddiad y dechreuodd y cyflenwr fasnachu,

(i) rhif cofrestru TAW y cyflenwr (o fewn yr ystyr a roddir i "VAT registration number" yn adran 5A(6) o Ddeddf Treth ar Werth 1994), os yw'n gymwys,

(j) manylion unrhyw gymhwyster perthnasol neu unrhyw sicrwydd masnach perthnasol a ddelir gan y cyflenwr, gan gynnwys—

(i) yn achos cymhwyster, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster, enw'r cymhwyster a'r dyddiad y cafodd ei ddyfarnu, neu

(ii) yn achos sicrwydd masnach, enw'r person neu'r corff a ddyfarnodd y cofrestriad, rhif cyfeirnod y sicrwydd a'r dyddiad y rhoddwyd y sicrwydd, a

(k) a yw'r cyflenwr—

(i) yn fenter fach a chanolig ei maint,

(ii) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(iii) yn ddarparwr cyflogaeth â chymorth, neu

(iv) yn gwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran ei sefyllfa economaidd ac ariannol.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer dwy flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â Rhan 16 o DC 2006, copi o'r cyfrifon hynny,

(b) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â Rhan 16 o DC 2006, ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn honno, copi o'r cyfrifon hynny,

(h) where the supplier is not a company registered under the CA 2006—

(i) any equivalent date to that mentioned in sub-paragraph (g), or

(ii) where there is no equivalent date, the date the supplier began trading,

(i) the supplier's VAT registration number (within the meaning of section 5A(6) of the Value Added Tax Act 1994), if applicable,

(j) details of any relevant qualification or trade assurance held by the supplier, including—

(i) in the case of a qualification, the name of the person or body which awarded the qualification, the name of the qualification and the date it was awarded, or

(ii) in the case of a trade assurance, the name of the person or body which awarded the registration, the assurance reference number and the date the assurance was given, and

(k) whether the supplier is—

(i) a small and medium-sized enterprise,

(ii) a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(iii) a supported employment provider, or

(iv) a public service mutual.

Supplier's economic and financial standing information

11.—(1) This regulation sets out the supplier's economic and financial standing information.

(2) The information is—

(a) in the case of a supplier whose accounts were required to be audited for both of the supplier's most recent two financial years in accordance with Part 16 of the CA 2006, a copy of those accounts,

(b) in the case of a supplier whose accounts were required to be audited for the supplier's most recent financial year in accordance with Part 16 of the CA 2006, but not the financial year immediately preceding that, a copy of those accounts,

(c) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer dwy flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â gofyniad tramor cyfwerth â Rhan 16 o DC 2006, copi o'r cyfrifon hynny,

(d) yn achos cyflenwr yr oedd yn ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr yn unol â gofyniad tramor cyfwerth â Rhan 16 o DC 2006, ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn honno, copi o'r cyfrifon hynny, neu

(e) yn achos unrhyw gyflenwr arall—

(i) os oedd y cyflenwr mewn busnes am y ddwy o flynyddoedd ariannol mwyaf diweddar y cyflenwr, cyfrifon neu wybodaeth arall am y ddwy flynedd hynny, neu

(ii) os oedd y cyflenwr mewn busnes am flwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr ond nid y flwyddyn ariannol yn union cyn hynny, cyfrifon neu wybodaeth arall ar gyfer blwyddyn ariannol ddiweddaraf y cyflenwr,

sy'n gyfwerth â gwybodaeth a gynhwysir mewn cyfrifon a archwilir yn unol â Rhan 16 o DC 2006, i'r graddau y gellir rhoi'r cyfrifon hynny neu'r wybodaeth arall honno yn rhesymol.

(3) Ym mharagraff (2)(a) a (b) mae i "blwyddyn ariannol" yr un ystyr â "financial year" yn adran 390 o DC 2006.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig.

(2) Yr wybodaeth yw'r wybodaeth yn y rheoliad hwn ar gyfer pob person cysylltiedig i'r cyflenwr.

(3) Mae paragraff (4) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006,

(b) pan fo'r person cysylltiedig yn berson â rheolaeth sylweddol dros y cyflenwr, ac

(c) pan fo'r person cysylltiedig yn gofrestradwy.

(4) Yr wybodaeth yw—

(a) enw, dyddiad geni a chenedligrwydd y person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,

(c) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys,

(c) in the case of a supplier whose accounts were required to be audited for both of the supplier's most recent two financial years in accordance with an overseas equivalent to Part 16 of the CA 2006, a copy of those accounts,

(d) in the case of a supplier whose accounts were required to be audited for the supplier's most recent financial year in accordance with an overseas equivalent to Part 16 of the CA 2006, but not the financial year immediately preceding that, a copy of those accounts, or

(e) in the case of any other supplier—

(i) if the supplier was in business for both of the supplier's most recent financial years, accounts or other information for both of those years, or

(ii) if the supplier was in business for the supplier's most recent financial year but not the financial year immediately preceding that, accounts or other information for the supplier's most recent financial year,

which is equivalent to information contained in accounts audited in accordance with Part 16 of the CA 2006, so far as those accounts or that other information can reasonably be given.

(3) In paragraph (2)(a) and (b) "financial year" has the same meaning as in section 390 of the CA 2006.

Supplier's connected person information

12.—(1) This regulation sets out the supplier's connected person information.

(2) The information is the information in this regulation for each connected person of the supplier.

(3) Paragraph (4) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006,

(b) the connected person is a person with significant control over the supplier, and

(c) the connected person is registrable.

(4) The information is—

(a) the connected person's name, date of birth and nationality,

(b) the connected person's service address,

(c) which of the specified conditions in Part 1 of Schedule 1A to the CA 2006 applies,

(d) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys, ac

(e) enw'r gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol y mae'r person cysylltiedig wedi ei gofrestru arni fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys.

(5) Mae paragraff (6) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006,

(b) pan fo'r person cysylltiedig yn endid cyfreithiol perthnasol, ac

(c) pan fo'r person cysylltiedig yn gofrestradwy.

(6) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,

(c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,

(d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,

(e) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys,

(f) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel endid cyfreithiol perthnasol, os yw'n gymwys, ac

(g) enw'r gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol y mae'r person cysylltiedig wedi ei gofrestru arni fel endid cyfreithiol perthnasol, os yw'n gymwys.

(7) Mae paragraff (8) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a

(b) pan fo'r person cysylltiedig—

(i) yn gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol i'r cyflenwr, a

(ii) yn unigolyn.

(8) Yr wybodaeth yw—

(a) enw, dyddiad geni a chenedligrwydd y person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig, ac

(c) y wlad neu'r wladwriaeth (neu'r rhan o'r Deyrnas Unedig) y mae'r person cysylltiedig yn preswylio ynddi fel arfer.

(9) Mae paragraff (10) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a

(d) the date when the connected person became registrable as a person with significant control, if applicable, and

(e) the name of the PSC register on which the connected person is registered as a person with significant control, if applicable.

(5) Paragraph (6) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006,

(b) the connected person is a relevant legal entity, and

(c) the connected person is registrable.

(6) The information is—

(a) the connected person's name,

(b) the connected person's registered or principal office address,

(c) the connected person's service address,

(d) the connected person's legal form and the law by which it is governed,

(e) which of the specified conditions in Part 1 of Schedule 1A to the CA 2006 applies,

(f) the date when the connected person became registrable as a relevant legal entity, if applicable, and

(g) the name of the PSC register on which the connected person is registered as a relevant legal entity, if applicable.

(7) Paragraph (8) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006, and

(b) the connected person is—

(i) a director or shadow director of the supplier, and

(ii) an individual.

(8) The information is—

(a) the connected person's name, date of birth and nationality,

(b) the connected person's service address, and

(c) the country or state (or part of the United Kingdom) in which the connected person is usually resident.

(9) Paragraph (10) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006, and

(b) o ran y person cysylltiedig—

(i) pan fo'n gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol i'r cyflenwr, a

(ii) pan na fo'n unigolyn.

(10) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person cysylltiedig;

(b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,

(c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,

(d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani, ac

(e) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, rhif cofrestru'r person a roddwyd o dan y Ddeddf honno.

(11) Mae paragraff (12) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a

(b) pan fo'r person cysylltiedig yn rhiant-ymgymeriad neu'n is-ymgymeriad i'r cyflenwr.

(12) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,

(c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig, a

(d) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno.

(13) Mae paragraff (14) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a

(b) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni rhagflaenol i'r cyflenwr.

(14) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cofrestredig olaf y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa olaf,

(c) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno, a

(d) y dyddiad pan aeth y person cysylltiedig yn ansolfent ac y peidiodd â masnachu.

(b) the connected person is—

(i) a director or shadow director of the supplier, and

(ii) not an individual.

(10) The information is—

(a) the connected person's name,

(b) the connected person's registered or principal office address,

(c) the connected person's service address,

(d) the connected person's legal form and the law by which it is governed, and

(e) where the connected person is a company registered under the CA 2006, the person's registration number given under that Act.

(11) Paragraph (12) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006, and

(b) the connected person is a parent undertaking or a subsidiary undertaking of the supplier.

(12) The information is—

(a) the name of the connected person,

(b) the connected person's registered or principal office address,

(c) the connected person's service address, and

(d) where the connected person is a company registered under the CA 2006, the registration number given under that Act.

(13) Paragraph (14) sets out the information where—

(a) the supplier is a company registered under the CA 2006, and

(b) the connected person is a predecessor company of the supplier.

(14) The information is—

(a) the name of the connected person,

(b) the connected person's last registered or principal office address,

(c) where the connected person is a company registered under the CA 2006, the registration number given under that Act, and

(d) the date when the connected person became insolvent and ceased to trade.

(15) Mae paragraff (16) yn nodi'r wybodaeth—

(a) pan na fo'r cyflenwr yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, a

(b) pan ellir ystyried yn rhesymol fod y person cysylltiedig mewn sefyllfa gyfwerth, mewn perthynas â'r cyflenwr, â'r person cysylltiedig a ddisgrifir ym mharagraff (3), (5), (7), (9), (11) neu (13).

(16) Mae'r wybodaeth yn wybodaeth y gellir ystyried yn rhesymol ei bod yn gyfwerth â'r hyn y cyfeirir ato ym mharagraff (4), (6), (8), (10), (12) neu (14) (yn ôl y digwydd).

(17) Mae paragraff (18) yn nodi'r wybodaeth ar gyfer person cysylltiedig nad yw unrhyw un o baragraffau (3), (5), (7), (9), (11), (13) na (15) yn gymwys iddo—

(a) sydd â'r hawl i arfer, neu sy'n arfer mewn gwirionedd, ddylanwad sylweddol neu reolaeth sylweddol dros y cyflenwr, neu

(b) y mae gan y cyflenwr yr hawl i arfer, neu ei fod yn arfer mewn gwirionedd, ddylanwad sylweddol neu reolaeth sylweddol drosto.

(18) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person cysylltiedig,

(b) cyfeiriad cofrestredig y person cysylltiedig neu gyfeiriad ei brif swyddfa,

(c) cyfeiriad cyflwyno'r person cysylltiedig,

(d) ffurf gyfreithiol y person cysylltiedig a'r gyfraith y'i llywodraethir odani,

(e) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru a roddwyd o dan y Ddeddf honno,

(f) pan fo'r person cysylltiedig yn gyfwerth tramor â chwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, y rhif cofrestru sy'n gyfwerth â'r rhai sydd wedi eu dyroddi o dan DC 2006,

(g) pa un neu ragor o'r amodau penodedig yn Rhan 1 o Atodlen 1A i DC 2006 sy'n gymwys, ac

(h) y dyddiad pan ddaeth y person cysylltiedig yn gofrestradwy fel person â rheolaeth sylweddol, os yw'n gymwys.

(19) Yn y rheoliad hwn—

mae i "cofrestradwy"—

(a) mewn cysylltiad â pherson â rheolaeth sylweddol, yr ystyr a roddir i "registrable" gan adran 790C(4) o DC 2006;

(b) mewn cysylltiad ag endid cyfreithiol perthnasol, yr ystyr a roddir i "registrable" gan adran 790C(8) o DC 2006;

(15) Paragraph (16) sets out the information where—

(a) the supplier is not a company registered under the CA 2006, and

(b) the connected person can reasonably be considered to stand in an equivalent position in relation to the supplier as the connected person described in paragraph (3), (5), (7), (9), (11) or (13).

(16) The information is information which can reasonably be considered to be equivalent to that referred to in paragraph (4), (6), (8), (10), (12) or (14) (as the case may be).

(17) Paragraph (18) sets out the information for a connected person to whom none of paragraphs (3), (5), (7), (9), (11), (13) or (15) apply—

(a) with the right to exercise, or who actually exercises, significant influence or control over the supplier, or

(b) over which the supplier has the right to exercise, or actually exercises, significant influence or control.

(18) The information is—

(a) the connected person's name,

(b) the connected person's registered or principal office address,

(c) the connected person's service address,

(d) the connected person's legal form and the law by which it is governed,

(e) where the connected person is a company registered under the CA 2006, the registration number given under that Act,

(f) where the connected person is an overseas equivalent to a company registered under the CA 2006, the registration number which is equivalent to those issued under the CA 2006,

(g) which of the specified conditions in Part 1 of Schedule 1A to the CA 2006 applies, and

(h) the date when the connected person became registrable as a person with significant control, if applicable.

(19) In this regulation—

"registrable" ("*cofrestradwy*")—

(a) in respect of a person with significant control, has the meaning given by section 790C(4) of the CA 2006;

(b) in respect of a relevant legal entity, has the meaning given by section 790C(8) of the CA 2006;

mae i “cyfeiriad cyflwyno” yr ystyr a roddir i “service address” gan adran 1141 o DC 2006;

mae i “endid cyfreithiol perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant legal entity” gan adran 790C(6) o DC 2006;mae i’r termau “cyfarwyddwr”, “rhiant-ymgymeriad”, “is-ymgymeriad”, “cwmni rhagflaenol” a “cyfarwyddwr cysgodol” yr un ystyr ag a roddir i “director”, “parent undertaking”, “subsidiary undertaking”, “predecessor company” a “shadow director” yn y drefn honno gan baragraff 45 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023.

“relevant legal entity” (“*endid cyfreithiol perthnasol*”) has the meaning given by section 790C(6) of the CA 2006;

“service address” (“*cyfeiriad cyflwyno*”) has the meaning given by section 1141 of the CA 2006;

the terms “director” (“*cyfarwyddwr*”), “parent undertaking” (“*rhiant-ymgymeriad*”), “subsidiary undertaking” (“*is-ymgymeriad*”), “predecessor company” (“*cwmni rhagflaenol*”) and “shadow director” (“*cyfarwyddwr cysgodol*”) have the same meaning given by paragraph 45 of Schedule 6 to the 2023 Act.

Gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd

13.—(1) Mae paragraffau (2) i (13) yn nodi gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd.

(2) A yw’r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi ei euogfarnu o drosedd y cyfeirir ati yn y paragraffau a ganlyn o Atodlen 6 i Ddeddf 2023—

(a) paragraff 2 (dynladdiad corfforaethol neu laddiad corfforaethol);

(b) paragraff 3 (terfysgaeth);

(c) paragraffau 4 i 18 (dwyn, twyll, llwgrwobrwyo etc.);

(d) paragraffau 19 i 26 (troseddau marchnad lafur, caethwasiaeth a masnachu pobl);

(e) paragraffau 27 ac 28 (troseddau cyfundrefnol);

(f) paragraffau 29 i 31 (troseddau treth);

(g) paragraff 32 (trosedd cartel);

(h) paragraff 33 (troseddau ategol);

(i) paragraff 34 (troseddau a gyflawnwyd y tu allan i’r Deyrnas Unedig).

(3) A yw’r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad y cyfeirir ato yn y paragraffau a ganlyn o Atodlen 6 i Ddeddf 2023—

(a) paragraff 36 (cosbau am drafodiadau sy’n gysylltiedig â thwyll TAW ac efadu trethi neu dollau);

(b) paragraff 37 (cosbau sy’n daladwy am wallau mewn dogfennaeth dreth a methiant i hysbysu a mathau penodol o ddrygioni o ran TAW a thollau cartref);

(c) paragraff 38 (addasiadau ar gyfer trefniadau treth camddefnyddiol);

(d) paragraff 39 (canfyddiad gan CThEF, wrth arfer ei bwerau mewn cysylltiad â TAW, o arfer camddefnyddiol);

(e) paragraff 40 (trechu mewn cysylltiad â threfniadau treth hysbysadwy);

(f) paragraff 41 (torri cyfraith cystadleuaeth);

Supplier’s exclusion grounds information

13.—(1) Paragraphs (2) to (13) set out the supplier’s exclusion grounds information.

(2) Whether the supplier or a connected person has been convicted of an offence referred to in the following paragraphs of Schedule 6 to the 2023 Act—

(a) paragraph 2 (corporate manslaughter or corporate homicide);

(b) paragraph 3 (terrorism);

(c) paragraphs 4 to 18 (theft, fraud, bribery etc.);

(d) paragraphs 19 to 26 (labour market, slavery and human trafficking offences);

(e) paragraphs 27 and 28 (organised crime);

(f) paragraphs 29 to 31 (tax offences);

(g) paragraph 32 (cartel offence);

(h) paragraph 33 (ancillary offences);

(i) paragraph 34 (offences committed outside the United Kingdom).

(3) Whether the supplier or a connected person has been the subject of an event referred to in the following paragraphs of Schedule 6 to the 2023 Act—

(a) paragraph 36 (penalties for transactions connected with VAT fraud and evasion of tax or duty);

(b) paragraph 37 (penalties payable for errors in tax documentation and failure to notify and certain VAT and excise wrongdoing);

(c) paragraph 38 (adjustments for tax arrangements that are abusive);

(d) paragraph 39 (finding by HMRC, in exercise of its powers in respect of VAT, of abusive practice);

(e) paragraph 40 (defeat in respect of notifiable tax arrangements);

(f) paragraph 41 (competition law infringements);

(g) paragraff 42 (materion cyfwerth y tu allan i'r Deyrnas Unedig).

(4) Mewn cysylltiad â pharagraff 43 o Atodlen 6 i Ddeddf 2023 (methiant i gydweithredu ag ymchwiliad)—

(a) a yw awdurdod priodol wedi rhoi hysbysiad i'r cyflenwr neu berson cysylltiedig o dan adran 60(6) o Ddeddf 2023, a

(b) a yw'r cyflenwr neu'r person cysylltiedig wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(5) A yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad y cyfeirir ato yn y paragraffau canlynol o Atodlen 7 i Ddeddf 2023—

(a) paragraff 1 (gorchmynion sy'n ymwneud â chamymddwyn yn y farchnad lafur);

(b) paragraff 4 (trosedd sy'n ymwneud â chamymddwyn amgylcheddol);

(c) paragraff 5 (ansolfedd, methdaliad, etc.);

(d) paragraff 6 (atal neu roi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o fusnes);

(e) paragraff 9 (torri Deddf Cystadleuaeth 1998, gwaharddiad Pennod 2 neu gyfwerth y tu allan i'r Deyrnas Unedig);

(f) paragraff 11(2) (dyfarniad llys etc. o gamymddwyn proffesiynol);

(g) paragraff 12 (torri contract a pherfformiad gwael).

(6) Mewn cysylltiad â pharagraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (camymddwyn o ran y farchnad lafur), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch ymddygiad y tu allan i'r Deyrnas Unedig a allai arwain at wneud gorchymyn a grybwyllir ym mharagraff 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 pe bai'r ymddygiad yn digwydd yn y Deyrnas Unedig, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

(g) paragraph 42 (equivalents outside the United Kingdom).

(4) Whether, in respect of paragraph 43 of Schedule 6 to the 2023 Act (failure to cooperate with investigation)—

(a) an appropriate authority has given the supplier or a connected person notice under section 60(6) of the 2023 Act, and

(b) the supplier or connected person has failed to comply with the notice before the end of the period specified in the notice.

(5) Whether the supplier or a connected person has been the subject of an event referred to in the following paragraphs of Schedule 7 to the 2023 Act—

(a) paragraph 1 (orders relating to labour market misconduct);

(b) paragraph 4 (offence relating to environmental misconduct);

(c) paragraph 5 (insolvency, bankruptcy, etc.);

(d) paragraph 6 (suspension or ceasing to carry on all or a substantial part of business);

(e) paragraph 9 (infringement of Competition Act 1998, Chapter 2 prohibition or equivalent outside United Kingdom);

(f) paragraph 11(2) (court etc. ruling of professional misconduct);

(g) paragraph 12 (breach of contract and poor performance).

(6) Whether, in respect of paragraph 2 of Schedule 7 to the 2023 Act (labour market misconduct), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated for conduct outside the United Kingdom that could result in an order mentioned in paragraph 1 of Schedule 7 to the 2023 Act being made if the conduct occurred in the United Kingdom, or

(b) has engaged in such conduct.

(7) Mewn cysylltiad â pharagraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (camymddwyn o ran y farchnad lafur), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch ymddygiad (pa un ai yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi) sydd (neu a fyddai, pe bai'n digwydd yn y Deyrnas Unedig) yn drosedd y cyfeirir ati—

(i) yn adran 1, 2, 4 neu 30 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015(**1**),

(ii) yn adran 1, 4 neu 32 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Yr Alban) 2015(**2**), neu

(iii) yn adran 1, 2 neu 4 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Cyfiawnder Troseddol a Chymorth i Ddioddefwyr) (Gogledd Iwerddon) 2015(**3**), neu baragraff 16 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath.

(8) Mewn cysylltiad â pharagraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith cystadleuaeth)—

(a) a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a yw cytundeb neu arfer ar y cyd y mae'r cyflenwr neu berson cysylltiedig yn barti iddo wedi torri—

(i) y gwaharddiad Pennod 1 (o fewn yr ystyr a roddir i "the Chapter 1 prohibition" gan adran 2 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998(**4**)),

(ii) unrhyw waharddiad sylweddol debyg sy'n gymwys mewn awdurdodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) a yw cytundeb neu arfer ar y cyd y mae'r cyflenwr neu berson cysylltiedig yn barti iddo wedi torri gwaharddiadau o'r fath,

ac eithrio o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (2) o baragraff 7.

(7) Whether, in respect of paragraph 3 of Schedule 7 to the 2023 Act (labour market misconduct), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated for conduct (whether in or outside the United Kingdom) constituting (or that would, if it occurred in the United Kingdom, constitute) an offence referred to in—

(i) section 1, 2, 4 or 30 of the Modern Slavery Act 2015(**1**),

(ii) section 1, 4 or 32 of the Human Trafficking and Exploitation (Scotland) Act 2015(**2**), or

(iii) section 1, 2 or 4 of the Human Trafficking and Exploitation (Criminal Justice and Support for Victims) Act (Northern Ireland) 2015(**3**), or paragraph 16 of Schedule 3 to that Act, or

(b) has engaged in such conduct.

(8) Whether, in respect of paragraph 7 of Schedule 7 to the 2023 Act (potential competition infringements)—

(a) the supplier or a connected person has been, or is being, investigated over whether an agreement or concerted practice to which the supplier or a connected person is party has infringed—

(i) the Chapter 1 prohibition (within the meaning given by section 2 of the Competition Act 1998(**4**)),

(ii) any substantially similar prohibition applicable in a jurisdiction outside the United Kingdom, or

(b) an agreement or concerted practice to which the supplier or a connected person is party has infringed such prohibitions,

except in the circumstances mentioned in sub-paragraph (2) of paragraph 7.

(**1**) 2015 p. 30.
(**2**) 2015 dsa 12.
(**3**) 2015 p. 2 (G.I.).
(**4**) 1998 p. 41.

(**1**) 2015 c. 30.
(**2**) 2015 asp 12.
(**3**) 2015 c. 2 (N.I.).
(**4**) 1998 c. 41.

(9) Mewn cysylltiad â pharagraff 8 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith cystadleuaeth), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi torri—

(i) y gwaharddiad Pennod 2 (o fewn yr ystyr a roddir i "the Chapter 2 prohibition" gan adran 18 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998), neu

(ii) unrhyw waharddiad sylweddol debyg sy'n gymwys mewn awdurdodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) wedi torri gwaharddiadau o'r fath.

(10) Mewn cysylltiad â pharagraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (achosion posibl o dorri cyfraith cystadleuaeth), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch ymddygiad sydd—

(i) yn drosedd o dan adran 188 o Ddeddf Menter 2002(**1**) (trosedd cartel), neu

(ii) yn drosedd sylweddol debyg o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath,

ac eithrio o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (2) o baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023.

(11) Mewn cysylltiad â pharagraff 11 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (camymddwyn proffesiynol), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch camymddwyn proffesiynol sy'n codi amheuon ynghylch uniondeb y cyflenwr, neu

(b) wedi cymryd rhan mewn camymddwyn o'r fath.

(9) Whether, in respect of paragraph 8 of Schedule 7 to the 2023 Act (potential competition infringements), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated over whether the supplier or a connected person has infringed—

(i) the Chapter 2 prohibition (within the meaning given by section 18 of the Competition Act 1998), or

(ii) any substantially similar prohibition applicable in a jurisdiction outside the United Kingdom, or

(b) has infringed such prohibitions.

(10) Whether, in respect of paragraph 10 of Schedule 7 to the 2023 Act (potential competition law infringements), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated for conduct constituting—

(i) an offence under section 188 of the Enterprise Act 2002(**1**) (cartel offence), or

(ii) a substantially similar offence under the law of a country or territory outside the United Kingdom, or

(b) has engaged in such conduct,

except in the circumstances mentioned in sub-paragraph (2) of paragraph 10 of Schedule 7 to the 2023 Act.

(11) Whether, in respect of paragraph 11 of Schedule 7 to the 2023 Act (professional misconduct), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated for professional misconduct which brings into question the supplier's integrity, or

(b) has engaged in such misconduct.

(**1**) 2002 p. 40.

(**1**) 2002 c. 40.

(12) Mewn cysylltiad â pharagraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf 2023 (gweithredu mewn ffordd amhriodol wrth gaffael), a yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig—

(a) wedi bod yn destun ymchwiliad, neu yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, ynghylch a weithredodd y cyflenwr yn amhriodol mewn perthynas ag unrhyw gaffaeliad ac, wrth wneud hynny, ei fod wedi rhoi mantais annheg iddo ei hun mewn perthynas â dyfarnu contract cyhoeddus, neu

(b) wedi ymddwyn yn amhriodol yn y ffordd honno.

(13) Os yw'r cyflenwr neu berson cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad a grybwyllir ym mharagraffau (2) i (12), yr wybodaeth a ganlyn mewn cysylltiad â phob person sydd wedi bod yn destun digwyddiad—

(a) disgrifiad byr o'r digwyddiad,

(b) enw'r person sy'n destun y digwyddiad,

(c) enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person,

(d) yn achos euogfarn neu ddigwyddiad arall pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad awdurdod cyhoeddus, sef y sail awdurdodol ar gyfer yr euogfarn neu'r digwyddiad arall—

(i) dolen i'r dudalen we lle y gellir cyrchu'r penderfyniad, neu

(ii) copi o'r penderfyniad,

(e) unrhyw dystiolaeth bod y person sy'n destun y digwyddiad—

(i) wedi cymryd y digwyddiad o ddifrif, er enghraifft drwy dalu unrhyw ddirwy neu iawndal,

(ii) wedi cymryd camau i atal y digwyddiad rhag digwydd eto, er enghraifft drwy newid staff neu reolwyr, neu roi gweithdrefnau neu hyfforddiant ar waith, a

(iii) wedi ymrwymo i gymryd camau ataliol pellach, pan fo hynny'n briodol, ac

(f) os yw'r amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiad wedi dod i ben, y dyddiad y daethant i ben.

(14) Yn y rheoliad hwn, ystyr "digwyddiad"—

(a) mewn perthynas â darpariaeth yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, yw'r ystyr a roddir i "event" ym mharagraff 45 o'r Atodlen honno;

(b) mewn perthynas â darpariaeth yn Atodlen 7 i Ddeddf 2023, yw'r ystyr a roddir i "event" ym mharagraff 16 o'r Atodlen honno.

(12) Whether, in respect of paragraph 13 of Schedule 7 to the 2023 Act (acting improperly in procurement), the supplier or a connected person—

(a) has been, or is being, investigated over whether the supplier acted improperly in relation to any procurement, and in so doing, put itself at an unfair advantage in relation to the award of a public contract, or

(b) has acted improperly in that way.

(13) If the supplier or a connected person has been the subject of an event mentioned in paragraphs (2) to (12), the following information in respect of each person who has been the subject of an event—

(a) a short description of the event,

(b) the name of the person who is the subject of the event,

(c) the person's name, contact postal address and email address,

(d) in the case of a conviction or other event where there is a recorded decision of a public authority which is the authoritative basis for the conviction or other event—

(i) a link to the web page where the decision can be accessed, or

(ii) a copy of the decision,

(e) any evidence that the person who is the subject of the event—

(i) took the event seriously, for example by paying any fine or compensation,

(ii) took steps to prevent the event occurring again, for example by changing staff or management, or putting procedures or training in place, and

(iii) committed to taking further preventative steps, where appropriate, and

(f) if the circumstances which led to the event have ended, the date when they ended.

(14) In this regulation the meaning of "event"—

(a) in relation to a provision of Schedule 6 to the 2023 Act, is in paragraph 45 of that Schedule;

(b) in relation to a provision of Schedule 7 to the 2023 Act, is in paragraph 16 of that Schedule.

(15) Yn y rheoliad hwn, mae i "camymddwyn proffesiynol" yr ystyr a roddir i "professional misconduct" gan baragraff 11(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 2023.

(15) In this regulation, "professional misconduct" has the meaning given by paragraph 11(3) of Schedule 7 to the 2023 Act.

Gwybodaeth yr awdurdod contractio

14. Yn y Rhan hon, ystyr "gwybodaeth yr awdurdod contractio" yw—

(a) pan fo un awdurdod contractio ar gyfer caffaeliad, enw'r awdurdod contractio,

(b) pan fo dau neu ragor o awdurdodau contractio yn gweithredu ar y cyd ar gyfer caffaeliad—

(i) enw'r awdurdod contractio y mae'r awdurdodau contractio sy'n gweithredu ar y cyd yn ei bennu'n awdurdod arweiniol ar gyfer y caffaeliad, a

(ii) enw pob un o'r awdurdodau contractio eraill,

(c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob awdurdod contractio,

(d) y cod adnabod unigryw ar gyfer pob awdurdod contractio, neu ar gyfer pob awdurdod contractio sy'n gweithredu ar y cyd,

(e) ar gyfer unrhyw berson sy'n cyflawni'r caffaeliad, neu ran o'r caffaeliad, ar ran awdurdod contractio, neu ar ran un neu ragor o'r awdurdodau contractio sy'n gweithredu ar y cyd—

(i) enw'r person,

(ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person,

(iii) cod adnabod unigryw y person, a

(iv) crynodeb o rôl y person, ac

(f) mewn cysylltiad â hysbysiad a gyhoeddir gan yr awdurdod contractio, enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y person y dylid cysylltu ag ef os bydd ymholiad ynghylch yr hysbysiad.

Contracting authority information

14. In this Part, "contracting authority information" means—

(a) where there is one contracting authority for a procurement, the name of the contracting authority,

(b) where there are two or more contracting authorities acting jointly for a procurement—

(i) the name of the contracting authority that the contracting authorities acting jointly determine is the lead authority for the procurement, and

(ii) the name of each of the other contracting authorities,

(c) a contact postal address and email address for each contracting authority,

(d) the unique identifier for each contracting authority, or for each contracting authority acting jointly,

(e) for any person carrying out the procurement, or part of the procurement, on behalf of a contracting authority, or one or more of the contracting authorities acting jointly—

(i) the person's name,

(ii) the person's contact postal address and email address,

(iii) the person's unique identifier, and

(iv) a summary of the person's role, and

(f) in respect of a notice published by the contracting authority, the name, contact postal address and email address of the person who should be contacted in the event of an enquiry about the notice.

Pwnc y contract

15.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr "pwnc y contract" yw'r wybodaeth a ganlyn, i'r graddau y mae'n hysbys i'r awdurdod contractio pan gyhoeddir yr wybodaeth—

(a) a yw'r contract yn bennaf ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaeth neu weithiau,

(b) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

Contract subject-matter

15.—(1) In this Part, "contract subject-matter" means the following information, so far as it is known to the contracting authority when the information is published—

(a) whether the contract is mainly for the supply of goods, services or works,

(b) a description of the kinds of goods, services or works which will be supplied,

(c) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,

(d) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,

(e) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

(f) y codau GGG perthnasol, ac

(g) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl disgrifio hyn.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr "dosbarthiad daearyddol" yw—

(a) yr ardal y mae'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau i gael eu cyflenwi ynddi yn y Deyrnas Unedig, drwy gyfeirio at yr ardaloedd ITL 1, ITL 2 ac ITL 3 perthnasol a restrir ar y wefan â'r pennawd "International Geographies" ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol(**1**) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, neu

(b) pan fo'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau i gael eu cyflenwi y tu allan i'r Deyrnas Unedig, enw'r wlad a, pan fo'n briodol, y rhanbarth y maent i gael eu cyflenwi ynddo.

Hysbysiadau piblinell

16.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad piblinell a gyhoeddir o dan adran 93(2) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) pwnc y contract, ac

(e) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi—

(i) yr hysbysiad tendro ar gyfer y contract cyhoeddus, neu

(ii) yr hysbysiad tryloywder ar gyfer y contract cyhoeddus.

(1) Gellir dod o hyd i'r wefan yn: https://cy.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/eurostat?_gl=1*wm87j9*_ga*OTIzMTMzNzIzLjE2NTUzNjkyMjM.*_ga_W804VY6YKS*MTcxNjk5MjEyNC4xNi4wLjE3MTY5OTIxMjQuNjAuMC4w

(c) a summary of how those goods, services or works will be supplied,

(d) the estimated date when, or period over which, the goods, services or works will be supplied,

(e) the estimated amount of goods, services or works which will be supplied,

(f) the relevant CPV codes, and

(g) the geographical classification, where it is possible to describe this.

(2) In this Part, "geographical classification" means—

(a) the area where the goods, services or works are to be supplied in the United Kingdom, by reference to the relevant ITL 1, ITL 2, and ITL 3 areas listed on the webpage entitled "International Geographies" on the website for the Office of National Statistics(**1**) as amended from time to time, or

(b) where the goods, services or works are to be supplied outside the United Kingdom, the name of the country and, where appropriate, the region where they are to be supplied.

Pipeline notices

16.—(1) This regulation sets out what information must be included in a pipeline notice published under section 93(2) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) the contract subject-matter, and

(e) the estimated date when the following will be published—

(i) the tender notice for the public contract, or

(ii) the transparency notice for the public contract.

(1) The website can be found at: https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/ukgeographies/eurostat#:~:text=East,The%20International%20Territorial%20Levels%20(ITLs)%20is%20a%20hierarchical%20classification%20of,Bedfordshire%20and%20Hertfordshire%2C%20and%20Essex

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth berthnasol arall yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau caffael arfaethedig

17.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad caffael arfaethedig a gyhoeddir o dan adran 15(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) pwnc y contract,

(e) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yr hysbysiad tendro ar gyfer y contract cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi,

(f) amcangyfrif o'r dyddiad erbyn pryd y gofynnir i gyflenwyr gyflwyno ceisiadau i gymryd rhan mewn unrhyw broses dendro neu dendrau,

(g) pa un o'r gweithdrefnau canlynol y disgwylir ei defnyddio—

(i) gweithdrefn agored, neu

(ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol,

(h) a fydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig,

(i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu,

(j) sut y gellir cael gafael ar ddogfennau sy'n ymwneud â'r caffaeliad,

(k) datganiad sy'n esbonio sut a phryd y caniateir mynegi diddordeb yn y contract, ac

(l) cymaint o'r wybodaeth yn ymwneud â hysbysiadau tendro, y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2), 20(2), 21(2), 22(2) neu 23(2), ag sydd ar gael i'r awdurdod contractio ar adeg cyhoeddi'r hysbysiad caffael arfaethedig.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn hysbysiad caffael arfaethedig.

Hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad

18.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad a gyhoeddir o dan adran 17(1)(a) o Ddeddf 2023.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other relevant information in the notice.

Planned procurement notices

17.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a planned procurement notice published under section 15(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) the contract subject-matter,

(e) the estimated date when the tender notice for the public contract will be published,

(f) the estimated date by when suppliers will be asked to submit requests to participate in any tender procedure or tenders,

(g) which of the following procedures is expected to be used—

(i) an open procedure, or

(ii) a competitive flexible procedure,

(h) whether the public contract will be awarded by reference to suppliers' membership of a dynamic market,

(i) the estimated date when the public contract will be awarded,

(j) how documents relating to the procurement may be obtained,

(k) a statement explaining how and when an interest in the contract may be expressed, and

(l) as much of the information relating to tender notices which is referred to in regulation 19(2), 20(2), 21(2), 22(2) or 23(2) as is available to the contracting authority at the time of publishing the planned procurement notice.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in a planned procurement notice.

Preliminary market engagement notices

18.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a preliminary market engagement notice published under section 17(1)(a) of the 2023 Act.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) pwnc y contract,

(e) naill ai—

(i) y dyddiad y mae'r awdurdod contractio yn bwriadu dod â'r ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad i ben, neu

(ii) y dyddiad y daeth yr ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad i ben, ac

(f) disgrifiad o'r broses y mae'r awdurdod contractio yn bwriadu ymgysylltu, neu wedi ymgysylltu, â chyflenwyr drwyddi yn ystod yr ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, er enghraifft—

(i) lleoliad, dyddiad ac amser digwyddiadau, a

(ii) unrhyw gyfnodau ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb a gwybodaeth gan gyflenwyr.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored

19.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn agored, a gyhoeddir o dan adran 21(1)(a) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn agored yn unol ag adran 20(1) a (2)(a) o Ddeddf 2023,

(e) a yw'r hysbysiad tendro yn ymwneud â chontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw—

(i) yn gontract consesiwn,

(ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu

(iii) yn gontract cyfleustodau,

(f) pwnc y contract,

(g) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) the contract subject-matter,

(e) either—

(i) the date when the contracting authority intends to close the preliminary market engagement, or

(ii) the date when the preliminary market engagement closed, and

(f) a description of the process by which the contracting authority proposes to engage, or engaged, with suppliers during the preliminary market engagement, for example—

(i) the location, date and time of events, and

(ii) any periods for the submission of expressions of interest and information by suppliers.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

Tender notices: open procedure

19.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a tender notice for the award of a public contract through an open procedure published under section 21(1)(a) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) a statement that the tender notice is for the award of a public contract through an open procedure in accordance with section 20(1) and (2)(a) of the 2023 Act,

(e) whether the tender notice relates to a special regime contract and, if so, whether that contract is—

(i) a concession contract,

(ii) a light touch contract, or

(iii) a utilities contract,

(f) the contract subject-matter,

(g) the estimated value of the public contract,

(h) pan fo'r contract cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r awdurdod contractio yn disgwyl y bydd eu hangen ar ôl i'r contract ddod i ben—

(i) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu caffael nwyddau, gwasanaethau neu weithiau tebyg wedi hynny drwy ddibynnu ar y cyfiawnhad dros ddyfarnu'n uniongyrchol ym mharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023, neu

(ii) amcangyfrif, os yw'n bosibl, o'r dyddiad y bydd unrhyw hysbysiad tendro dilynol yn cael ei gyhoeddi,

(i) a fydd arwerthiant electronig yn cael ei ddefnyddio ac, os felly, fanylion technegol ynghylch y modd y gall cyflenwyr gymryd rhan yn yr arwerthiant electronig,

(j) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(k) y meini prawf dyfarnu, neu grynodeb o'r meini prawf dyfarnu, ar gyfer y contract cyhoeddus,

(l) yr ieithoedd y caniateir cyflwyno tendrau neu ymholiadau mewn cysylltiad â'r weithdrefn dendro ynddynt,

(m) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau,

(n) o'r dyddiad y daw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig, a yw'r contract cyhoeddus yn gontract y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb hwnnw,

(o) a yw'r contract cyhoeddus wedi ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau ac, os felly, ar gyfer pob lot—

(i) enw'r lot,

(ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,

(iii) yr wybodaeth a ganlyn, i'r graddau y mae'n hysbys i'r awdurdod contractio pan gyhoeddir yr hysbysiad tendro—

(aa) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

(bb) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,

(h) where the public contract is for goods, services or works which the contracting authority expects will be needed after the expiry of the contract—

(i) whether the contracting authority intends to carry out a subsequent procurement of similar goods, services or works in reliance on the direct award justification in paragraph 8 of Schedule 5 to the 2023 Act, or

(ii) an estimate, if possible, of the date when any subsequent tender notice will be published,

(i) whether an electronic auction will be used and, if so, the technical details of how suppliers may participate in the electronic auction,

(j) how tenders may be submitted and the date by when they must be submitted,

(k) the award criteria, or a summary of the award criteria, for the public contract,

(l) the languages in which tenders or enquiries in connection with the tendering procedure may be submitted,

(m) whether the public contract is a contract for which the United Kingdom has obligations under the GPA,

(n) from the date when the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership enters into force for the United Kingdom, whether the public contract is a contract for which the United Kingdom has obligations under that Agreement,

(o) whether the public contract is awarded by reference to lots and, if so, for each lot—

(i) the title of the lot,

(ii) the distinct number given to the lot by the contracting authority,

(iii) the following information, so far as it is known to the contracting authority when the tender notice is published—

(aa) a description of the kinds of goods, services or works which will be supplied,

(bb) a summary of how those goods, services or works will be supplied,

(cc) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,

(dd) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

(ee) amcangyfrif o werth y lot,

(ff) y codau GGG perthnasol,

(gg) y meini prawf dyfarnu perthnasol mewn perthynas â'r lot,

(hh) unrhyw opsiwn mewn perthynas â'r lot, ac

(ii) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,

(p) pan fo'r contract cyhoeddus wedi ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau—

(i) a ganiateir i gyflenwr gyflwyno tendr ar gyfer uchafswm o lotiau yn unig ac, os felly, yr uchafswm,

(ii) a ganiateir dyfarnu uchafswm o lotiau yn unig i gyflenwr ac, os felly, yr uchafswm, a

(iii) a fydd yr awdurdod contractio yn dyfarnu lotiau lluosog i'r un cyflenwr yn unol â meini prawf ac, os felly, grynodeb o'r meini prawf,

(q) pan fo'r awdurdod contractio yn ystyried o dan adran 18(2) o Ddeddf 2023 y gellid dyfarnu'r contract cyhoeddus drwy gyfeirio at lotiau ond nad yw hynny'n digwydd, y rhesymau dros hyn, ac eithrio yn achos contract cyfleustodau neu gontract cyffyrddiad ysgafn,

(r) disgrifiad o unrhyw opsiwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y contract cyhoeddus—

(i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu

(ii) i ymestyn neu adnewyddu cyfnod y contract,

(s) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu gosod y cyfnod tendro lleiaf byrraf drwy gyfeirio at un o'r cofnodion a ganlyn yn y tabl yn adran 54(4) o Ddeddf 2023 ac, os felly, pa gofnod—

(i) yr ail gofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, sy'n ddarostyngedig i gyfnod tendro a negodwyd; dim cyfnod lleiaf),

(cc) the estimated date when, or period over which, the goods, services or works will be supplied,

(dd) the estimated amount of goods, services or works which will be supplied,

(ee) the estimated value of the lot,

(ff) the relevant CPV codes,

(gg) the relevant award criteria in relation to the lot,

(hh) any option in relation to the lot, and

(ii) the geographical classification, where it is possible to describe this,

(p) where the public contract is awarded by reference to lots—

(i) whether a supplier may only submit a tender for a maximum number of lots and, if so the maximum number,

(ii) whether a supplier may only be awarded a maximum number of lots and, if so, the maximum number, and

(iii) whether the contracting authority will award multiple lots to the same supplier in accordance with criteria and, if so, a summary of the criteria,

(q) where the contracting authority considers under section 18(2) of the 2023 Act that the public contract could be awarded by reference to lots but it is not, the reasons for this, except in the case of a utilities contract or a light touch contract,

(r) a description of any option which will be included in the public contract—

(i) to supply additional goods, services or works, or

(ii) to extend or renew the term of the contract,

(s) whether the contracting authority proposes to set the shortest minimum tendering period by reference to one of the following entries in the table in section 54(4) of the 2023 Act and, if so, which entry—

(i) second entry (utilities contracts or contracts awarded by a contracting authority which is not a central government authority subject to a negotiated tender period; no minimum period),

(ii) y trydydd cofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau penodol a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, pan ganiateir cyflwyno tendrau gan gyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw yn unig; 10 niwrnod),

(iii) y pedwerydd cofnod (mae hysbysiad caffael arfaethedig cymhwysol wedi ei gyhoeddi; 10 niwrnod), neu

(iv) y pumed cofnod (sefyllfa frys; 10 niwrnod),

(t) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract cyhoeddus neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—

(i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu

(ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(u) a yw dogfennau tendro cysylltiedig yn cael eu darparu yn unol â'r hysbysiad tendro ar yr un pryd ag y mae'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ac, os felly—

(i) enw pob dogfen dendro gysylltiedig,

(ii) a yw pob dogfen dendro gysylltiedig ynghlwm wrth yr hysbysiad tendro, a

(iii) os nad yw dogfen dendro gysylltiedig ynghlwm wrth yr hysbysiad tendro, dolen i'r dudalen we lle y mae wedi ei darparu,

(v) a yw dogfen dendro gysylltiedig yn cael ei darparu, neu y gall gael ei darparu, yn unol â'r hysbysiad tendro ar ôl y dyddiad y bydd yr hysbysiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi ac, os felly, dolen i'r dudalen we lle y bydd yn cael ei darparu, neu esboniad ynghylch sut y bydd y ddogfen yn cael ei darparu,

(w) disgrifiad o unrhyw fanylebau technegol y disgwylir eu bodloni neu groesgyfeiriad i'r lle y gellir eu cyrchu,

(x) disgrifiad o unrhyw amodau cymryd rhan o dan adran 22 o Ddeddf 2023,

(y) unrhyw delerau talu (yn ogystal â'r rhai a nodir yn adran 68 o Ddeddf 2023),

(ii) third entry (utilities contracts or certain contracts awarded by a contracting authority which is not a central government authority, where tenders may be submitted only by preselected suppliers; 10 days),

(iii) fourth entry (a qualifying planned procurement notice has been issued;10 days), or

(iv) fifth entry (state of urgency; 10 days),

(t) whether the contracting authority considers that the public contract or any lot forming part of the contract may be particularly suitable to be awarded—

(i) to a small and medium-sized enterprise, or

(ii) to a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(u) whether associated tender documents are being provided in accordance with the tender notice at the same time that the notice is published and, if so—

(i) the title of each associated tender document,

(ii) whether each associated tender document is attached to the tender notice, and

(iii) if an associated tender document is not attached to the tender notice, a link to the web page where it is provided,

(v) whether an associated tender document is being, or may be, provided in accordance with the tender notice after the date when that notice is published and, if so, a link to the web page where it will be provided, or an explanation of how the document will be provided,

(w) a description of any technical specifications which are expected to be met or a cross reference to where they can be accessed,

(x) a description of any conditions of participation under section 22 of the 2023 Act,

(y) any payment terms (in addition to those set out in section 68 of the 2023 Act),

(z) disgrifiad yn nodi unrhyw risg—

(i) y mae'r awdurdod contractio yn ystyried y gallai beri i'r contract cyhoeddus beidio â chael ei gyflawni'n foddhaol ond, oherwydd ei natur, y mae'n bosibl na fydd yn cael sylw yn y contract cyhoeddus fel y'i dyfernir, a

(ii) a all ei gwneud yn ofynnol addasu'r contract cyhoeddus yn ddiweddarach o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf 2023 (addasu contract yn dilyn gwireddiad risg hysbys), ac

(z1) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "arwerthiant electronig" yw proses ailadroddol sy'n cynnwys defnyddio dulliau electronig er mwyn i gyflenwyr gyflwyno naill ai brisiau newydd, neu werthoedd newydd ar gyfer elfennau o'r tendr y mae modd eu meintioli nad ydynt yn ymwneud â phrisiau ac sy'n gysylltiedig â'r meini prawf gwerthuso, neu'r ddau, gan arwain at bennu safleoedd tendrau neu aildrefnu safleoedd tendrau mewn rhestr drefnol.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith drwy weithdrefn agored (gweler yn hytrach reoliad 21).

Hysbysiadau tendro: gweithdrefn hyblyg gystadleuol

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol a gyhoeddir yn unol ag adran 21(1)(b) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2) ac eithrio is-baragraffau (d) a (j),

(b) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol yn unol ag adran 20(1) a (2)(b) o Ddeddf 2023,

(c) disgrifiad o'r broses sydd i'w dilyn yn ystod y weithdrefn, gan gynnwys—

(i) a all y weithdrefn gynnwys negodi ar unrhyw adeg, a

(z) a description identifying any risk that—

(i) the contracting authority considers could jeopardise the satisfactory performance of the public contract, but because of its nature, may not be addressed in the public contract as awarded, and

(ii) may require a subsequent modification to the public contract under paragraph 5 of Schedule 8 to the 2023 Act (modification of contract following materialisation of a known risk), and

(z1) the estimated date when the public contract will be awarded.

(3) In paragraph (2), "electronic auction" means an iterative process that involves the use of electronic means for the presentation by suppliers of either new prices, or new values for quantifiable non-price elements of the tender related to the evaluation criteria, or both, resulting in a ranking or re-ranking of tenders.

(4) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(5) This regulation does not apply to a tender notice for the award of a framework through an open procedure (see instead regulation 21).

Tender notices: competitive flexible procedure

20.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a tender notice for the award of a public contract through a competitive flexible procedure published in accordance with section 21(1)(b) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the same information referred to in regulation 19(2) except sub-paragraphs (d) and (j),

(b) a statement that the tender notice is for the award of a public contract through a competitive flexible procedure in accordance with section 20(1) and (2)(b) of the 2023 Act,

(c) a description of the process to be followed during the procedure, including—

(i) whether the procedure may include negotiation at any stage, and

(ii) os yw'r awdurdod contractio yn bwriadu dibynnu ar adran 24 o Ddeddf 2023 (mireinio meini prawf), crynodeb o'r modd y bydd yn dibynnu ar yr adran honno,

(d) pan fo nifer y cyflenwyr, neu y gall y bo nifer y cyflenwyr, yn ddim mwy nag uchafswm o gyflenwyr, yn gyffredinol neu mewn cysylltiad â rowndiau tendro penodol neu brosesau dethol eraill, yr uchafswm o gyflenwyr a'r meini prawf a ddefnyddir i ddethol y nifer cyfyngedig o gyflenwyr,

(e) pan fo nifer y cyflenwyr, neu y gall y bo nifer y cyflenwyr, yn ddim llai nag isafswm bwriadedig o gyflenwyr, yn gyffredinol neu mewn cysylltiad â rowndiau tendro penodol neu brosesau dethol eraill, yr isafswm bwriadedig o gyflenwyr,

(f) pan fo'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio at ddiben gwahodd cyflenwyr i gyflwyno cais i gymryd rhan, sut y caniateir cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(g) pan fo'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio at ddiben gwahodd cyflenwyr i gyflwyno eu tendr cyntaf neu eu hunig dendr, sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno, ac

(h) a yw'r hysbysiad tendro yn cael ei ddefnyddio—

(i) i neilltuo contract i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2023, neu

(ii) i neilltuo contract i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 33 o Ddeddf 2023.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith drwy weithdrefn hyblyg gystadleuol (gweler yn hytrach reoliad 21), na

(b) i hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig (gweler yn hytrach reoliad 22).

(ii) if the contracting authority proposes to rely on section 24 of the 2023 Act (refining award criteria), a summary of how it will rely on that section,

(d) where the number of suppliers is, or may be, no more than a maximum number of suppliers, generally or in respect of particular tendering rounds or other selection processes, the maximum number of suppliers and the criteria used to select the limited number of suppliers,

(e) where the number of suppliers is, or may be, no less than an intended minimum number of suppliers, generally or in respect of particular tendering rounds or other selection processes, the intended minimum number of suppliers,

(f) where the tender notice is being used for the purpose of inviting suppliers to submit a request to participate, how requests to participate may be submitted and the date by when they must be submitted,

(g) where the tender notice is being used for the purpose of inviting suppliers to submit their first, or only, tender, how tenders may be submitted and the date by when they must be submitted, and

(h) whether the tender notice is being used—

(i) to reserve a contract to supported employment providers in accordance with section 32 of the 2023 Act, or

(ii) to reserve a contract to public service mutuals in accordance with section 33 of the 2023 Act.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(4) This regulation does not apply to—

(a) a tender notice for the award of a framework through a competitive flexible procedure (see instead regulation 21), or

(b) a tender notice for the award of a public contract by reference to suppliers' membership of a dynamic market (see instead regulation 22).

Hysbysiadau tendro: fframweithiau

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu fframwaith, a gyhoeddir yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) pan fo'r weithdrefn agored yn cael ei defnyddio, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 19(2),

(b) pan fo'r weithdrefn hyblyg gystadleuol yn cael ei defnyddio, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 20(2),

(c) manylion y broses ddethol sydd i'w chymhwyso wrth ddyfarnu contractau,

(d) cyfnod y fframwaith,

(e) yr awdurdodau contractio a chanddynt hawlogaeth i ddyfarnu contractau yn unol â'r fframwaith (pa un ai drwy restru enwau'r awdurdodau hynny neu drwy ddisgrifio categorïau o awdurdodau),

(f) a yw'r fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan fframwaith agored,

(g) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith olaf a ddyfarnwyd o dan y fframwaith agored (oni bai nad oes fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan y fframwaith agored yn flaenorol),

(h) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, amcangyfrif o ddyddiad dod i ben y fframwaith agored,

(i) pa un ai'r bwriad yw dyfarnu'r fframwaith—

(i) i gyflenwr unigol,

(ii) i uchafswm o gyflenwyr, neu

(iii) i nifer diderfyn o gyflenwyr,

(j) pan mai'r bwriad yw dyfarnu'r fframwaith i uchafswm o gyflenwyr, yr uchafswm o gyflenwyr,

(k) a yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 45(7) o Ddeddf 2023 ac, os felly, y ganran sefydlog o werth amcangyfrifedig unrhyw gontract a ddyfernir i'r cyflenwr yn unol â'r fframwaith ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn deall sut y caiff ffioedd eu codi, ac

Tender notices: frameworks

21.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a tender notice for the award of a framework published under section 21(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) where the open procedure is being used, the same information referred to in regulation 19(2),

(b) where the competitive flexible procedure is being used, the same information referred to in regulation 20(2),

(c) details of the selection process to be applied on the award of contracts,

(d) the term of the framework,

(e) the contracting authorities entitled to award contracts in accordance with the framework (whether by listing the names of those authorities or by describing categories of authorities),

(f) whether the framework is being awarded under an open framework,

(g) where the framework is being awarded under an open framework, the unique identifier for the procurement of the last framework awarded under the open framework (unless no framework has previously been awarded under the open framework),

(h) where the framework is being awarded under an open framework, the estimated end date of the open framework,

(i) whether the intention is to award the framework to—

(i) a single supplier,

(ii) a maximum number of suppliers, or

(iii) an unlimited number of suppliers,

(j) where the intention is to award the framework to a maximum number of suppliers, the maximum number of suppliers,

(k) whether the framework provides for the charging of fees in accordance with section 45(7) of the 2023 Act, and, if so, the fixed percentage of the estimated value of any contract awarded to the supplier in accordance with the framework and any other information needed in order to understand how fees will be charged, and

(l) pan fo'r fframwaith yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig—

(i) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,

(ii) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus sydd i'w ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a

(iii) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig—

(aa) enw'r rhan, a

(bb) y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan gan y person a sefydlodd y farchnad ddynamig.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau tendro: marchnadoedd dynamig ac eithrio marchnadoedd dynamig cyfleustodau cymhwysol

22.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a gyhoeddir o dan adrannau 21(1)(b) a 34(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 20(2),

(b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,

(c) datganiad bod yr hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus sydd i'w ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, a

(d) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig—

(i) enw'r rhan, a

(ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan gan yr awdurdod priodol.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad tendro o'r math a grybwyllir yn rheoliad 23(1).

(l) where the framework is being awarded by reference to suppliers' membership of a dynamic market—

(i) the unique identifier for the dynamic market against which the public contract is being awarded,

(ii) a statement that the tender notice is for the award of a public contract which is to be awarded by reference to suppliers' membership of a dynamic market, and

(iii) where the public contract is being awarded under an appropriate part of a dynamic market—

(aa) the title of the part, and

(bb) the distinct number given to the part by the person who established the dynamic market.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

Tender notices: dynamic markets except qualifying utilities dynamic markets

22.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a tender notice for the award of a public contract by reference to suppliers' membership of a dynamic market published under sections 21(1)(b) and 34(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the same information referred to in regulation 20(2),

(b) the unique identifier for the dynamic market against which the public contract is being awarded,

(c) a statement that the tender notice is for the award of a public contract which is to be awarded by reference to suppliers' membership of a dynamic market, and

(d) where the public contract is being awarded under an appropriate part of a dynamic market—

(i) the title of the part, and

(ii) the distinct number given to the part by the appropriate authority.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from providing other information that relates to the same procurement in the notice.

(4) This regulation does not apply to a tender notice of the type mentioned in regulation 23(1).

Hysbysiadau tendro: hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus, drwy gyfeirio at farchnad ddynamig cyfleustodau a sefydlir o dan hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol, a ddarperir o dan adran 40(2) neu (3) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn ei herbyn,

(c) pwnc y contract,

(d) pan fo'r contract cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r awdurdod contractio yn disgwyl y bydd eu hangen ar ôl i'r contract ddod i ben, amcangyfrif o'r dyddiad, os yw'n bosibl, y bydd unrhyw hysbysiad tendro dilynol yn cael ei ddarparu,

(e) disgrifiad o unrhyw opsiwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y contract cyhoeddus—

(i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu

(ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,

(f) a fydd arwerthiant electronig yn cael ei ddefnyddio,

(g) sut y caniateir cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(h) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(i) a yw'r awdurdod contractio yn bwriadu dibynnu ar un o'r cyfnodau tendro lleiaf canlynol a grybwyllir yn y tabl yn adran 54(4) o Ddeddf 2023 ac, os felly, pa gofnod—

(i) y cofnod cyntaf (mae'r contract sy'n cael ei ddyfarnu yn gontract cyffyrddiad ysgafn; dim cyfnod lleiaf),

(ii) yr ail gofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, sy'n ddarostyngedig i gyfnod tendro a negodwyd; dim cyfnod lleiaf);

Tender notices: qualifying utilities dynamic market notices

23.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a tender notice for the award of a public contract by reference to a utilities dynamic market established under a qualifying utilities dynamic market notice provided under section 40(2) or (3) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the unique identifier for the dynamic market against which the public contract is being awarded,

(c) the contract subject-matter,

(d) where the public contract is for goods, services or works which the contracting authority expects will be needed after the expiry of the contract, an estimate, if possible, of the date when any subsequent tender notice will be provided,

(e) a description of any option which will be included in the public contract—

(i) to supply additional goods, services or works, or

(ii) to extend or renew the term of the contract,

(f) whether an electronic auction will be used,

(g) how requests to participate may be submitted and the date by when they must be submitted,

(h) how tenders may be submitted and the date by when they must be submitted,

(i) whether the contracting authority proposes to rely on one of the following minimum tendering periods mentioned in the table in section 54(4) of the 2023 Act and, if so, which entry—

(i) first entry (contract being awarded is a light touch contract; no minimum period),

(ii) second entry (utilities contracts or contracts awarded by a contracting authority which is not a central government authority subject to a negotiated tender period; no minimum period),

(iii) y trydydd cofnod (contractau cyfleustodau neu gontractau a ddyfernir gan awdurdod contractio nad yw'n awdurdod llywodraeth ganolog, pan ganiateir cyflwyno tendrau gan gyflenwyr a ddetholwyd ymlaen llaw yn unig; 10 niwrnod), neu

(iv) y pumed cofnod (sefyllfa frys; 10 niwrnod),

(j) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi, a

(k) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi.

(3) Pan fo awdurdod contractio eisoes wedi cyhoeddi gwybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (2) yn yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn unol â rheoliad 26(2)(i)(ii), nid yw'n ofynnol i'r awdurdod contractio ddarparu'r wybodaeth honno yn yr hysbysiad.

(4) Ym mharagraff (2), mae i "arwerthiant electronig" yr ystyr a roddir gan reoliad 19(3).

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag darparu gwybodaeth arall yn yr hysbysiad.

Dogfennau tendro cysylltiedig

24.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi pa wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn dogfen dendro gysylltiedig a ddarperir o dan adran 21(3) o Ddeddf 2023 yn unol â hysbysiad tendro.

(2) Caiff y ddogfen gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ategu'r hysbysiad tendro gan gynnwys, pan fo'n briodol, wybodaeth sy'n dyblygu'r wybodaeth a grybwyllir—

(a) yn rheoliad 19(2),

(b) yn rheoliad 20(2),

(c) yn rheoliad 21(2),

(d) yn rheoliad 22(2), neu

(e) yn rheoliad 23(2).

Hysbysiadau tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy

25.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy, a gyhoeddir o dan adran 87(1) o Ddeddf 2023.

(iii) third entry (utilities contracts or contracts awarded by a contracting authority which is not a central government authority where tenders may be submitted only by preselected suppliers; 10 days), or

(iv) fifth entry (state of urgency; 10 days),

(j) a description of the kinds of goods, services or works which will be supplied, and

(k) the estimated amount of goods, services or works which will be supplied.

(3) Where a contracting authority has already published information mentioned in paragraph (2) in the qualifying utilities dynamic market notice to which the notice relates in accordance with regulation 26(2)(i)(ii), the contracting authority is not required to provide that information in the notice.

(4) In paragraph (2), "electronic auction" has the meaning given by regulation 19(3).

(5) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from providing other information in the notice.

Associated tender documents

24.—(1) This regulation sets out what information may be included in an associated tender document provided under section 21(3) of the 2023 Act in accordance with a tender notice.

(2) The document may include any information supplementing the tender notice including, where appropriate, information duplicating the information mentioned in—

(a) regulation 19(2),

(b) regulation 20(2),

(c) regulation 21(2),

(d) regulation 22(2), or

(e) regulation 23(2).

Below-threshold tender notices

25.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a below-threshold tender notice published under section 87(1) of the 2023 Act.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) pan fo'r contract yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at farchnad ddynamig, y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig honno,

(e) pan fo'r contract i gael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan yr awdurdod contractio,

(f) pwnc y contract,

(g) amcangyfrif o werth y contract,

(h) sut y caniateir cyflwyno tendrau a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyflwyno,

(i) a yw'r hysbysiad yn cael ei ddefnyddio i wahodd tendrau ar gyfer contract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw yn gontract cyffyrddiad ysgafn,

(j) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—

(i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu

(ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(k) esboniad o'r meini prawf y bydd dyfarnu'r contract yn cael ei asesu yn eu herbyn, ac

(l) disgrifiad o unrhyw amodau cymryd rhan mewn perthynas â dyfarnu'r contract.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad tendro ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy" yr ystyr a roddir i "below-threshold tender notice" gan adran 87(5) o Ddeddf 2023.

Hysbysiadau marchnad ddynamig (gan gynnwys hysbysiadau marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol)

26.—(1) Mae paragraff (2) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(2) o Ddeddf 2023 (hysbysiadau marchnad ddynamig: bwriad i sefydlu marchnad ddynamig).

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) where the contract is being awarded by reference to a dynamic market, the unique identifier for that dynamic market,

(e) where the contract will be awarded under an appropriate part of a dynamic market, the distinct number given to that part by the contracting authority,

(f) the contract subject-matter,

(g) the estimated value of the contract,

(h) how tenders may be submitted and the date by when they must be submitted,

(i) whether the notice is being used to invite tenders for a special regime contract and, if so, whether that contract is a light touch contract,

(j) whether the contracting authority considers that the contract or any lot forming part of the contract may be particularly suitable to be awarded—

(i) to a small and medium-sized enterprise, or

(ii) to a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(k) an explanation of the criteria against which the award of the contract will be assessed, and

(l) a description of any conditions of participation in relation to the award of the contract.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(4) In this regulation "below-threshold tender notice" has the meaning given by section 87(5) of the 2023 Act.

Dynamic market notices (including qualifying utilities dynamic market notices)

26.—(1) Paragraph (2) sets out other information which must be included in a dynamic market notice published under section 39(2) of the 2023 Act (dynamic market notices: intention to establish a dynamic market).

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) enw'r person sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig,

(b) pan fo dau berson neu ragor yn sefydlu'r farchnad ddynamig ar y cyd—

(i) enw'r person arweiniol, a

(ii) enw pob un o'r personau eraill,

(c) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob person a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b),

(d) y cod adnabod unigryw ar gyfer pob person a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b),

(e) enw unrhyw berson ("A") sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig ar ran person arall ac—

(i) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost A,

(ii) cod adnabod unigryw A, a

(iii) crynodeb o rôl A mewn perthynas â'r farchnad ddynamig,

(f) enw, cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost unrhyw berson y gellir cysylltu ag ef os bydd ymholiad ynghylch y farchnad ddynamig,

(g) enw'r farchnad ddynamig,

(h) y cod adnabod unigryw ar gyfer y farchnad ddynamig,

(i) yn achos hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol—

(i) datganiad mai dim ond aelodau o'r farchnad, neu o ran o'r farchnad, fydd yn cael eu hysbysu am fwriad yn y dyfodol i ddyfarnu contract drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o'r farchnad, neu o ran o'r farchnad, ac yn cael hysbysiad tendro yn unol ag adran 40(1) a (2) o Ddeddf 2023, a

(ii) cymaint o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei chyhoeddi mewn unrhyw hysbysiad tendro a gyhoeddir yn unol â rheoliad 23(2) ag sydd ar gael pan gyhoeddir yr hysbysiad marchnad ddynamig cyfleustodau cymhwysol,

(j) sut y gellir cael gafael ar ddogfennau sy'n ymwneud â'r farchnad ddynamig,

(k) sut y caniateir gwneud cais i ymuno â'r farchnad ddynamig,

(l) a yw'r farchnad ddynamig yn bennaf ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau,

(2) The information is—

(a) the name of the person establishing the dynamic market,

(b) where there are two or more persons who are jointly establishing the dynamic market—

(i) the name of the lead person, and

(ii) the name of each of the other persons,

(c) a contact postal address and email address for each person mentioned in sub-paragraph (a) or (b),

(d) the unique identifier for each person mentioned in sub-paragraph (a) or (b),

(e) the name of any person ("A") establishing the dynamic market on behalf of another person and—

(i) A's contact postal address and email address,

(ii) A's unique identifier, and

(iii) a summary of A's role in relation to the dynamic market,

(f) the name, contact postal address and email address of any person who can be contacted in the event of an enquiry about the dynamic market,

(g) the title of the dynamic market,

(h) the unique identifier for the dynamic market,

(i) in the case of a qualifying utilities dynamic market notice—

(i) a statement that only members of the market, or part of the market, will be notified of a future intention to award a contract by reference to suppliers' membership of the market, or part of the market, and provided with a tender notice in accordance with section 40(1) and (2) of the 2023 Act, and

(ii) as much of the information as would be published in any tender notice published in accordance with regulation 23(2) that is available when the qualifying utilities dynamic market notice is published,

(j) how documents relating to the dynamic market may be obtained,

(k) how an application to join the dynamic market may be made,

(l) whether the dynamic market is mainly for the supply of goods, services or works,

(m) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau y mae'r farchnad ddynamig yn ymwneud â hwy, wedi ei roi yn y fath fanylder fel y gall darllenydd yr hysbysiad marchnad ddynamig benderfynu a yw'n dymuno gwneud cais i ymuno â'r farchnad ddynamig, neu ran briodol o'r farchnad,

(n) y codau GGG perthnasol,

(o) yr amodau ar gyfer aelodaeth o'r farchnad ddynamig, neu ran o'r farchnad, wedi eu gosod yn unol ag adran 36 o Ddeddf 2023,

(p) disgrifiad o'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i ddilysu a yw cyflenwr yn bodloni'r amodau hynny, gan gynnwys unrhyw amodau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau,

(q) a ganiateir i'r farchnad ddynamig gael ei defnyddio i ddyfarnu contract cyhoeddus y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei gyfer o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau,

(r) o'r dyddiad y daw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig, a yw'r farchnad ddynamig yn farchnad y mae gan y Deyrnas Unedig rwymedigaethau ar ei chyfer o dan y Cytundeb hwnnw,

(s) a ganiateir i'r farchnad ddynamig gael ei defnyddio i ddyfarnu contract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw'r contract hwnnw—

(i) yn gontract consesiwn,

(ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu

(iii) yn gontract cyfleustodau,

(t) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau priodol at ddiben gwahardd cyflenwyr nad ydynt yn aelodau o ran briodol—

(i) enw pob rhan,

(ii) disgrifiad o bob rhan gan gynnwys unrhyw godau GGG perthnasol, a

(iii) y rhif neilltuol a roddir i bob rhan gan y person sy'n sefydlu'r farchnad ddynamig,

(u) gwybodaeth sy'n galluogi darllenydd i nodi pa awdurdodau contractio fydd yn gwneud cais, neu y caniateir iddynt wneud cais, i ddefnyddio'r farchnad ddynamig (naill ai drwy gyfeirio at restr o awdurdodau neu restr sy'n disgrifio categorïau o awdurdodau),

(m) a description of the kinds of goods, services or works to which the dynamic market relates, given in such detail that a reader of the dynamic market notice can determine if they wish to apply to join the dynamic market, or appropriate part of the market,

(n) the relevant CPV codes,

(o) the conditions for membership of the dynamic market, or part of the market, set in accordance with section 36 of the 2023 Act,

(p) a description of the methods that will be used to verify whether a supplier meets those conditions, including any different conditions for different kinds of goods, services or works,

(q) whether the dynamic market may be used to award a public contract for which the United Kingdom has obligations under the GPA,

(r) from the date when the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership enters into force for the United Kingdom, whether the dynamic market is one for which the United Kingdom has obligations under that Agreement,

(s) whether the dynamic market may be used to award a special regime contract and, if so, whether that contract is—

(i) a concession contract,

(ii) a light touch contract, or

(iii) a utilities contract,

(t) where the dynamic market is divided into appropriate parts for the purpose of excluding suppliers that are not members of an appropriate part—

(i) the title of each part,

(ii) a description of each part including any relevant CPV codes, and

(iii) the distinct number given to each part by the person establishing the dynamic market,

(u) information enabling a reader to identify which contracting authorities will, or may apply to, use the dynamic market (either by reference to a list of authorities or a list describing categories of authorities),

(v) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,

(w) yn achos marchnad ddynamig, y mae amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yn peidio â gweithredu yn hysbys ar ei chyfer—

(i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn cael ei sefydlu, a

(ii) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn peidio â gweithredu,

(x) yn achos marchnad ddynamig nad oes amcangyfrif o'r dyddiad y bydd yn peidio â gweithredu yn hysbys ar ei chyfer—

(i) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y farchnad ddynamig yn cael ei sefydlu, a

(ii) datganiad bod y farchnad ddynamig yn farchnad benagored,

(y) yn achos marchnad ddynamig nad yw'n farchnad ddynamig cyfleustodau, a yw'r farchnad ddynamig yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 38(1) o Ddeddf 2023 ac, os felly—

(i) y ganran sefydlog i'w chymhwyso i werth amcangyfrifedig unrhyw gontract cyhoeddus a ddyfernir i gyflenwr drwy gyfeirio at y farchnad ddynamig, a

(ii) unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn galluogi cyflenwyr i ddeall sut y bydd ffioedd yn cael eu codi, a

(z) yn achos marchnad ddynamig cyfleustodau—

(i) a yw'r farchnad ddynamig cyfleustodau yn darparu ar gyfer codi ffioedd yn unol ag adran 38(3) o Ddeddf 2023, a

(ii) os felly, unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall er mwyn galluogi cyflenwyr i ddeall sut y bydd ffioedd yn cael eu codi.

(3) Mae paragraff (4) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(3) o Ddeddf 2023 (sefydlu marchnad ddynamig).

(4) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h),

(b) y dyddiad y cafodd y farchnad ddynamig ei sefydlu,

(c) ar gyfer pob cyflenwr sy'n aelod o'r farchnad ddynamig—

(i) enw'r cyflenwr,

(ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,

(v) the geographical classification, where it is possible to describe this,

(w) in the case of a dynamic market with an estimated date when it will cease to operate—

(i) the estimated date when the dynamic market will be established, and

(ii) the estimated date when the dynamic market will cease to operate,

(x) in the case of a dynamic market without an estimated date when it will cease to operate—

(i) the estimated date when the dynamic market will be established, and

(ii) a statement that the dynamic market is an open-ended market,

(y) in the case of a dynamic market which is not a utilities dynamic market, whether the dynamic market provides for the charging of fees in accordance with section 38(1) of the 2023 Act and if so—

(i) the fixed percentage to be applied to the estimated value of any public contract awarded to a supplier by reference to the dynamic market, and

(ii) any other information needed in order to enable suppliers to understand how fees will be charged, and

(z) in the case of a utilities dynamic market—

(i) whether the utilities dynamic market provides for the charging of fees in accordance with section 38(3) of the 2023 Act, and

(ii) if so, any other information needed in order to enable suppliers to understand how fees will be charged.

(3) Paragraph (4) sets out other information which must be included in a dynamic market notice published under section 39(3) of the 2023 Act (establishment of a dynamic market).

(4) The information is—

(a) the same information referred to in paragraph (2)(a) to (h),

(b) the date on which the dynamic market was established,

(c) for each supplier that is a member of the dynamic market—

(i) the supplier's name,

(ii) the supplier's contact postal address and email address,

(iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a

(iv) a yw'r cyflenwr—

(aa) yn fenter fach a chanolig ei maint, neu

(bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol, a

(d) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae pob un o'r cyflenwyr hynny yn aelod ohoni.

(5) Mae paragraff (6) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(4) o Ddeddf 2023 (addasiadau i farchnad ddynamig).

(6) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h),

(b) y dyddiad y mae'r addasiad yn cael effaith ohono,

(c) os yw cyflenwr yn cael ei dderbyn i'r farchnad, datganiad i'r perwyl hwnnw ac—

(i) ei enw, ei gyfeiriad post cyswllt, ei gyfeiriad e-bost a'i god adnabod unigryw, a

(ii) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae'r cyflenwr yn aelod ohoni,

(d) a yw'r cyflenwr—

(i) yn fenter fach a chanolig ei maint, neu

(ii) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(e) os yw cyflenwr yn cael ei dynnu oddi wrth y farchnad, datganiad i'r perwyl hwnnw ac—

(i) ei enw, ei gyfeiriad post cyswllt, ei gyfeiriad e-bost a'i god adnabod unigryw, a

(ii) pan fo'r farchnad ddynamig wedi ei rhannu'n rhannau, y rhan y mae'r cyflenwr yn aelod ohoni,

(f) crynodeb o unrhyw addasiad arall sy'n cael ei wneud, ac

(g) cadarnhad y cafodd asesiad gwrthdaro ei baratoi a'i ddiwygio yn unol ag adran 83 o Ddeddf 2023.

(iii) the unique identifier for the supplier, and

(iv) whether the supplier is—

(aa) a small and medium-sized enterprise, or

(bb) a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives, and

(d) where the dynamic market is divided into parts, the part of which each of those suppliers is a member.

(5) Paragraph (6) sets out other information which must be included in a dynamic market notice published under section 39(4) of the 2023 Act (modifications to a dynamic market).

(6) The information is—

(a) the same information referred to in paragraph (2)(a) to (h),

(b) the date from when the modification has effect,

(c) if a supplier is being admitted to the market, a statement to that effect and—

(i) their name, contact postal address, email address and unique identifier, and

(ii) where the dynamic market is divided into parts, the part of which the supplier is a member,

(d) whether the supplier is—

(i) a small and medium-sized enterprise, or

(ii) a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(e) if a supplier is being removed from the market, a statement to that effect and—

(i) their name, contact postal address, email address and unique identifier, and

(ii) where the dynamic market is divided into parts, the part of which the supplier is a member,

(f) a summary of any other modification being made, and

(g) confirmation that a conflicts assessment was prepared and revised in accordance with section 83 of the 2023 Act.

(7) Mae paragraff (8) yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad marchnad ddynamig a gyhoeddir o dan adran 39(5) o Ddeddf 2023 (diwedd marchnad ddynamig).

(8) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2)(a) i (h), a

(b) y dyddiad y peidiodd y farchnad â gweithredu.

(9) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad mewn hysbysiad marchnad ddynamig.

Hysbysiadau tryloywder

27.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad tryloywder a gyhoeddir o dan adran 44(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) yn achos caffaeliad pan fo newid wedi bod i ddyfarniad uniongyrchol yn unol ag adran 43 o Ddeddf 2023, y cod adnabod unigryw a ddyrannwyd i'r caffaeliad cyn y newid i ddyfarniad uniongyrchol,

(e) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract, os yw hyn yn hysbys pan gyhoeddir yr hysbysiad tryloywder,

(f) pwnc y contract,

(g) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw—

(i) yn gontract consesiwn,

(ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu

(iii) yn gontract cyfleustodau,

(h) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn gymwys yn unol ag adran 41(1)(a) o Ddeddf 2023,

(i) os yw is-baragraff (h) yn gymwys, y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,

(7) Paragraph (8) sets out other information which must be included in a dynamic market notice published under section 39(5) of the 2023 Act (cessation of a dynamic market).

(8) The information is—

(a) the same information referred to in paragraph (2)(a) to (h), and

(b) the date when the dynamic market ceased to operate.

(9) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in a dynamic market notice.

Transparency notices

27.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a transparency notice published under section 44(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) in the case of a procurement where there has been a switch to a direct award in accordance with section 43 of the 2023 Act, the unique identifier allocated to the procurement before the switch to direct award,

(e) the unique identifier for the contract, if this is known when the transparency notice is published,

(f) the contract subject-matter,

(g) whether the contract is a special regime contract and, if so, whether it is—

(i) a concession contract,

(ii) a light touch contract, or

(iii) a utilities contract,

(h) whether the contract is being awarded directly to a supplier that is not an excluded supplier because a direct award justification applies in accordance with section 41(1)(a) of the 2023 Act,

(i) if sub-paragraph (h) applies, the direct award justification in Schedule 5 to the 2023 Act which applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,

(j) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod yr awdurdod contractio yn ystyried mai'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yw dyfarnu'r contract i'r cyflenwr hwnnw yn unol ag adran 41(2) i (5) o Ddeddf 2023,

(k) os yw is-baragraff (j) yn gymwys—

(i) y drosedd, neu ddigwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, y mae'r cyflenwr yn gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd y drosedd honno neu'r digwyddiad hwnnw, a

(ii) pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei bod yn gymwys,

(l) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr yn unol â rheoliadau sydd wedi eu gwneud o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.),

(m) os yw is-baragraff (l) yn gymwys, enw a rhif cofrestru'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau hynny,

(n) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2023 (newid i ddyfarniad uniongyrchol),

(o) os yw is-baragraff (n) yn gymwys, y rheswm pam, ym marn yr awdurdod contractio, na fu unrhyw dendrau addas nac unrhyw geisiadau i gymryd rhan drwy gyfeirio at adran 43(2) o Ddeddf 2023, a pham y mae'n ystyried nad yw dyfarniad o dan adran 19 o'r Ddeddf honno yn bosibl o dan yr amgylchiadau,

(p) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau ac, os felly—

(i) enw pob lot, a

(ii) y rhif neilltuol a roddwyd i bob lot gan yr awdurdod contractio,

(q) amcangyfrif o werth y contract,

(r) a yw'r awdurdod contractio yn ystyried y gall y contract neu unrhyw lot sy'n ffurfio rhan o'r contract fod yn arbennig o addas i'w ddyfarnu—

(i) i fenter fach a chanolig ei maint, neu

(j) whether the contract is being awarded directly to a supplier that is an excluded supplier because the contracting authority considers that there is an overriding public interest in awarding the contract to that supplier in accordance with section 41(2) to (5) of the 2023 Act,

(k) if sub-paragraph (j) applies—

(i) the offence or other event mentioned in Schedule 6 to the 2023 Act by virtue of which the supplier is an excluded supplier, and

(ii) which ground in section 41(5) of the 2023 Act applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,

(l) whether the contract is being awarded directly to a supplier pursuant to regulations made under section 42 of the 2023 Act (direct award to protect life, etc.),

(m) if sub-paragraph (l) applies, the title and registration number of the statutory instrument containing those regulations,

(n) whether the contract is being awarded directly to a supplier that is not an excluded supplier by virtue of section 43 of the 2023 Act (switching to direct award),

(o) if sub-paragraph (n) applies, the reason the contracting authority considers there were no suitable tenders or requests to participate by reference to section 43(2) of the 2023 Act and why it considers that an award under section 19 of that Act is not possible in the circumstances,

(p) whether the contract is being awarded by reference to lots and, if so—

(i) the title of each lot, and

(ii) the distinct number given to each lot by the contracting authority,

(q) the estimated value of the contract,

(r) whether the contracting authority considers that the contract or any lot forming part of the contract may be particularly suitable to be awarded—

(i) to a small and medium-sized enterprise, or

(ii) i gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(s) disgrifiad yn nodi unrhyw risg—

(i) y mae'r awdurdod contractio yn ystyried y gallai beri i'r contract beidio â chael ei gyflawni'n foddhaol ond, oherwydd ei natur, y mae'n bosibl na fydd yn cael sylw yn y contract fel y'i dyfernir, a

(ii) a all ei gwneud yn ofynnol addasu'r contract yn ddiweddarach o dan baragraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf 2023 (addasu contract yn dilyn gwireddiad risg hysbys),

(t) a yw cyflenwyr wedi eu dethol ar gyfer dyfarnu'r contract,

(u) os yw cyflenwyr wedi eu dethol ar gyfer dyfarnu'r contract, ar gyfer pob cyflenwr a ddetholwyd—

(i) enw'r cyflenwr,

(ii) naill ai—

(aa) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, neu

(bb) yn achos contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys) pan na fo cod adnabod unigryw wedi ei ddyrannu i'r cyflenwr pan gyhoeddwyd yr hysbysiad tryloywder ond bo'r cyflenwr yn gallu darparu gwybodaeth unigryw yn lle hynny (er enghraifft, rhif cofrestru cwmni a roddwyd o dan DC 2006) y gellir ei chydnabod gan y platfform digidol canolog yn sail ar gyfer cod adnabod unigryw a ddyrennir gan y platfform hwnnw, yr wybodaeth unigryw honno, a

(iii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,

(v) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract, ac

(w) pan fo'r contract yn fframwaith—

(i) cyfnod y fframwaith,

(ii) to a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(s) a description identifying any risk that—

(i) the contracting authority considers could jeopardise the satisfactory performance of the contract, but because of its nature, may not be addressed in the contract as awarded, and

(ii) may require a subsequent modification to the contract under paragraph 5 of Schedule 8 to the 2023 Act (modification of contract following materialisation of a known risk),

(t) whether suppliers have been selected for the award of the contract,

(u) if suppliers have been selected for the award of the contract, for each supplier selected—

(i) the supplier's name,

(ii) either—

(aa) the unique identifier for the supplier, or

(bb) in the case of a direct award of a public contract pursuant to paragraphs 13 and 14 of Schedule 5 to the 2023 Act (urgency) where the supplier has not been allocated a unique identifier when the transparency notice is published but can instead provide unique information (for example a company registration number given under the CA 2006) which can be recognised by the central digital platform as the basis for a unique identifier allocated by that platform, that unique information, and

(iii) the supplier's contact postal address and email address,

(v) the estimated date when the contract will be entered into, and

(w) where the contract is a framework—

(i) the term of the framework,

(ii) a yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer codi ffioedd ar gyflenwr yn unol â'r fframwaith ac, os felly, fanylion y ganran sefydlog a ddefnyddir i godi'r ffi arno yn unol ag adran 45(7) o Ddeddf 2023, a

(iii) yr awdurdodau contractio a chanddynt hawlogaeth i ddyfarnu contractau yn unol â'r fframwaith (pa un ai drwy restru enwau'r awdurdodau hynny neu drwy ddisgrifio categorïau o awdurdodau).

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

Hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat

28.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan awdurdod contractio o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—

(i) y caffaeliad,

(ii) y contract cyhoeddus,

(iii) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith, caffaeliad y fframwaith y mae'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol ag ef, a

(iv) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at aelodaeth cyflenwyr o farchnad ddynamig, y farchnad ddynamig,

(d) pwnc y contract,

(e) ar gyfer pob cyflenwr y dyfernir y contract cyhoeddus iddo—

(i) enw'r cyflenwr,

(ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr,

(iii) naill ai—

(aa) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, neu

(ii) whether the framework provides for fees to be charged to a supplier in accordance with the framework and, if so, details of the fixed percentage by which they will be charged in accordance with section 45(7) of the 2023 Act, and

(iii) the contracting authorities entitled to award contracts in accordance with the framework (whether by listing the names of those authorities or by describing categories of authorities).

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

Contract award notices except those published by private utilities

28.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a contract award notice published by a contracting authority under section 50(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for—

(i) the procurement,

(ii) the public contract,

(iii) where the public contract is being awarded in accordance with a framework, the procurement of the framework in accordance with which the public contract is being awarded, and

(iv) where the public contract is being awarded by reference to a suppliers' membership of a dynamic market, the dynamic market,

(d) the contract subject-matter,

(e) for each supplier awarded the public contract—

(i) the supplier's name,

(ii) the supplier's contact postal address and email address,

(iii) either —

(aa) the unique identifier for the supplier, or

(bb) yn achos contract cyhoeddus sydd wedi ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol â pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 (sefyllfa frys) pan na fo cod adnabod unigryw wedi ei ddyrannu i'r cyflenwr pan gyhoeddwyd yr hysbysiad dyfarnu contract ond bo'r cyflenwr yn gallu darparu gwybodaeth unigryw yn lle hynny (er enghraifft, rhif cofrestru cwmni a roddwyd o dan DC 2006) y gellir ei chydnabod gan y platfform digidol canolog yn sail ar gyfer cod adnabod unigryw a ddyrennir gan y platfform hwnnw, yr wybodaeth unigryw honno,

(iv) a yw'r cyflenwr yn gymdeithas o gwmnïau neu'n gonsortiwm arall,

(v) a yw'r cyflenwr—

(aa) yn fenter fach a chanolig ei maint,

(bb) yn gorff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio ac sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

(cc) yn ddarparwr cyflogaeth â chymorth, neu

(dd) yn gwmni cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus,

(vi) ar gyfer pob person â chyswllt â'r cyflenwr, enw a chyfeiriad post cyswllt y person (mae i "person â chyswllt" yr ystyr a roddir i "associated person" gan adran 26(4) o Ddeddf 2023), a

(vii) gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig yn unol â rheoliad 12, ond gan ddarllen paragraffau (4)(a) ac (8)(a) o'r rheoliad hwnnw fel pe bai pob cyfeiriad at ddyddiad geni yn gyfeiriad at fis a blwyddyn geni, yn ddarostyngedig i baragraff (4) o'r rheoliad hwn,

(f) y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod contractio ddyfarnu'r contract cyhoeddus,

(g) os yw'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau, ar gyfer pob lot—

(i) enw'r cyflenwr y mae'r lot yn cael ei ddyfarnu iddo,

(ii) enw'r lot,

(bb) in the case of a direct award of a public contract pursuant to paragraphs 13 and 14 of Schedule 5 to the 2023 Act (urgency) where the supplier has not been allocated a unique identifier when the contract award notice is published but can instead provide unique information (for example a company registration number given under the CA 2006) which can be recognised by the central digital platform as the basis for a unique identifier allocated by that platform, that unique information,

(iv) whether the supplier is an association of companies or other consortium,

(v) whether the supplier is—

(aa) a small and medium-sized enterprise,

(bb) a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

(cc) a supported employment provider, or

(dd) a public service mutual,

(vi) for each associated person of the supplier, the person's name and contact postal address ("associated person" ("*person â chyswllt*") has the meaning given by section 26(4) of the 2023 Act), and

(vii) the supplier's connected person information in accordance with regulation 12, but reading paragraphs (4)(a) and (8)(a) of that regulation as if each reference to date of birth were a reference to month and year of birth, subject to paragraph (4) of this regulation,

(f) the date when the contracting authority decided to award the public contract,

(g) if the public contract is being awarded by reference to lots, for each lot—

(i) the name of the supplier that is being awarded the lot,

(ii) the title of the lot,

(iii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,

(iv) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

(v) crynodeb o'r modd y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau hynny yn cael eu cyflenwi,

(vi) amcangyfrif o'r dyddiad y bydd y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gweithiau yn cael eu cyflenwi neu amcangyfrif o'r cyfnod y byddant yn cael eu cyflenwi drosto,

(vii) amcangyfrif o swm nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a fydd yn cael eu cyflenwi,

(viii) amcangyfrif o werth y lot,

(ix) y codau GGG perthnasol, a

(x) y dosbarthiad daearyddol, pan fo'n bosibl ei ddisgrifio,

(h) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith, manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau canlynol a ddefnyddiwyd—

(i) proses ddethol gystadleuol ar gyfer fframweithiau o dan adran 46 o Ddeddf 2023, neu

(ii) dyfarniad heb gystadleuaeth bellach o dan adran 45(4) o Ddeddf 2023,

(i) pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith sy'n cael ei ddyfarnu o dan fframwaith agored, y cod adnabod unigryw ar gyfer caffaeliad y fframwaith olaf a ddyfarnwyd o dan y fframwaith agored (oni bai nad oes fframwaith wedi ei ddyfarnu o dan y fframwaith agored yn flaenorol),

(j) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu o dan ran briodol o farchnad ddynamig, y rhif neilltuol a roddwyd i'r rhan honno gan y person a sefydlodd y farchnad ddynamig,

(k) a yw'r contract cyhoeddus yn gontract cyfundrefn arbennig ac, os felly, a yw—

(i) yn gontract consesiwn,

(ii) yn gontract cyffyrddiad ysgafn, neu

(iii) yn gontract cyfleustodau,

(l) a yw'r awdurdod contractio wedi darparu crynodeb asesu i bob cyflenwr a gyflwynodd dendr a aseswyd, yn unol ag adran 50(3) o Ddeddf 2023 ac, os felly, y dyddiad y cafodd y crynodebau asesu hynny eu darparu,

(m) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,

(iii) the distinct number given to the lot by the contracting authority,

(iv) a description of the kinds of goods, services or works which will be supplied,

(v) a summary of how those goods, services or works will be supplied,

(vi) the estimated date when, or period over which, the goods, services or works will be supplied,

(vii) the estimated amount of goods, services or works which will be supplied,

(viii) the estimated value of the lot,

(ix) the relevant CPV codes, and

(x) the geographical classification, where it is possible to describe this,

(h) where the public contract is being awarded in accordance with a framework, details of which of the following procedures was used—

(i) a competitive selection process for frameworks under section 46 of the 2023 Act, or

(ii) an award without further competition under section 45(4) of the 2023 Act,

(i) where the public contract is a framework that is being awarded under an open framework, the unique identifier for the procurement of the last framework awarded under the open framework (unless no framework has previously been awarded under the open framework),

(j) where the public contract is being awarded under an appropriate part of a dynamic market, the distinct number given to that part by the person who established the dynamic market,

(k) whether the public contract is a special regime contract and, if so, whether it is—

(i) a concession contract,

(ii) a light touch contract, or

(iii) a utilities contract,

(l) whether the contracting authority has provided an assessment summary to each supplier that submitted an assessed tender in accordance with section 50(3) of the 2023 Act and, if so, the date when those assessment summaries were provided,

(m) the estimated value of the public contract,

(n) mewn cysylltiad â phob contract cyhoeddus—

(i) cyfanswm y tendrau a gyflwynwyd erbyn dyddiad cau'r awdurdod contractio ar gyfer cyflwyno tendrau (gan ddiystyru tendrau a gyflwynwyd ond a dynnwyd yn ôl wedyn),

(ii) cyfanswm y tendrau a aseswyd gan yr awdurdod contractio, a

(iii) cyfanswm y tendrau aflwyddiannus a aseswyd gan yr awdurdod contractio ac a gyflwynwyd gan—

(aa) menter fach a chanolig ei maint, a

(bb) corff anllywodraethol â gwerthoedd yn ei lywio sy'n ailfuddsoddi ei wargedion yn bennaf er mwyn hybu amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol,

ac eithrio yn achos dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023,

(o) pan fo'r contract cyhoeddus yn fframwaith neu y bo wedi ei ddyfarnu mewn ffordd arall nad yw'n unol â fframwaith, manylion ynghylch pa un o'r gweithdrefnau canlynol a ddefnyddiwyd—

(i) gweithdrefn agored,

(ii) gweithdrefn hyblyg gystadleuol, neu

(iii) dyfarniad uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023,

(p) a ddefnyddiwyd hysbysiad tendro i neilltuo'r contract i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2023, a pha un a ddyfarnwyd y contract i gyflenwr o'r fath,

(q) a ddefnyddiwyd hysbysiad tendro i neilltuo'r contract i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 33 o Ddeddf 2023, ac a ddyfarnwyd y contract i gyflenwr o'r fath,

(r) y dyddiad dod i ben ar gyfer unrhyw gyfnod segur o dan adran 51 o Ddeddf 2023 neu, os nad oes unrhyw gyfnod segur yn gymwys, unrhyw ddyddiad cyn pryd y mae'r awdurdod contractio wedi penderfynu yn erbyn ymrwymo i'r contract,

(s) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract,

(t) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 27(2)(h) i (o),

(n) in respect of all public contracts—

(i) the total number of tenders submitted by the contracting authority's deadline for submitting tenders (discounting tenders submitted but subsequently withdrawn),

(ii) the total number of tenders assessed by the contracting authority, and

(iii) the total number of unsuccessful tenders assessed by the contracting authority which were submitted by—

(aa) a small and medium-sized enterprise, and

(bb) a non-governmental organisation that is value-driven and which principally reinvests its surpluses to further social, environmental or cultural objectives,

except in the case of a direct award under section 41 or 43 of the 2023 Act,

(o) where the public contract is a framework or awarded other than in accordance with a framework, details of which of the following procedures was used—

(i) an open procedure,

(ii) a competitive flexible procedure, or

(iii) a direct award under section 41 or 43 of the 2023 Act,

(p) whether a tender notice was used to reserve the contract to supported employment providers in accordance with section 32 of the 2023 Act, and whether the contract was awarded to such a supplier,

(q) whether a tender notice was used to reserve the contract to public service mutuals in accordance with section 33 of the 2023 Act, and whether the contract was awarded to such a supplier,

(r) the end date of any standstill period under section 51 of the 2023 Act or, if no standstill period applies, any date before which the contracting authority has determined not to enter into the contract,

(s) the estimated date when the contract will be entered into,

(t) where the public contract is being awarded directly under section 41 or 43 of the 2023 Act, the same information referred to in regulation 27(2)(h) to (o),

(u) pan fo'r contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu yn unol â fframwaith sy'n cael ei drefnu drwy gyfeirio at lotiau, y rhif neilltuol a roddwyd gan yr awdurdod contractio i'r lot y mae'r contract yn cael ei ddyfarnu odani, a

(v) pan fo—

(i) y contract cyhoeddus yn cael ei ddyfarnu drwy gyfeirio at lotiau, a

(ii) yr awdurdod contractio yn defnyddio'r hysbysiad dyfarnu contract i roi hysbysiad ei fod yn rhoi'r gorau i gaffael yr holl nwyddau, gwasanaethau a gweithiau a nodir yn un neu ragor o'r lotiau hynny neu mewn unrhyw lotiau o dan gontractau yn y dyfodol o dan y trefniant o dan adran 18(2)(a) o Ddeddf 2023,

gwybodaeth y lot sy'n dod i ben.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gwybodaeth y lot sy'n dod i ben" yw—

(a) yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob lot sy'n dod i ben—

(i) enw'r lot,

(ii) y rhif neilltuol a roddwyd i'r lot gan yr awdurdod contractio,

(iii) y codau GGG perthnasol, a

(iv) disgrifiad o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a oedd i'w cyflenwi o dan y lot, a

(b) y dyddiad y penderfynodd yr awdurdod contractio roi'r gorau i'r caffaeliad o dan y lot.

(4) Nid yw'n ofynnol i awdurdod contractio gyhoeddi, yn unol â pharagraff (2)(e)(vii), wybodaeth personau cysylltiedig sy'n wybodaeth sydd wedi ei diogelu mewn perthynas—

(a) â pherson cysylltiedig sy'n unigolyn sy'n bodloni'r disgrifiad yn rheoliad 12(3)(b) ac (c), neu

(b) â pherson cysylltiedig sy'n unigolyn sy'n bodloni'r disgrifiad yn rheoliad 12(15)(b).

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gwybodaeth sydd wedi ei diogelu" yw gwybodaeth—

(a) mewn perthynas ag unigolyn a grybwyllir ym mharagraff (4)(a) neu (b), sydd am y tro wedi ei hepgor o gofrestr pobl â rheolaeth sylweddol yn unol â rheoliad 33(1) o Reoliadau Cofrestrau Pobl â Rheolaeth Sylweddol 2016(**1**), neu

(**1**) O.S. 2016/339.

(u) where the public contract is being awarded in accordance with a framework which is arranged by reference to lots, the distinct number given by the contracting authority to the lot under which the contract is being awarded, and

(v) where—

(i) the public contract is being awarded by reference to lots, and

(ii) the contracting authority is using the contract award notice to give notice that it is ceasing to procure all of the goods, services and works set out in one or more of those lots or any lots under future contracts under the arrangement under section 18(2)(a) of the 2023 Act,

the ceased lot information.

(3) In this regulation "ceased lot information" is—

(a) the following information for each ceased lot—

(i) the title of the lot,

(ii) the distinct number given to the lot by the contracting authority,

(iii) the relevant CPV codes, and

(iv) a description of the kinds of goods, services or works which were to have been supplied under the lot, and

(b) the date when the contracting authority decided to cease the procurement under the lot.

(4) A contracting authority is not required to publish, in accordance with paragraph (2)(e)(vii), connected person information which is secured information in relation to—

(a) a connected person who is an individual who meets the description in regulation 12(3)(b) and (c), or

(b) a connected person who is an individual who meets the description in regulation 12(15)(b).

(5) In this regulation "Secured information" is information which—

(a) in relation to an individual mentioned in paragraph (4)(a) or (b), is for the time being omitted from a PSC register in accordance with regulation 33(1) of the Register of People with Significant Control Regulations 2016(**1**), or

(**1**) S.I. 2016/339.

(b) mewn perthynas ag unigolyn a grybwyllir ym mharagraff (4)(b), yw gwybodaeth y mae'r unigolyn—

(i) yn rhesymol o'r farn a nodir ym mharagraff (6) yn ei chylch, a

(ii) wedi cadarnhau'r farn honno yn ysgrifenedig i'r awdurdod contractio.

(6) Y farn yw, os bydd yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi—

(a) y bydd gweithgareddau'r cwmni, neu

(b) y bydd un neu ragor o nodweddion neu briodoleddau personol yr ymgeisydd pan fydd wedi ei gysylltu â'r cwmni hwnnw,

yn rhoi'r ymgeisydd neu berson sy'n byw gyda'r ymgeisydd mewn perygl difrifol o ddioddef trais neu fygythiad.

(7) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(8) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i awdurdod contractio sy'n gyfleustod preifat.

Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat

29.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustod preifat o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraffau (h) ac (n),

(b) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract, ac

(c) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—

(i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu

(ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractau eraill sydd wedi eu dyfarnu o dan yr un caffaeliad) yn yr hysbysiad.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) i ddyfarnu contract cyhoeddus yn uniongyrchol o dan adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023 (gweler yn hytrach reoliad 30), neu

(b) i ddyfarnu contract cyhoeddus yn unol â fframwaith (gweler yn hytrach reoliad 31).

(b) in relation to an individual mentioned in paragraph (4)(b), is information regarding which the individual—

(i) is reasonably of the view set out in paragraph (6), and

(ii) has confirmed that view in writing to the contracting authority.

(6) The view is that if the information is published—

(a) the activities of the company, or

(b) one or more characteristics or personal attributes of the applicant when associated with that company,

will put the applicant or a person living with the applicant at serious risk of being subjected to violence or intimidation.

(7) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(8) This regulation does not apply to a contracting authority that is a private utility.

Contract award notices published by private utilities

29.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a contract award notice published by a private utility under section 50(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the same information referred to in regulation 28(2)(a) to (q), except sub-paragraphs (h) and (n),

(b) the estimated date when the contract will be entered into, and

(c) a description of any option in the public contract—

(i) to supply additional goods, services or works, or

(ii) to extend or renew the term of the contract.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement (including information that relates to other contracts awarded under the same procurement) in the notice.

(4) This regulation does not apply to—

(a) the direct award of a public contract under section 41 or 43 of the 2023 Act (see instead regulation 30), or

(b) the award of a public contract in accordance with a framework (see instead regulation 31).

Hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: dyfarniadau uniongyrchol

30.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustod preifat o dan adran 50(1) o Ddeddf 2023 pan gafodd y contract ei ddyfarnu yn uniongyrchol yn unol ag adran 41 neu 43 o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 28(2)(a) i (q), ac eithrio is-baragraffau (c)(iii), (c)(iv), (h) i (j), (l) ac (n),

(b) amcangyfrif o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract,

(c) disgrifiad o unrhyw opsiwn yn y contract cyhoeddus—

(i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu

(ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,

(d) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr nad yw'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn gymwys yn unol ag adran 41(1)(a) o Ddeddf 2023,

(e) os yw is-baragraff (d) yn gymwys, y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,

(f) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr sy'n gyflenwr gwaharddedig oherwydd bod yr awdurdod contractio yn ystyried mai'r hyn sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd yw dyfarnu'r contract i'r cyflenwr hwnnw yn unol ag adran 41(2) i (5) o Ddeddf 2023,

(g) os yw is-baragraff (f) yn gymwys—

(i) y drosedd, neu ddigwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, y mae'r cyflenwr yn gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd y drosedd honno neu'r digwyddiad hwnnw, a

(ii) pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei bod yn gymwys,

(h) a yw'r contract yn cael ei ddyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwr yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 42 o Ddeddf 2023 (dyfarniad uniongyrchol er mwyn gwarchod bywyd, etc.),

Contract award notices published by private utilities: direct awards

(l) pan fo'r toriad wedi arwain at derfynu'r contract cyhoeddus yn rhannol, disgrifiad o ba ran o'r contract sydd wedi ei therfynu'n rhannol, neu i ba raddau y mae'r contract wedi ei derfynu'n rhannol, ac

(m) pan fo iawndal wedi ei ddyfarndalu neu pan fo arian arall wedi ei dalu yn dilyn toriad neu fethiant i gyflawni—

(i) cadarnhad mai dyna'r sefyllfa,

(ii) swm yr iawndal neu arian arall,

(iii) y sail y cafodd unrhyw iawndal ei ddyfarndalu neu y cafodd unrhyw arian arall ei dalu arni, er enghraifft—

(aa) yn achos iawndal, yn unol â'r contract cyhoeddus,

(bb) yn achos iawndal, yn unol â phenderfyniad llys neu dribiwnlys, neu

(cc) yn achos arian arall, yn unol â setliad wedi ei negodi, a

(iv) pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad llys neu dribiwnlys ynghylch ei ganfyddiad bod toriad wedi digwydd—

(aa) dolen i'r dudalen we lle y gellir cyrchu'r penderfyniad, neu

(bb) copi o'r penderfyniad.

(8) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(9) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn unol ag adran 71(5) o Ddeddf 2023 pan fo toriad wedi arwain at derfynu contract cyhoeddus yn llawn (gweler yn hytrach reoliad 42).

(iv) any steps that the contracting authority has taken to notify the supplier of the breach or failure to perform and encourage them to improve the situation, including—

(aa) any warning notices given under the public contract, or

(bb) any opportunity to improve performance, and

(v) what steps, if any, were taken by the supplier to improve the situation and why these were not sufficient,

(l) where the breach has resulted in partial termination of the public contract, a description of which part of, or to what extent, the contract has been partially terminated, and

(m) where there has been an award of damages or payment of other monies following the breach or failure to perform—

(i) confirmation that this is the case,

(ii) the amount of damages or other monies,

(iii) the basis on which any damages were awarded or other monies paid, for example—

(aa) in the case of damages, in accordance with the public contract,

(bb) in the case of damages, in accordance with a decision of a court or tribunal, or

(cc) in the case of other monies, in accordance with a negotiated settlement, and

(iv) where there has been a recorded decision of a court or tribunal finding a breach—

(aa) a link to the web page where the decision can be accessed, or

(bb) a copy of the decision.

(8) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(9) This regulation does not apply to information required to be published in accordance with section 71(5) of the 2023 Act where a breach resulted in the full termination of a public contract (see instead regulation 42).

Hysbysiadau newid contract

41.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad newid contract a gyhoeddir o dan adran 75(1) neu (5) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer y caffaeliad,

(d) y cod adnabod unigryw ar gyfer y contract,

(e) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy—

(i) enw'r cyflenwr,

(ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a

(iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,

(f) a oes gan yr awdurdod contractio ganiatâd i wneud yr addasiad i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy oherwydd bod yr addasiad, yn rhinwedd adran 74(1)(a) o Ddeddf 2023, yn addasiad a ddisgrifir—

(i) ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (sefyllfa frys a gwarchod bywyd, etc.),

(ii) ym mharagraff 4 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (amgylchiadau nad ydynt yn rhagweladwy),

(iii) ym mharagraffau 5 i 7 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (gwireddiad risg hysbys),

(iv) ym mharagraff 8 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol), neu

(v) ym mharagraff 9 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (trosglwyddo ar adeg ailstrwythuro corfforaethol),

(pan fo'r addasiad wedi ei ganiatáu o dan un o'r darpariaethau hynny),

(g) esboniad ynghylch pam y mae'r addasiad yn dod o fewn un o'r mathau o addasiadau a grybwyllir yn is-baragraff (f),

(h) manylion ynghylch unrhyw newid o ganlyniad i'r addasiad—

(i) i werth amcangyfrifedig y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy yn union cyn yr addasiad, neu

(ii) i gyfnod y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy,

Contract change notices

41.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a contract change notice published under section 75(1) or (5) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for the procurement,

(d) the unique identifier for the contract,

(e) for each supplier party to the public contract or convertible contract—

(i) the supplier's name,

(ii) the supplier's contact postal address and email address, and

(iii) the unique identifier for the supplier,

(f) whether the contracting authority is permitted to make the modification to the public contract or convertible contract because the modification is, by virtue of section 74(1)(a) of the 2023 Act, one which is described—

(i) in paragraphs 2 and 3 of Schedule 8 to that Act (urgency and the protection of life, etc.),

(ii) in paragraph 4 of Schedule 8 to that Act (unforeseeable circumstances),

(iii) in paragraphs 5 to 7 of Schedule 8 to that Act (materialisation of a known risk),

(iv) in paragraph 8 of Schedule 8 to that Act (additional goods, services or works), or

(v) in paragraph 9 of Schedule 8 to that Act (transfer on corporate restructuring),

(where the modification is permitted under one of those provisions),

(g) an explanation of why the modification falls within one of the types of modifications mentioned in sub-paragraph (f),

(h) details of any change as a result of the modification—

(i) to the estimated value of the public contract or convertible contract immediately prior to the modification, or

(ii) to the term of the public contract or convertible contract,

(i) pan fo'r addasiad yn addasiad a ddisgrifir ym mharagraff 9 o Atodlen 8 i'r Ddeddf honno (trosglwyddo ar adeg ailstrwythuro corfforaethol)—

(i) ar gyfer pob cyflenwr newydd sy'n barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy—

(aa) enw'r cyflenwr,

(bb) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, ac

(cc) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr, a

(ii) ar gyfer pob cyflenwr na fydd yn barti i'r contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy mwyach, yr un wybodaeth â'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (i)(aa) i (cc),

(j) amcangyfrif o'r dyddiad—

(i) pan fydd y contract cyhoeddus neu'r contract trosadwy yn cael ei addasu, a

(ii) pan fydd yr addasiad yn cael effaith, a

(k) a yw cyfnod segur gwirfoddol yn gymwys yn unol ag adran 76(1) o Ddeddf 2023 ac, os felly, hyd y cyfnod hwnnw.

(3) Ar gyfer darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi contractau fel y'u haddasir neu gyhoeddi addasiadau mewn achosion penodol, gweler adran 77 o Ddeddf 2023.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad newid contract" yr ystyr a roddir i "contract change notice" gan adran 75(3) o Ddeddf 2023.

Hysbysiadau terfynu contract

42.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn nodi gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad terfynu contract a gyhoeddir o dan adran 80(1) o Ddeddf 2023.

(2) Yr wybodaeth yw—

(a) gwybodaeth yr awdurdod contractio,

(b) enw'r caffaeliad,

(c) y cod adnabod unigryw ar gyfer—

(i) y caffaeliad, a

(ii) y contract cyhoeddus,

(i) where the modification is one which is described in paragraph 9 of Schedule 8 to that Act (transfer on corporate restructuring)—

(i) for each new supplier party to the public contract or convertible contract—

(aa) the supplier's name,

(bb) the supplier's contact postal address and email address, and

(cc) the unique identifier for the supplier, and

(ii) for each supplier that will no longer be party to the public contract or convertible contract, the same information referred to in paragraph (i)(aa) to (cc),

(j) the estimated date when—

(i) the public contract or convertible contract will be modified, and

(ii) the modification will have effect, and

(k) whether a voluntary standstill period applies in accordance with section 76(1) of the 2023 Act, and, if so, the duration of that period.

(3) For provision which requires contracting authorities to publish contracts as modified or modifications in certain cases, see section 77 of the 2023 Act.

(4) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(5) In this regulation "contract change notice" ("*hysbysiad newid contract*") has the meaning given by section 75(3) of the 2023 Act.

Contract termination notices

42.—(1) This regulation sets out other information which must be included in a contract termination notice published under section 80(1) of the 2023 Act.

(2) The information is—

(a) the contracting authority information,

(b) the title of the procurement,

(c) the unique identifier for—

(i) the procurement, and

(ii) the public contract,

(d) ar gyfer pob cyflenwr sy'n barti i'r contract cyhoeddus—

(i) enw'r cyflenwr,

(ii) cyfeiriad post cyswllt a chyfeiriad e-bost y cyflenwr, a

(iii) y cod adnabod unigryw ar gyfer y cyflenwr,

(e) y rhesymau dros derfynu'r contract cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw reswm a grybwyllir yn adran 80(3) o Ddeddf 2023),

(f) y dyddiad y cafodd y contract cyhoeddus ei derfynu,

(g) amcangyfrif o werth y contract cyhoeddus,

(h) pan fo'r contract cyhoeddus wedi ei derfynu o ganlyniad i dorri'r contract gan y cyflenwr—

(i) datganiad bod adran 71(5) o Ddeddf 2023 yn gymwys oherwydd bod y cyflenwr wedi torri'r contract,

(ii) a arweiniodd y torri at—

(aa) dyfarndalu iawndal, neu

(bb) dod i gytundeb setlo rhwng y cyflenwr a'r awdurdod contractio,

(iii) dyddiad—

(aa) unrhyw ddyfarndaliad o unrhyw iawndal, neu

(bb) unrhyw setliad,

(iv) pan na chyflawnodd y cyflenwr y contract cyhoeddus er boddhad yr awdurdod contractio, y dyddiad yr ystyriodd yr awdurdod contractio fod y cyflenwr wedi methu â gwella ei berfformiad yn unol ag adran 71(4)(c),

(v) esboniad ynghylch natur y rhwymedigaeth gontractiol a gafodd ei thorri neu nad oedd yn cael ei chyflawni er boddhad yr awdurdod contractio,

(vi) esboniad ynghylch natur y torri neu'r methiant i gyflawni, gan gynnwys—

(aa) esboniad ynghylch effaith neu ganlyniadau'r toriad neu'r methiant i gyflawni,

(bb) am ba hyd yr oedd y toriad neu'r methiant i gyflawni wedi digwydd,

(cc) esboniad ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd gan y cyflenwr i liniaru effaith neu ganlyniadau'r toriad neu'r methiant i gyflawni,

(d) for each supplier party to the public contract—

(i) the supplier's name,

(ii) the supplier's contact postal address and email address, and

(iii) the unique identifier for the supplier,

(e) the reasons for terminating the public contract (including any reason mentioned in section 80(3) of the 2023 Act),

(f) the date when the public contract was terminated,

(g) the estimated value of the public contract,

(h) where the termination of the public contract was the result of the supplier breaching the contract—

(i) a statement that section 71(5) of the 2023 Act applies because the supplier breached the contract,

(ii) whether the breach resulted in—

(aa) the award of damages, or

(bb) a settlement agreement between the supplier and the contracting authority,

(iii) the date of—

(aa) any award of any damages, or

(bb) any settlement,

(iv) where the supplier did not perform the public contract to the contracting authority's satisfaction, the date when the contracting authority considered that the supplier had failed to improve its performance in accordance with section 71(4)(c),

(v) an explanation of the nature of the contractual obligation which was breached or was not being performed to the contracting authority's satisfaction,

(vi) an explanation of the nature of the breach or failure to perform including—

(aa) an explanation of the impact or consequences of the breach or failure to perform,

(bb) the duration of the breach or failure to perform,

(cc) an explanation of any steps taken by the supplier to mitigate the impact or consequences of the breach or failure to perform,

(dd) unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod contractio i hysbysu'r cyflenwr am y toriad neu'r methiant i gyflawni a'i annog i wella'r sefyllfa, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau rhybuddio a roddwyd o dan y contract cyhoeddus neu unrhyw gyfle priodol arall i wella perfformiad yn unol ag adran 71(4)(b) o Ddeddf 2023,

(ee) pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd gan y cyflenwr i wella'r sefyllfa a pham nad oedd y rhain yn ddigon, a

(vii) pan fo iawndal wedi ei ddyfarndalu neu pan fo arian arall wedi ei dalu yn dilyn y toriad neu'r methiant i gyflawni—

(aa) cadarnhad bod hyn wedi digwydd,

(bb) swm yr iawndal neu'r arian arall a dalwyd,

(cc) y sail y dyfarndalwyd yr iawndal neu y talwyd yr arian arall arni, er enghraifft yn unol â'r contract cyhoeddus, penderfyniad llys neu dribiwnlys neu setliad wedi ei negodi, a

(dd) pan fo cofnod wedi ei wneud o benderfyniad llys neu dribiwnlys ynghylch ei ganfyddiad bod toriad wedi digwydd, dolen i'r dudalen we lle gellir cyrchu'r penderfyniad neu gopi o'r penderfyniad.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn atal awdurdod contractio rhag cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r un caffaeliad yn yr hysbysiad.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "hysbysiad terfynu contract" yr ystyr a roddir i "contract termination notice" gan adran 80(2) o Ddeddf 2023.

(dd) any steps that the contracting authority took to notify the supplier of the breach or failure to perform and encourage them to improve the situation, including any warning notices given under the public contract or other proper opportunity to improve performance pursuant to section 71(4)(b) of the 2023 Act,

(ee) what steps, if any, were taken by the supplier to improve the situation and why these were not sufficient, and

(vii) where there has been an award of damages or other monies paid following the breach or failure to perform—

(aa) confirmation that this is the case,

(bb) the amount of damages or other monies paid,

(cc) the basis on which the damages were awarded or other monies paid, for example in accordance with the public contract, a decision of a court or tribunal or a negotiated settlement, and

(dd) where there is a recorded decision of a court or tribunal finding that there was a breach, a link to the web page where the decision can be accessed or a copy of the decision.

(3) Nothing in this regulation prevents a contracting authority from publishing other information that relates to the same procurement in the notice.

(4) In this regulation "contract termination notice" ("*hysbysiad terfynu contract*") has the meaning given by section 80(2) of the 2023 Act.

RHAN 3

Darpariaethau eraill sy'n ychwanegu at Ddeddf 2023

Pennu gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn a gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy

43.—(1) At ddibenion adran 9(1) o Ddeddf 2023 (contractau cyffyrddiad ysgafn) mae'r gwasanaethau a gwmpesir gan y codau GGG a nodir yng ngholofn (1) o'r Tabl yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac a ddisgrifir yng ngholofn (2) o'r Tabl hwnnw wedi eu pennu yn wasanaethau cyffyrddiad ysgafn.

PART 3

Other provisions supplementing the 2023 Act

Specification of light touch and reservable light touch services

43.—(1) For the purposes of section 9(1) of the 2023 Act (light touch contracts) the services which are covered by the CPV codes set out in column (1) of the Table in Schedule 1 to these Regulations and described in column (2) of that Table are specified as light touch services.

(2) At ddibenion adran 33(7) o Ddeddf 2023 (neilltuo contractau i gwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus), mae gwasanaeth a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o'r Tabl yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn wedi ei bennu yn wasanaeth cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy pan fo'r llythyren "N" yn ymddangos yn y cofnod sy'n cyfateb i'r gwasanaeth hwnnw yng ngholofn (3).

Awdurdodau llywodraeth ganolog

44.—(1) Mae'r holl endidau a restrir yng ngholofn (1) neu (2) o'r Tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion y diffiniad o "central government authority" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023.

(2) Pan fo endid a restrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn cael ei olynu gan endid arall, sydd ei hun yn awdurdod contractio, bernir bod yr endid olynol wedi ei gynnwys yn yr Atodlen.

Ystyr "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023

45. At ddibenion y diffiniad o "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023, ystyr "gweithiau" yw unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau sy'n dod o fewn cod GGG sydd wedi ei restru yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

RHAN 4

Diwygiadau canlyniadol

Diwygio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

46.—(1) Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 25 (dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr), yn is-adran (2), yn lle'r geiriau o "sydd", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, hyd at y diwedd rhodder—

> "sy'n gontract gweithiau sydd â gwerth amcangyfrifedig o £2,000,000 neu fwy."

(1) 2023 dsc 1.

(2) For the purposes of section 33(7) of the 2023 Act (reserving contracts to public service mutuals), a service specified in columns (1) and (2) of the Table in Schedule 1 to these Regulations is specified as a reservable light touch service where in the entry corresponding to that service in column (3), the letter "R" appears.

Central government authorities

44.—(1) All the entities listed in column (1) or (2) of the Table in Schedule 2 to these Regulations are specified for the purposes of the definition of "central government authority" in paragraph 5(1) of Schedule 1 to the 2023 Act.

(2) Where an entity listed in Schedule 2 to these Regulations is succeeded by another entity, which is itself a contracting authority, the successor entity is deemed to be included in the Schedule.

Meaning of "works" in paragraph 5(1) of Schedule 1 to the 2023 Act

45. For the purposes of the definition of "works" in paragraph 5(1) of Schedule 1 to the 2023 Act, "works" means any of the activities coming within a CPV code listed in Schedule 3 to these Regulations.

PART 4

Consequential amendments

Amendments to the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023

46.—(1) The Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023(**1**) is amended as follows.

(2) In section 25 (socially responsible procurement duty: major construction contracts), in subsection (2), for "with" to the end substitute—

> "that is a works contract with an estimated value equal to or greater than £2,000,000."

(1) 2023 asc 1.

(3) Yn adran 45 (dehongli Rhan 3), yn is-adran (1)—

(a) hepgorer y diffiniadau o—

(i) "y Rheoliadau Contractau Consesiwn",

(ii) "y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus" ,

(iii) "contract gweithiau cyhoeddus",

(iv) "y Rheoliadau Contractau Cyfleustodau", a

(v) "contract consesiwn gweithiau";

(b) yn y diffiniad o "gweithiau", yn lle'r geiriau o "yr ystyr a roddir" hyd at y diwedd, rhodder "("*works*") yr ystyr a roddir gan reoliad 45 o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac Atodlen 3 iddynt(**1**)";

(c) yn y diffiniad o "contract gweithiau", yn lle'r geiriau o "yr ystyr a roddir" hyd at y diwedd, rhodder "yr ystyr a roddir i "works contract" gan baragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023 (p. 54);".

(4) Yn adran 45 (dehongli Rhan 3), yn is-adran (2), yn lle "â rheoliad 6(1) o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus" rhodder "ag adran 4 o Ddeddf Caffael 2023".

(3) In section 45 (interpretation of Part 3), in subsection (1)—

(a) omit the definitions of—

(i) "the Concession Contracts Regulations",

(ii) "the Public Contracts Regulations",

(iii) "public works contract",

(iv) "the Utilities Contracts Regulations", and

(v) "works concession contract";

(b) in the definition of "works" ("*gweithiau*"), for "paragraph 2 of regulation 2(1) of the Public Contracts Regulations" substitute "regulation 45 of and Schedule 3 to the Procurement (Wales) Regulations 2024(**1**)";

(c) in the definition of "works contract" ("*contract gweithiau*"), for "regulation 2(1) of the Utilities Contracts Regulations" substitute "paragraph 4 of Schedule 1 to the Procurement Act 2023 (c. 54)".

(4) In section 45 (interpretation of Part 3), in subsection (2), for "regulation 6(1) of the Public Contracts Regulations" substitute "section 4 of the Procurement Act 2023".

Diwygio Deddf 2023

47.—(1) Mae Deddf 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 17 (hysbysiadau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad), yn is-adran (3) hepgorer y geiriau a ganlyn "other than to a private utility which is a devolved Welsh authority that is not carrying out procurement under a reserved procurement arrangement or a transferred Northern Ireland procurement arrangement."

(3) Yn adran 87 (contractau rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy: hysbysiadau), yn lle is-adran (4)(a) rhodder—

"(a) in the case of a contract to be awarded by—

(i) a central government authority that is not a devolved Welsh authority, not less than £12,000;

(ii) a central government authority that is a devolved Welsh authority, not less than £30,000, or".

Amendments to the 2023 Act

47.—(1) The 2023 Act is amended as follows.

(2) In section 17 (preliminary market engagement notices), in subsection (3) omit the following words "other than to a private utility which is a devolved Welsh authority that is not carrying out procurement under a reserved procurement arrangement or a transferred Northern Ireland procurement arrangement.".

(3) In section 87 (regulated below-threshold contracts: notices), for subsection (4)(a) substitute—

"(a) in the case of a contract to be awarded by—

(i) a central government authority that is not a devolved Welsh authority, not less than £12,000;

(ii) a central government authority that is a devolved Welsh authority, not less than £30,000, or".

(**1**) O.S. 2024/782 (Cy. 121).

(**1**) S.I. 2024/782 (W. 121).

Diwygio Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003

48. Yn Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003(**1**), yn rheoliad 9(1) (ymgynghori ynghylch contractau), yn lle'r geiriau o "os" hyd at y diwedd rhodder "pan na fo gwerth amcangyfrifedig y contract arfaethedig yn llai na'r trothwy sy'n gymwys i'r awdurdod perthnasol ar gyfer y contract arfaethedig hwnnw yn unol ag adran 3 o Ddeddf Caffael 2023".

Amendment to the Schools Forums (Wales) Regulations 2003

48. In the Schools Forums (Wales) Regulations 2003(**1**), in regulation 9(1) (consultation on contracts), for "regulation 5 of the Public Contracts Regulations 2015" substitute "section 3 of the Procurement Act 2023".

Diwygio Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004

49. Yn Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004(**2**), yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "hysbysiad cyhoeddus", yn lle "hysbysiad a gyhoeddir, yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ar wasanaeth e-hysbysu'r DU (fel y'i diffinnir gan y Rheoliadau hynny)" rhodder "unrhyw hysbysiad a gyhoeddir yn unol â Deddf Caffael 2023 sy'n ymwneud â chontract cyhoeddus (o fewn yr ystyr a roddir i "public contract" gan adran 3 o'r Ddeddf honno)".

Amendment to the Service Charges (Consultation Requirements) (Wales) Regulations 2004

49. In the Service Charges (Consultation Requirements) (Wales) Regulations 2004(**2**), in regulation 2(1) (interpretation), in the definition of "public notice" ("*hysbysiad cyhoeddus*"), for "means notice published pursuant to the Public Contracts Regulations 2015, on the UK e-notification service (as defined by those Regulations)" substitute "means any notice published, pursuant to the Procurement Act 2023 which relates to a public contract (within the meaning of section 3 of that Act)".

Diwygio Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

50.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18 (caffael cyhoeddus)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "gwneud cytundeb perthnasol ar sail y cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd" rhodder "dyfarnu contract cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "cytundeb perthnasol" rhodder "contract cyhoeddus";

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "meini prawf", "gweithdrefn dendro gystadleuol", "awdurdod contractio" a "contract cyhoeddus" yr un ystyr ag a roddir i "award criteria", "competitive tendering procedure", "contracting authority" a "public contract" yn y drefn honno yn Neddf Caffael 2023."

Amendments to the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011

50.—(1) The Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 18 (public procurement)—

(a) in paragraph (1), for "enter into a relevant agreement on the basis of an offer which is the most economically advantageous" substitute "award a public contract following a competitive tendering procedure";

(b) in paragraph (2), for "relevant agreement" substitute "public contract";

(c) for paragraph (3) substitute—

"(3) In this regulation, "award criteria" ("*meini prawf*"), "competitive tendering procedure" ("*gweithdrefn dendro gystadleuol*"), "contracting authority" ("*awdurdod contractio*"), and "public contract" ("*contract cyhoeddus*") have the same meaning as in the Procurement Act 2023."

(**1**) O.S. 2003/2909 (Cy. 275). Diwygiwyd rheoliad 9(1) gan O.S. 2006/5, Atodlen 7(1), paragraff 4 ac O.S. 2015/102, Atodlen 6(2), paragraff 13.
(**2**) O.S. 2004/684 (Cy. 72). Diwygiwyd rheoliad 2(1) gan O.S. 2006/5, Atodlen 7(1), paragraff 5 ac O.S. 2019/116, rheoliad 2.
(**3**) O.S. 2011/1064 (Cy. 155). Diwygiwyd rheoliad 18 gan O.S. 2019/120, rheoliad 2.

(**1**) S.I. 2003/2909 (W. 275). Regulation 9(1) was amended by S.I. 2006/5 Schedule 7(1) paragraph 4; and S.I. 2015/102 Schedule 6(2) paragraph 13.
(**2**) S.I. 2004/684 (W. 72). Regulation 2(1) was amended by S.I. 2006/5 Schedule 7(1) paragraph 5; and S.I. 2019/116 regulation 2;
(**3**) S.I. 2011/1064 (W. 155). Regulation 18 was amended by S.I. 2019/120 regulation 2.

Diwygio Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018

51. Yn Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018(**1**), hepgorer rheoliad 2.

Amendment to the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (Consequential and Supplemental Provisions) Regulations 2018

51. In the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (Consequential and Supplemental Provisions) Regulations 2018(**1**), omit regulation 2.

Diwygio Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

52. Yn Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(**2**), yn rheoliad 6, hepgorer paragraff (27)(ii).

Amendment to the Agricultural Support (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021

52. In the Agricultural Support (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2021(**2**), in regulation 6, omit paragraph (27)(ii).

Diwygio Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023

53. Yn Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023(**3**), hepgorer rheoliadau 2 i 5.

Amendments to the Public Procurement (International Trade Agreements) (Amendment) (Wales) (No. 2) Regulations 2023

53. In the Public Procurement (International Trade Agreements) (Amendment) (Wales) (No. 2) Regulations 2023(**3**), omit regulations 2 to 5.

Diwygio Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013

54. Yn Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013(**4**), yn Erthygl 68a(1), yn lle "the threshold set out in regulation 5 of the Public Contracts Regulations 2015" rhodder "the relevant threshold amount set out in Schedule 1 to the Procurement Act 2023".

Amendment to Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013

54. In Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013(**4**), in Article 68a(1), for "the threshold set out in regulation 5 of the Public Contracts Regulations 2015" substitute "the relevant threshold amount set out in Schedule 1 to the Procurement Act 2023".

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, un o Weinidogion Cymru
3 Gorffennaf 2024

The Cabinet Secretary for Finance, Constitution, and Cabinet Office, one of the Welsh Ministers
3 July 2024

(**1**) O.S. 2018/285 (Cy. 54).
(**2**) O.S. 2021/400 (Cy. 129).
(**3**) O.S. 2023/567 (Cy. 88).
(**4**) Rheoliad (EU) Rhif 1303/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013.

(**1**) S.I. 2018/285 (W. 54).
(**2**) S.I. 2021/400 (W. 129).
(**3**) S.I. 2023/567 (W. 88).
(**4**) Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Rheoliad 43

Gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn

Cod GGG (1)	Gwasanaeth (2)	Neilltuadwy (3)
Gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig		
75231200	Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chadw neu adsefydlu troseddwyr	
75231240	Gwasanaethau prawf	
79611000	Gwasanaethau chwilio am swydd	
79622000	Gwasanaethau cyflenwi personél cymorth domestig	N
79624000	Gwasanaethau cyflenwi personél nyrsio	N
79625000	Gwasanaethau cyflenwi personél meddygol	N
85000000	Gwasanaethau iechyd a gwaith cymdeithasol	N
85100000	Gwasanaethau iechyd	N
85110000	Gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cysylltiedig	N
85111000	Gwasanaethau ysbyty	N
85111100	Gwasanaethau ysbyty llawfeddygol	N
85111200	Gwasanaethau ysbyty meddygol	N
85111300	Gwasanaethau ysbyty gynaecolegol	N
85111310	Gwasanaethau ffrwythloni in vitro	N
85111320	Gwasanaethau ysbyty obstetrig	N
85111400	Gwasanaethau ysbyty adsefydlu	N
85111500	Gwasanaethau ysbyty seiciatrig	N
85111600	Gwasanaethau orthoteg	N
85111700	Gwasanaethau therapi ocsigen	N

85111800	Gwasanaethau patholeg	N
85111810	Gwasanaethau dadansoddi gwaed	N
85111820	Gwasanaethau dadansoddi bacteriolegol	N
85111900	Gwasanaethau dialysis ysbyty	N
85112000	Gwasanaethau cymorth ysbyty	N
85112100	Gwasanaethau gwelyau ysbyty	N
85112200	Gwasanaethau gofal i gleifion allanol	N
85120000	Gwasanaethau ymarfer meddygol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85121000	Gwasanaethau ymarfer meddygol	N
85121100	Gwasanaethau ymarfer cyffredinol	N
85121200	Gwasanaethau arbenigol meddygol	N
85121210	Gwasanaethau gynaecoleg neu obstetreg	N
85121220	Gwasanaethau arbenigol arenneg neu'r system nerfol	N
85121230	Gwasanaethau cardioleg neu wasanaethau arbenigol yr ysgyfaint	N
85121231	Gwasanaethau cardioleg	N
85121232	Gwasanaethau arbenigol yr ysgyfaint	N
85121240	Gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf neu wasanaethau awdiolegydd	N
85121250	Gwasanaethau gastroenteroleg a geriatreg	N
85121251	Gwasanaethau gastroenteroleg	N
85121252	Gwasanaethau geriatreg	N
85121270	Gwasanaethau seiciatreg neu seicoleg	N
85121271	Gwasanaethau cartref ar gyfer pobl â phroblemau seicolegol	N
85121280	Gwasanaethau offthalmoleg, dermatoleg neu orthopaedeg	N
85121281	Gwasanaethau offthalmoleg	N
85121282	Gwasanaethau dermatoleg	N
85121283	Gwasanaethau orthopaedeg	N
85121290	Gwasanaethau paediatreg neu wroleg	N

85121291	Gwasanaethau paediatreg	N
85121292	Gwasanaethau wroleg	N
85121300	Gwasanaethau arbenigol llawfeddygol	N
85130000	Gwasanaethau ymarfer deintyddol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85131000	Gwasanaethau ymarfer deintyddol	N
85131100	Gwasanaethau orthodonteg	N
85131110	Gwasanaethau llawfeddygaeth orthodontig	N
85140000	Gwasanaethau iechyd amrywiol	N
85141000	Gwasanaethau a ddarperir gan bersonél meddygol	N
85141100	Gwasanaethau a ddarperir gan fydwragedd	N
85141200	Gwasanaethau a ddarperir gan nyrsys	N
85141210	Gwasanaethau triniaeth feddygol yn y cartref	N
85141211	Gwasanaethau triniaeth feddygol dialysis yn y cartref	N
85141220	Gwasanaethau cynghori a ddarperir gan nyrsys	N
85142000	Gwasanaethau parafeddygol	N
85142100	Gwasanaethau ffisiotherapi	N
85142200	Gwasanaethau homeopathi	N
85142300	Gwasanaethau hylendid	N
85142400	Danfon cynhyrchion anymataliaeth i'r cartref	N
85143000	Gwasanaethau ambiwlans	N
85144000	Gwasanaethau cyfleusterau iechyd preswyl	N
85144100	Gwasanaethau gofal nyrsio preswyl	N
85145000	Gwasanaethau a ddarperir gan labordai meddygol	N
85146000	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau gwaed	N
85146100	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau sberm	N
85146200	Gwasanaethau a ddarperir gan fanciau organau trawsblannu	N
85147000	Gwasanaethau iechyd cwmni	N

85148000	Gwasanaethau dadansoddi meddygol	N
85149000	Gwasanaethau fferylliaeth	N
85150000	Gwasanaethau delweddu meddygol	N
85160000	Gwasanaethau optegydd	N
85170000	Gwasanaethau aciwbigo a chiropracteg	N
85171000	Gwasanaethau aciwbigo	N
85172000	Gwasanaethau ciropracteg	N
85200000	Gwasanaethau milfeddygaeth	N
85210000	Meithrinfeydd anifeiliaid domestig	N
85300000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig	N
85310000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol	N
85311000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol gyda llety	N
85311100	Gwasanaethau lles ar gyfer yr henoed	N
85311200	Gwasanaethau lles ar gyfer pobl anabl	N
85311300	Gwasanaethau lles ar gyfer plant a phobl ifanc	N
85312000	Gwasanaethau gwaith cymdeithasol heb lety	N
85312100	Gwasanaethau gofal dydd	N
85312110	Gwasanaethau gofal dydd i blant	N
85312120	Gwasanaethau gofal dydd ar gyfer plant a phobl ifanc anabl	N
85312200	Danfon cyflenwadau i'r cartref	N
85312300	Gwasanaethau arweiniad a chwnsela	N
85312310	Gwasanaethau arweiniad	N
85312320	Gwasanaethau cwnsela	N
85312330	Gwasanaethau cynllunio teulu	N
85312400	Gwasanaethau lles na chânt eu darparu drwy sefydliadau preswyl	N
85312500	Gwasanaethau adsefydlu	N
85312510	Gwasanaethau adsefydlu galwedigaethol	N

85320000	Gwasanaethau cymdeithasol	N
85321000	Gwasanaethau cymdeithasol gweinyddol	N
85322000	Rhaglen gweithredu cymunedol	N
85323000	Gwasanaethau iechyd cymunedol	N
98133000	Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau aelodaeth gymdeithasol	N
98133100	Gwasanaethau cymorth cyfleusterau cymunedol a gwelliant dinesig	N
98200000	Gwasanaethau ymgynghori ar gyfleoedd cyfartal	
98500000	Aelwydydd preifat â phersonau cyflogedig	
98513000	Gwasanaethau llafurlu ar gyfer aelwydydd	
98513100	Gwasanaethau staff asiantaeth ar gyfer aelwydydd	
98513200	Gwasanaethau staff clercol ar gyfer aelwydydd	
98513300	Staff dros dro ar gyfer aelwydydd	
98513310	Gwasanaethau cymorth cartref	
98514000	Gwasanaethau domestig	

Gwasanaethau cymdeithasol, addysgol, gofal iechyd a diwylliannol gweinyddol

75000000	Gwasanaethau gweinyddu, amddiffyn a nawdd cymdeithasol	
75121000	Gwasanaethau addysgol gweinyddol	N
75122000	Gwasanaethau gofal iechyd gweinyddol	N
75124000	Gwasanaethau hamdden, diwylliant a chrefydd gweinyddol	
79950000	Gwasanaethau trefnu arddangosfeydd, ffeiriau a chynadleddau	
79951000	Gwasanaethau trefnu seminarau	
79952000	Gwasanaethau digwyddiadau	
79952100	Gwasanaethau trefnu digwyddiadau diwylliannol	
79953000	Gwasanaethau trefnu gwyliau	

79954000	Gwasanaethau trefnu partïon	
79955000	Gwasanaethau trefnu sioeau ffasiwn	
79956000	Gwasanaethau trefnu ffeiriau ac arddangosfeydd	
79995000	Gwasanaethau rheoli llyfrgelloedd	
79995100	Gwasanaethau archifo	
79995200	Gwasanaethau catalogio	
80000000	Gwasanaethau addysg a hyfforddiant	
80100000	Gwasanaethau addysg gynradd	
80110000	Gwasanaethau addysg gyn ysgol	N
80200000	Gwasanaethau addysg uwchradd	
80210000	Gwasanaethau addysg uwchradd dechnegol a galwedigaethol	
80211000	Gwasanaethau addysg uwchradd dechnegol	
80212000	Gwasanaethau addysg uwchradd alwedigaethol	
80300000	Gwasanaethau addysg uwch	N
80310000	Gwasanaethau addysg ieuenctid	N
80320000	Gwasanaethau addysg feddygol	N
80330000	Gwasanaethau addysg diogelwch	N
80340000	Gwasanaethau addysg arbennig	N
80400000	Gwasanaethau addysg oedolion a gwasanaethau addysg eraill	
80410000	Gwasanaethau ysgol amrywiol	
80411000	Gwasanaethau ysgol yrru	
80411100	Gwasanaethau prawf gyrru	
80411200	Gwersi gyrru	
80412000	Gwasanaethau ysgol hedfan	
80413000	Gwasanaethau ysgol hwylio	
80414000	Gwasanaethau ysgol blymio	
80415000	Gwasanaethau hyfforddiant sgïo	
80420000	Gwasanaethau e-ddysgu	N
80430000	Gwasanaethau addysg oedolion ar lefel prifysgol	N

80490000	Gweithredu canolfan addysgol	
80500000	Gwasanaethau hyfforddi	
80510000	Gwasanaethau hyfforddi arbenigol	
80511000	Gwasanaethau hyfforddi staff	N
80512000	Gwasanaethau hyfforddi cŵn	
80513000	Gwasanaethau ysgol farchogaeth	
80520000	Cyfleusterau hyfforddi	N
80521000	Gwasanaethau rhaglenni hyfforddi	N
80522000	Seminarau hyfforddi	N
80530000	Gwasanaethau hyfforddiant galwedigaethol	
80531000	Gwasanaethau hyfforddiant diwydiannol a thechnegol	
80531100	Gwasanaethau hyfforddiant diwydiannol	
80531200	Gwasanaethau hyfforddiant technegol	
80532000	Gwasanaethau hyfforddiant rheoli	
80533000	Gwasanaethau ymgyfarwyddo a hyfforddi defnyddwyr cyfrifiaduron	
80533100	Gwasanaethau hyfforddiant cyfrifiadurol	
80533200	Cyrsiau cyfrifiadur	
80540000	Gwasanaethau hyfforddiant amgylcheddol	
80550000	Gwasanaethau hyfforddiant diogelwch	
80560000	Gwasanaethau hyfforddiant iechyd a chymorth cyntaf	
80561000	Gwasanaethau hyfforddiant iechyd	
80562000	Gwasanaethau hyfforddiant cymorth cyntaf	
80570000	Gwasanaethau hyfforddiant datblygiad personol	
80580000	Darparu cyrsiau iaith	
80590000	Gwasanaethau tiwtora	N
80610000	Hyfforddi ac efelychu ar gyfer cyfarpar diogelwch	
80620000	Hyfforddi ac efelychu ar gyfer arfau tanio a bwledi a chetris	

92000000	Gwasanaethau hamdden, diwylliant a chwaraeon
92100000	Gwasanaethau ffilm a fideo
92110000	Gwasanaethau cynhyrchu ffilmiau a thapiau fideo a gwasanaethau perthynol
92111000	Gwasanaethau cynhyrchu ffilmiau a fideos
92111100	Cynhyrchu ffilmiau a thapiau fideo hyfforddi
92111200	Cynhyrchu ffilmiau a thapiau fideo hysbysebu, propaganda a gwybodaeth
92111210	Cynhyrchu ffilmiau hysbysebu
92111220	Cynhyrchu tapiau fideo hysbysebu
92111230	Cynhyrchu ffilmiau propaganda
92111240	Cynhyrchu tapiau fideo propaganda
92111250	Cynhyrchu ffilmiau gwybodaeth
92111260	Cynhyrchu tapiau fideo gwybodaeth
92111300	Cynhyrchu ffilmiau a thapiau fideo adloniant
92111310	Cynhyrchu ffilmiau adloniant
92111320	Cynhyrchu tapiau fideo adloniant
92112000	Gwasanaethau mewn cysylltiad â chynhyrchu ffilmiau a thapiau fideo
92120000	Gwasanaethau dosbarthu ffilmiau neu dapiau fideo
92121000	Gwasanaethau dosbarthu tapiau fideo
92122000	Gwasanaethau dosbarthu ffilmiau
92130000	Gwasanaethau taflunio ffilmiau
92140000	Gwasanaethau taflunio tapiau fideo
92200000	Gwasanaethau radio a theledu
92210000	Gwasanaethau radio
92211000	Gwasanaethau cynhyrchu radio
92213000	Gwasanaethau systemau radio ar raddfa fach
92214000	Gwasanaethau stiwdio neu gyfarpar radio

92215000	Gwasanaethau Radio Symudol Cyffredinol (GMRS)
92220000	Gwasanaethau teledu
92221000	Gwasanaethau cynhyrchu teledu
92222000	Gwasanaethau teledu cylch cyfyng
92224000	Teledu digidol
92225000	Teledu rhyngweithiol
92225100	Teledu ffilm ar alw
92226000	Teleraglennu
92230000	Gwasanaethau cebl radio a theledu
92231000	Gwasanaethau dwyochrog rhyngwladol a llinellau ar log preifat rhyngwladol
92232000	Teledu cebl
92300000	Gwasanaethau adloniant
92310000	Gwasanaethau creu a dehongli artistig a llenyddol
92311000	Gweithiau celfyddyd
92312000	Gwasanaethau artistig
92312100	Gwasanaethau adloniant cynhyrchwyr theatr, grwpiau cantorion, bandiau a cherddorfeydd
92312110	Gwasanaethau adloniant cynhyrchwyr theatr
92312120	Gwasanaethau adloniant grwpiau cantorion
92312130	Gwasanaethau adloniant bandiau
92312140	Gwasanaethau adloniant cerddorfeydd
92312200	Gwasanaethau a ddarperir gan awduron, cyfansoddwyr, cerflunwyr, diddanwyr ac artistiaid unigol eraill
92312210	Gwasanaethau a ddarperir gan awduron
92312211	Gwasanaethau asiantaeth ysgrifennu
92312212	Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â pharatoi llawlyfrau hyfforddi
92312213	Gwasanaethau awduron technegol

92312220	Gwasanaethau a ddarperir gan gyfansoddwyr	
92312230	Gwasanaethau a ddarperir gan gerflunwyr	
92312240	Gwasanaethau a ddarperir gan ddiddanwyr	
92312250	Gwasanaethau a ddarperir gan artistiaid unigol	
92312251	Gwasanaethau troellwyr disgiau	
92320000	Gwasanaethau gweithredu cyfleusterau celf	
92330000	Gwasanaethau ardaloedd hamdden	
92331000	Gwasanaethau ffeiriau a pharciau diddanu	
92331100	Gwasanaethau ffeiriau	
92331200	Gwasanaethau parciau diddanu	
92331210	Gwasanaethau animeiddio i blant	
92332000	Gwasanaethau glan môr	
92340000	Gwasanaethau dawnsio ac adloniant perfformio	
92341000	Gwasanaethau syrcas	
92342000	Gwasanaethau gwersi dawnsio	
92342100	Gwasanaethau gwersi dawnsio neuadd	
92342200	Gwasanaethau gwersi dawnsio disgo	
92350000	Gwasanaethau gamblo a betio	
92351000	Gwasanaethau gamblo	
92351100	Gwasanaethau gweithredu loteri	
92351200	Gwasanaethau gweithredu casinos	
92352000	Gwasanaethau betio	
92352100	Gwasanaethau gweithredu cyfansymwyr	
92352200	Gwasanaethau bwci	
92360000	Gwasanaethau tân gwyllt	
92370000	Technegydd sain	
92400000	Gwasanaethau asiantaeth newyddion	
92500000	Gwasanaethau llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd a gwasanaethau diwylliannol eraill	N

92510000	Gwasanaethau llyfrgelloedd ac archifau	N
92511000	Gwasanaethau llyfrgelloedd	N
92512000	Gwasanaethau archifau	N
92512100	Gwasanaethau dinistrio archifau	N
92520000	Gwasanaethau amgueddfeydd a gwasanaethau diogelu safleoedd ac adeiladau hanesyddol	N
92521000	Gwasanaethau amgueddfeydd	N
92521100	Gwasanaethau arddangosfeydd amgueddfa	N
92521200	Gwasanaethau diogelu arddangosion a sbesimenau	N
92521210	Gwasanaethau diogelu arddangosion	N
92521220	Gwasanaethau diogelu sbesimenau	N
92522000	Gwasanaethau diogelu safleoedd ac adeiladau hanesyddol	N
92522100	Gwasanaethau diogelu safleoedd hanesyddol	N
92522200	Gwasanaethau diogelu adeiladau hanesyddol	N
92530000	Gwasanaethau gerddi botaneg a swoleg a gwasanaethau gwarchodfeydd natur	N
92531000	Gwasanaethau gerddi botaneg	N
92532000	Gwasanaethau gerddi swoleg	N
92533000	Gwasanaethau gwarchodfeydd natur	N
92534000	Gwasanaethau gwarchod bywyd gwyllt	N
92600000	Gwasanaethau chwaraeon	N
92610000	Gwasanaethau gweithredu cyfleusterau chwaraeon	N
92620000	Gwasanaethau sy’n gysylltiedig â chwaraeon	N
92621000	Gwasanaethau hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon	N
92622000	Gwasanaethau trefnu digwyddiadau chwaraeon	N
92700000	Gwasanaethau gwe gaffis	

Gwasanaethau nawdd cymdeithasol gorfodol

75300000	Gwasanaethau nawdd cymdeithasol gorfodol
Gwasanaethau budd-daliadau	
75310000	Gwasanaethau budd-daliadau
75311000	Budd-daliadau salwch
75312000	Budd-daliadau mamolaeth
75313000	Budd-daliadau anabledd
75313100	Budd-daliadau anabledd dros dro
75314000	Budd-daliadau iawndal diweithdra
75320000	Cynlluniau pensiwn cyflogeion y Llywodraeth
75330000	Lwfansau teulu
75340000	Lwfansau plant

Gwasanaethau cymunedol, cymdeithasol a phersonol eraill gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan undebau llafur, sefydliadau gwleidyddol, cymdeithasau ieuenctid a gwasanaethau sefydliadau aelodaeth eraill

98000000	Gwasanaethau cymunedol, cymdeithasol a phersonol eraill	
98120000	Gwasanaethau a ddarperir gan undebau llafur	
98130000	Gwasanaethau sefydliadau aelodaeth amrywiol	
98132000	Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau gwleidyddol	
98133110	Gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau ieuenctid	N
Gwasanaethau crefyddol		
98131000	Gwasanaethau crefyddol	

Gwasanaethau gwesty a bwyty

55100000	Gwasanaethau gwesty	
55110000	Gwasanaethau llety gwesty	
55120000	Gwasanaethau cyfarfodydd a chynadleddau gwesty	

55130000	Mathau eraill o wasanaethau gwesty	
55200000	Meysydd gwersylla a llety arall nad yw'n westy	
55210000	Gwasanaethau hostel ieuenctid	
55220000	Gwasanaethau maes gwersylla	
55221000	Gwasanaethau safle carafannau	
55240000	Gwasanaethau canolfan wyliau a chartref gwyliau	
55241000	Gwasanaethau canolfan wyliau	
55242000	Gwasanaethau cartref gwyliau	
55243000	Gwasanaethau gwersyll gwyliau i blant	
55250000	Gwasanaethau gosod llety wedi'i ddodrefnu am gyfnod byr	
55260000	Gwasanaethau cerbydau cysgu	
55270000	Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau gwely a brecwast	
55300000	Gwasanaethau bwyty a gweini bwyd	
55310000	Gwasanaethau gweinydd bwyty	
55311000	Gwasanaethau gweinydd bwyty i gwsmeriaid cyfyngedig	
55312000	Gwasanaethau gweinydd bwyty i gwsmeriaid anghyfyngedig	

55320000	Gwasanaethau gweini prydau	
55321000	Gwasanaethau paratoi prydau	
55322000	Gwasanaethau coginio prydau	
55330000	Gwasanaethau caffeteria	
55400000	Gwasanaethau gweini diodydd	
55410000	Gwasanaethau rheoli bar	
55510000	Gwasanaethau ffreutur	
55511000	Gwasanaethau ffreutur a gwasanaethau caffeteria eraill i gwsmeriaid cyfyngedig	
55512000	Gwasanaethau rheoli ffreutur	
55520000	Gwasanaethau arlwyo	
55521000	Gwasanaethau arlwyo ar gyfer aelwydydd preifat	
55521100	Gwasanaethau pryd ar glud	
55521200	Gwasanaethau danfon prydau	
55522000	Gwasanaethau arlwyo ar gyfer mentrau trafnidiaeth	
55523000	Gwasanaethau arlwyo ar gyfer mentrau neu sefydliadau eraill	
55523100	Gwasanaethau prydau ysgol	
55524000	Gwasanaethau arlwyo ysgolion	

Gwasanaethau cyfreithiol, i'r graddau nad ydynt wedi eu cynnwys gan baragraff 14 o Atodlen 2 i Ddeddf 2023

75231100	Gwasanaethau gweinyddol sy'n gysylltiedig â llysoedd barn	
79100000	Gwasanaethau cyfreithiol	

79110000	Gwasanaethau cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol
79111000	Gwasanaethau cyngor cyfreithiol
79112000	Gwasanaethau cynrychiolaeth gyfreithiol
79112100	Gwasanaethau cynrychioli rhanddeiliaid
79120000	Gwasanaethau ymgynghori ar batentau a hawlfraint
79121000	Gwasanaethau ymgynghori ar hawlfraint
79121100	Gwasanaethau ymgynghori ar hawlfraint meddalwedd
79130000	Gwasanaethau dogfennu ac ardystio cyfreithiol
79131000	Gwasanaethau dogfennu
79132000	Gwasanaethau ardystio
79132100	Gwasanaethau ardystio llofnodion electronig
79140000	Gwasanaethau cyngor cyfreithiol a gwybodaeth gyfreithiol

Gwasanaethau gweinyddu eraill a gwasanaethau'r llywodraeth

75100000	Gwasanaethau gweinyddu
75110000	Gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol
75111000	Gwasanaethau gweithredol a deddfwriaethol
75111100	Gwasanaethau gweithredol
75111200	Gwasanaethau deddfwriaethol
75112000	Gwasanaethau gweinyddol ar gyfer gweithrediadau busnes
75112100	Gwasanaethau prosiectau datblygu gweinyddol
75120000	Gwasanaethau gweinyddol asiantaethau

75123000	Gwasanaethau tai gweinyddol	N
75125000	Gwasanaethau gweinyddol sy'n gysylltiedig â materion twristiaeth	
75130000	Gwasanaethau ategol ar gyfer y llywodraeth	
75131000	Gwasanaethau'r llywodraeth	

Darparu gwasanaethau i'r gymuned

75200000	Darparu gwasanaethau i'r gymuned
75210000	Gwasanaethau materion tramor a gwasanaethau eraill
75211000	Gwasanaethau materion tramor
75211100	Gwasanaethau diplomyddol
75211110	Gwasanaethau consylaidd
75211200	Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chymorth economaidd tramor
75222000	Gwasanaethau amddiffyn sifil
75230000	Gwasanaethau cyfiawnder
75231000	Gwasanaethau barnwrol

Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â charchardai, gwasanaethau diogelwch y cyhoedd a gwasanaethau achub i'r graddau nad ydynt wedi eu gwahardd gan baragraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf 2023

75231210	Gwasanaethau carcharu
75231220	Gwasanaethau hebrwng carcharorion
75231230	Gwasanaethau carchar
75240000	Gwasanaethau diogelwch y cyhoedd, cyfraith a threfn
75241000	Gwasanaethau diogelwch y cyhoedd
75241100	Gwasanaethau'r heddlu
75242000	Gwasanaethau cyfraith a threfn gyhoeddus
75242100	Gwasanaethau trefn gyhoeddus
75242110	Gwasanaethau beili
75250000	Gwasanaethau'r frigâd dân a gwasanaethau achub
75251000	Gwasanaethau'r frigâd dân
75251100	Gwasanaethau diffodd tân
75251110	Gwasanaethau atal tân
75251120	Gwasanaethau diffodd tanau coedwig

75252000	Gwasanaethau achub
79430000	Gwasanaethau rheoli argyfwng
98113100	Gwasanaethau diogelwch niwclear

Gwasanaethau ymchwilio a diogelwch

79700000	Gwasanaethau ymchwilio a diogelwch
79710000	Gwasanaethau diogelwch
79711000	Gwasanaethau monitro larwm
79713000	Gwasanaethau giard
79714000	Gwasanaethau gwyliadwriaeth
